



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3)

[Cyf: 20150529ASCCC(3) – 1]

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3)	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	3
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol	5
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	172
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg	178
7	Casgliadau'r Ymchwiliad Safonau	180
8	Y camau nesaf	190
	Atodiad A - Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2	191
	Atodiad B— Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	196

1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 7 Tachwedd 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'¹. Cafodd y safonau arfaethedig hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Mae'r safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar y cynlluniau iaith. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol, strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.²

Bu'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015³ i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹ <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>

² <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-consultation-welsh-language-standards-cy.pdf>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3)

Yn unol ag adran 62, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw'r personau unigol canlynol:

- Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch
- Colegau Cymru Cyfyngedig
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau
- The National Institute of Adult Continuing Education
- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw'r personau perthnasol. Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu ar ba safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (1) ai peidio). Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 17 Tachwedd 2014. Daeth i ben ar 6 Chwefror 2015.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan bob person perthnasol y nodir uchod. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei lenwi ganddynt. Yn gyfochrog â'r broses o gasglu tystiolaeth gan bob person perthnasol, casglwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori a'r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i'r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd nodi beth roeddynt yn teimlo sy'n rhesymol i'r personau perthnasol ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014. Gosodwyd hysbysiadau yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw'r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, gosodwyd fideo ar wefan y Comisiynydd er mwyn rhoi cyflwyniad i'r broses, ac i ddangos i'r cyhoedd sut y gallant ymateb i'r ymchwiliad safonau.

3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25 (1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- (b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosoddyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd—

- (a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddo ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid yw unrhyw un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd⁴ dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

⁴ Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig.

4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob person perthnasol a enwir yn adran 2 o'r adroddiad safonau hwn. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 190 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau dilynol.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i adnabod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y sefydliad dan sylw.

Darperir yn yr adran hon ganran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol, sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb â'r union ofynion sydd ynghlwm â'r safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl bod y personau perthnasol dan sylw yn ymrwymo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nid yw hwnnw wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob person perthnasol a nodir, yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau maent yn gwneud trwy'r Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Ar 31 Hydref 2014, nid oedd y person perthnasol a ganlyn yn meddu ar gynllun iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

● Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Lle bo unrhyw gyfeiriadau at safonau yn yr adroddiad safonau hwn, cyfeirir at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014.

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nododd y sefydliad y byddai'n bosibl cydymffurfio a safonau 1-7 mewn perthynas ag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd pryder y byddai manylion arbenigol, cyfreithiol neu dechnegol yn cael eu colli wrth gyfieithu gohebiaeth gydag aelodau'r sefydliad. Nodwyd hefyd o ran safonau 6 a 7 na fyddai'n bosibl sicrhau fod fersiynau Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth yn cael eu dyroddi ar yr un pryd, gan dynnu sylw at amgylchiadau ble na fyddai'n bosibl oedi er mwyn cyfieithu dogfen frys er mwyn cyflawni'i swyddogaeth o amddiffyn y cyhoedd.

Ar y cyfan, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Mynegwyd nad oedd ganddo unrhyw aelodau staff a oedd yn siarad Cymraeg. Yn ategol i hynny, nodwyd nad oedd wedi derbyn galwad yn Gymraeg ers o leiaf bum mlynedd.

Cydnabuwyd y byddai'n bosibl cydymffurfio â rhai o'r safonau yng nghyd-destun galwadau gan aelodau o'r cyhoedd o Gymru, a hynny yn amodol ar y ffaith y byddai oedi tra bod gwasanaethau cyfieithu yn cael eu trefnu.

Nodwyd na fyddai safonau 15 a 22 yn berthnasol gan nad oedd ganddo ddangosyddion perfformiad o ran delio â galwadau ffôn, na system ffôn wedi'i hawtomeiddio.

Ar y cyfan, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd o'r farn y byddai'r safonau yn ymwneud â chyfarfodydd heb wasanaeth gyfieithu yn bresennol yn rhesymol a chymesur gan nad oedd gan y sefydliad unrhyw aelodau staff yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, byddai'n bosibl cydymffurfio â'r safonau lle mae gwasanaeth gyfieithu yn bresennol, cyn belled â'u bod yn ymwneud â chyfarfodydd gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, a bod cyfranogwyr wedi mynegi o flaen llaw eu bod am

siarad Cymraeg. Nodwyd hefyd y byddai'n bosibl cwrdd â safon 27C pe bai'r trothwy yn 60% yn hytrach na 30%.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Cydnabuwyd y byddai'n bosibl iddo gydymffurfio â safonau 30-32 pe baent yn berthnasol yng Nghymru yn unig ac yng nghyd-destun cyfarfodydd â'r cyhoedd yn hytrach na chyfarfodydd arbenigol, cyfreithiol neu dechnegol.

Roedd y Cyngor o'r farn y byddai cynnal cyfarfodydd ynglŷn â'r pynciau hyn yn Gymraeg yn gwneud cyfieithu'n anodd. Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth fod cost gwasanaethau cyfieithu'n anodd ei gyfiawnhau pe na byddai'r sefydliad wedi cael ei hysbysu o flaen llaw gan fynychwyr eu bod am siarad Cymraeg mewn cyfarfod.

Nodwyd na fyddai'n bosibl cydymffurfio â safon 34 gan nad oedd yr holl ddeunydd ar gael yn Gymraeg. Aethpwyd ymlaen i nodi ei fod eisoes yn cyhoeddi dwy ddogfen yn y Gymraeg, ac na chafodd y dogfennau yma eu lawr lwytho o wefan y sefydliad o gwbl yn ystod 2014. Golyga hyn nad oedd y sefydliad yn medru cyfiawnhau cyfieithu'i holl adnoddau.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Er nad oedd y sefydliad yn teimlo y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, roedd parodrwydd i gydymffurfio'r safonau mewn cyfarfodydd ag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yn unig, a bod cyfranogwyr wedi nodi o flaen llaw eu dewis i siarad Cymraeg.

Nodwyd hefyd y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i'r sefydliad i ddisgwyl fod trefnwyr digwyddiadau yn sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn digwyddiadau ble roeddent yn cyfrannu llai na 70% o'r cyllid am ddigwyddiad.

Yn yr un modd, mynegwyd pryder y byddai rhai materion y tu hwnt i'w reolaeth, yn gwneud cydymffurfio â safon 36 ar bob achlysur yn amhosibl.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nid oedd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n

ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nodwyd y byddai yn medru cydymffurfio â safonau 38 a 39 os oeddent wedi'u cyfyngu i ddeunydd a dargedir at aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Nododd y sefydliad na fyddai'n rhesymol neu'n gymesur iddo orfod sicrhau fod sleidiau a deunydd gweledol eraill yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Nodwyd ganddo bod risg o ddrysu cyfranogwyr, a hynny oherwydd y wybodaeth gymhleth a thechnegol a gyflëir yn aml.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Ystyriodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â chorff yn cyhoeddi dogfennau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Er hynny, nodwyd y gallai gwrdd â rhai o'r safonau mewn perthynas â'i ymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth ystyried safonau'n ymwneud â chyfieithu dogfennau i'r Gymraeg, teimlodd y sefydliad y dylid ystyried cost y gwaith yma yn gyfochrog â ffactorau eraill megis y galw presennol am ddogfennau Cymraeg a'r galw er enghraifft am gael papurau Cyngor mor gyfoes â phosib.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Ystyriodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â chorff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Er hynny, nodwyd y gallai gwrdd â safon 50 yng nghyd-destun ffurflenni a oedd wedi'u targedu at y cyhoedd yng Nghymru. Nodwyd na fyddai'n bosibl cydymffurfio â safon 50B, a hynny oherwydd byddai oedi wrth brosesu ffurflenni a oedd angen eu cyfieithu. Yn ôl y dystiolaeth, golyga hyn y byddai angen cynyddu'r amser a gymerir i brosesu ffurflenni Saesneg er mwyn adlewyrchu'r oedi yma yng nghyswllt ffurflenni Cymraeg. Mynegodd y Cyngor y byddai'n medru bodloni safon 51.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nid oedd y Cyngor yn cyhoeddi apiau, ac felly roedd o'r farn bod safon 57 yn amherthnasol. Nodwyd y byddai'r gofynion ariannol ac adnoddau staff er mwyn gwneud y newidiadau technegol angenrheidiol i'w wefan, ynghyd â'r gofyn isel am y deunydd a ddarparwyd eisoes, yn gwneud cydymffurfio â'r safonau eraill yn eu cyfanrwydd yn afresymol ac yn anghymesur. Fodd bynnag, roedd yn fodlon cydymffurfio yn rhannol â'r mwyafrif o'r safonau eraill, a hynny mewn perthynas â'r deunydd a dargedir at y cyhoedd yng Nghymru.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Roedd y Cyngor o'r farn y byddai'n afresymol ac anghymesur iddo arddangos arwyddion Cymraeg y tu allan i Gymru. O ran safon 59, nodwyd y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i roi blaenoriaeth i'r Gymraeg ar arwyddion a arddangosir yng Nghymru os oedd y mwyafrif o bobl a oedd yn mynychu cyfarfod ddim yn siarad Cymraeg. Er hynny, nodwyd y byddai'n bosibl cydymffurfio â safonau 58 (ar gyfer arwyddion a arddangosir yng Nghymru) a 60.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nododd y sefydliad na fyddai'n bosibl cydymffurfio â safonau 61-66, a hynny oherwydd nad oedd ganddo y staff neu'r cyfleusterau priodol ar gyfer derbyn ymwelwyr, ynghyd â'r ffaith nad oedd yn derbyn ymwelwyr heb apwyntiad.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Ar y cyfan, nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Roedd arsylwadau'r Cyngor mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn yn ddibynnol ar y diffiniad o hysbyseb swyddogol. Er hynny, cydnabuwyd y byddai'n bosibl cydymffurfio â safon 67 ar gyfer hysbysiadau swyddogol sy'n ymwneud ag unigolion neu ddigwyddiadau yng Nghymru.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

O ran safon 68, nodwyd mai polisi'r sefydliad oedd rhoi'r Saesneg yn gyntaf ar unrhyw hysbysiadau swyddogol a hynny oherwydd ei rôl o amddiffyn y cyhoedd. O'r herwydd, gwelwyd y safon yma yn afresymol ac yn anghymesur.

Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nid oedd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'i allu i gydymffurfio â'r safonau yn ymwneud â'r gweithgaredd hwn ar draws y sefydliad.

Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai'n bosibl cydymffurfio â safonau 74, 75 a 75A mewn perthynas â thendrau yn ymwneud â Chymru neu faterion Cymreig yn benodol. Nodwyd y byddai diffyg siaradwyr Cymraeg ymysg staff y sefydliad yn gwneud cydymffurfio â safon 76 yn amhosib.

Yn yr un modd, roedd o'r farn y byddai bodloni safon 77 yn afresymol ac anghymesur gan nad oedd ganddo aelodau staff sy'n siarad Cymraeg, a hefyd o ystyried y costau cyfieithu cysylltiol. Nodwyd y byddai disgwyl i unrhyw gyflenwr a oedd yn ceisio ennill contract drefnu gwasanaethau cyfieithu ei hun.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Cadarnhaodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol y byddai'n bosibl cydymffurfio â safonau 79 a 80 mewn perthynas â gwasanaethau a dargedir at aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n rhesymol a chymesur iddo gydymffurfio â'r safon yma.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nid oedd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nid oedd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi
gwasanaethau [158-163]**

Nododd y Cyngor nad oedd yn gwneud y gweithgareddau mewn perthynas â safonau 158, 159(a)(ii), 160 na 161. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai'n bosibl cydymffurfio â safonau 159(a)(i), (b) a (c) a 163.

Safonau llunio polisi [86-95]

Nododd y Cyngor bod y ddeddfwriaeth sy'n pennu cylch gwaith y sefydliad yn gofyn iddo drin holl wledydd y DU yn hafal. Yn unol â hyn, ni fyddai'n bosibl ffafrio Cymru na siaradwyr Cymraeg dros eraill. Cadarnhawyd nad oedd y sefydliad yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd.

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol nad oedd yn comisiynu na'n gwneud gwaith ymchwil ar effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, oherwydd byddai hynny y tu allan i gylch gwaith y sefydliad. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai safonau llunio polisi yn gwrthdaro'n uniongyrchol â'r ddeddfwriaeth sy'n pennu cylch gwaith y sefydliad, ac y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo felly yn afresymol ac yn anghymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol nad oedd yn ystyried gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Mewn perthynas â safon 96, nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol y byddai gweithredu polisi o'r fath y tu hwnt i gylch gwaith y sefydliad. Nid oedd y sefydliad yn darparu dogfennau na ffurflenni yn ymwneud â materion cyflogaeth na rheoli perfformiad. Fodd bynnag, mynegodd y sefydliad y byddai'n fodlon cydymffurfio â safonau 97-102 cyn belled â'u bod yn berthnasol i aelodau staff sy'n treulio o leiaf 80% o'u hamser yng Nghymru yn unig, a phan ddaw'r sefydliad i lunio polisiâu cyfatebol yn Saesneg.

Nododd y sefydliad na fyddai'n bosibl cyhoeddi'r holl ystod o'r dogfennau dan sylw yn safonau 103-109 gan mai dim ond polisi absenoldeb o'r gwaith oedd yn cael ei weithredu. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai'n afresymol i ddisgwyl i'r polisi yma gael ei gyhoeddi yn Gymraeg, gan nad oedd y sefydliad yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg pan gyflwynwyd y dystiolaeth.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol nad oedd ar hyn o bryd yn gweithredu gofynion safonau 110-113. Cydnabuwyd na fyddai'n bosibl cydymffurfio â safon 111(b) gan nad oedd y sefydliad yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg.

Fodd bynnag, mynegodd y sefydliad y byddai'n bosibl cydymffurfio â'r safonau eraill ynghylch cwynion gan staff cyn belled â'u bod yn berthnasol i aelodau staff sy'n treulio o leiaf 80% o'u hamser yng Nghymru yn unig.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Cydnabuwyd na fyddai'n bosibl cydymffurfio â safon 115(b) gan nad oedd y sefydliad yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mynegodd y sefydliad y byddai'n bosibl cydymffurfio â'r safonau eraill ynghylch corff yn disgyblu staff cyn belled â'u bod yn berthnasol i aelodau staff sy'n treulio o leiaf 80% o'u hamser yng Nghymru yn unig.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion a gweithwyr. Ni ddarparwyd rhyngwynebau Cymraeg oherwydd cost. Nodwyd hefyd bod diffyg galw am y deunyddiau dan sylw gan nad oedd gan y sefydliad gyflogeion a oedd yn siarad Cymraeg. Nodwyd nad oedd safonau 119-124 yn berthnasol gan nad oedd mewnrwyd gan y sefydliad.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Nid oedd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion. Ni ddarparwyd hyfforddiant swyddogol i holl aelodau staff y sefydliad yn y meysydd a bennir gan y safonau perthnasol, ag eithrio iechyd a diogelwch. Darperir hyfforddiant mewn meysydd eraill i aelodau staff unigol yn ôl yr angen, a hynny drwy gyfrwng y Saesneg. Cadarnhawyd y byddai hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg, neu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael ei ddarparu pe bai'n rhaid i aelodau staff fedru'r Gymraeg fel rhan o'u swyddogaethau.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn cynnal asesiad o'r ystod o sgiliau angenrheidiol wrth hysbysebu swydd wag neu swydd newydd, a hynny'n cynnwys unrhyw sgiliau ieithyddol. Ni ddarperir dogfennau ynghylch y broses recriwtio yn Gymraeg. Pan gyflwynwyd y dystiolaeth, nid oedd ffurflenni cais yn rhoi lle i'r ymgeisydd nodi y byddai'n dymuno cael cyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg, ac na fyddai cais yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais yn Saesneg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Cadarnhaodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol nad oedd arwyddion a oedd yn cael eu harddangos tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol y byddai'n afresymol ac yn anghymesur gwneud safon 142 yn benodol gymwys iddo, gan nad oedd yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn y gweithle.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol nad oedd yn cyhoeddi safonau gweithredu, ac y byddai felly yn afresymol ac yn anghymesur gosod y safonau ar y sefydliad. Er hynny, nododd y byddai'n bosibl cydymffurfio â safonau 170-175 cyn belled â'u bod wedi'u cyfyngu i'w weithgareddau yn y Gymraeg.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Cadarnhaodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn medru cydymffurfio â safonau 145-157, ac y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac yn gymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Cadarnhaodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ei fod yn medru cydymffurfio â safonau 178-179, ac y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac yn gymesur.

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁵

Ar y cyfan, ystyriodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y byddai'n afresymol ac yn anghymesur gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo. Gan ei fod yn reoleiddiwr ar draws y DU, ynghyd â rhesymau cost, roedd o'r farn y byddai'n anghymesur iddo orfod cydymffurfio'n llwyr â safonau 3, 4 a 5. Nododd y byddai'n medru parhau i ddarparu gohebiaeth yn Gymraeg ar gais, a hynny'n unol â'i gynllun iaith Gymraeg presennol.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁶

Fel corff a leolir yn Llundain sy'n gweithredu ledled y DU, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystyried y byddai'n afresymol ac yn anghymesur gwneud safonau mewn perthynas â galwadau ffôn yn benodol gymwys iddo. Yn ogystal, mynegwyd pryder ganddo ynglŷn â'i allu i gydymffurfio'n gyfan gwbl â gofynion safonau 8, 10, 11, 16-20 a 22. Cadarnhawyd y byddai'n bosibl iddo barhau i ddarparu gwasanaethau ffôn ar gais.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁷

Fel corff a leolir yn Llundain sy'n gweithredu ledled y DU, ystyriodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y byddai'n afresymol ac yn anghymesur gwneud safonau mewn perthynas â

⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol yn benodol gymwys iddo.

Mewn cysylltiad â safonau 23 a 25b, nid oedd o'r farn ei bod hi'n gymesur i ddisgwyl iddo ddarparu gwasanaethau'n Gymraeg heb ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu. Mewn perthynas â safonau 24 a 27, roedd yn ystyried y byddai'n rhesymol i ddarparu gwasanaethau ar gais. Nid oedd y sefydliad yn credu y byddai'n gymesur i ddisgwyl iddo gynnal cyfarfod cyfan yn Gymraeg, neu iddo orfod recriwtio'r nifer o siaradwyr Cymraeg angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â'r safon yma.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 20% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁸

Ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor er enghraifft (a oedd ag eitemau preifat a chyhoeddus ar yr agenda), byddai'r sefydliad yn fodlon hyrwyddo a darparu gwasanaethau Cymraeg ar gais. Nodwyd mai ar achlysuron prin yr oedd y sefydliad yn derbyn ceisiadau ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd, ac felly byddai'n afresymol disgwyl iddo fynd i gostau heblaw bod yna gais wedi ei dderbyn o flaen llaw.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁹

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mai anaml y byddai'n trefnu neu'n ariannu digwyddiadau cyhoeddus. Fel yng ngweithgaredd 4 codwyd cwestiwn ynglŷn â diffiniad 'digwyddiad cyhoeddus', gan gwestiynu a fyddai digwyddiadau ymgynghori achlysurol ag aelodau neu gleifion yn dod o dan y gweithgaredd. Fodd bynnag, cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n cynnig y cyfle i fynychwyr siarad Cymraeg ar gais mewn unrhyw ddigwyddiad, yn enwedig rhai a drefnwyd yng Nghymru neu i gynulleidfa Gymraeg.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoedduswydd a hysbysebu gan gorff.¹⁰

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn hysbysebu ei wasanaethau yn aml, ac yr oedd yn cyfathrebu yn bennaf drwy'i wefan, mewn gohebiaeth ac mewn cyhoeddiadau megis y daflen 'Smile' i gleifion. Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n sicrhau bod gweithgareddau hysbysebu a chyhoedduswydd yng Nghymru yn ddwyieithog, a hynny mewn modd a fyddai'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Aethpwyd ymlaen i nodi fod y sefydliad yn gweld y safon yn afresymol yn ei gyfanrwydd, a hynny gan ystyried datganiadau i'r wasg. Cafwyd tystiolaeth fod y rhain yn cael eu dyroddi yn ddyddiol neu'n wythnosol gan ddibynnu ar yr achlysur, ac y byddai cynhyrchu bob un o'r rhain yn Gymraeg yn anghymesur gan mai 5% o'r 103,000 aelod cofrestredig sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.¹¹

Nid oedd y sefydliad o'r farn y byddai gwneud safonau ynghylch y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol neu yn gymesur, a hynny oherwydd bod deunydd weithiau yn cael ei dargedu at gynulleidfa benodol iawn a allai fod yn aelodau cofrestredig neu'n gleifion y tu allan i Gymru. Yn ôl y sefydliad byddai'n afresymol iddo fynd i gostau ar ddarparu deunydd Cymraeg mewn digwyddiadau o'r fath, ble byddai'n annhebygol fod galw amdano.

Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.¹²

Nododd y sefydliad ei fod yn darparu dogfennaeth gorfforaethol fel adroddiadau blynyddol a chyfrifon yn ddwyieithog, a bod canllawiau a deunydd technegol ac arbenigol wedi'u hanelu at weithwyr deintyddol proffesiynol ar gael yn Saesneg yn unig. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i ddisgwyl bod sefydliad yn cyfieithu pob dogfen a gynhyrchir oherwydd goblygiadau cost i aelodau cofrestredig, y nifer o ddogfennau sy'n cael eu cyhoeddi a'r amser y byddai cyfieithu dogfennau yn ychwanegu i brosesau megis dyroddi papurau cyfarfodydd.

¹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.¹³

Roedd y Cyngor o'r farn y byddai'n afresymol ac yn anghymesur gwneud y safonau ynghylch y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo, gan gyfeirio yn benodol at ffurflenni cofrestru. Nododd y sefydliad ei fod yn cynhyrchu nifer cyfyngedig o ffurflenni, a'r rhain yn ymwneud yn benodol â phobl a oedd yn gwneud cwynion a/neu ar gyfer aelodau cofrestredig a oedd ynghlwm â phrosesau'r sefydliad. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gellir darparu rhai ffurflenni yn ddwyieithog.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.¹⁴

Mynegodd y sefydliad fod ganddo dudalen benodedig yn y Gymraeg er mwyn amlinellu gwasanaethau'r sefydliad ac i roi mynediad i ddogfennau Cymraeg. Oherwydd y nifer isel o ymweliadau i'r dudalen hon yn hanesyddol, roedd o'r farn y byddai gosod safonau 52a, 53, 54 a 56 arno yn afresymol. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r holl safonau yn eu cyfanrwydd yn eu gwneud yn anghymesur, o ystyried y ffaith fod y sefydliad yn gweithredu ledled y DU.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.¹⁵

Mynegodd y sefydliad y byddai gosod safonau ynghylch y gweithgaredd hwn yn afresymol ac yn anghymesur, gan nad oedd ganddo swyddfeydd yng Nghymru. Fodd bynnag, cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n darparu arwyddion a baneri dwyieithog pe bai'n trefnu unrhyw ddigwyddiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

¹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.¹⁶

Teimlai'r sefydliad y byddai gosod safonau ynghylch y gweithgaredd hwn yn afresymol ac yn anghymesur, a hynny oherwydd nad oedd ganddo swyddfa yng Nghymru nag unrhyw staff yn siarad Cymraeg. Ychwanegodd y byddai'n medru defnyddio gwasanaeth gyfieithu allanol pe bai ymwelydd i'w swyddfa yn Llundain yn dymuno siarad Cymraeg.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹⁷

Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, nodwyd fod angen mwy o wybodaeth ynglŷn â'r diffiniad o 'hysbyseb swyddogol'. Nododd ei fod yn paratoi hysbysebion megis nodiadau atgoffa ar gyfer talu ffioedd blynyddol, a hynny'n unol â safonau mewnl.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.¹⁸

Ni ddarparwyd tystiolaeth bellach ynglŷn â'r gweithgaredd hwn.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gcontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gcontract [74-78]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gcontract.¹⁹

¹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd y Cyngor o'r farn y byddai'n afresymol ac yn anghymesur gwneud safonau yng nghyswllt gweithgaredd yma yn benodol gymwys iddo. Er hynny, credai ei fod yn rhesymol darparu gwybodaeth am dendrau neu gontractau cyfredol yn Gymraeg ar gais. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai'n cyfieithu unrhyw dendrau a dderbyniwyd yn Gymraeg.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.²⁰

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Ystyriodd y sefydliad y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.²¹

Ystyriodd y sefydliad y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.²²

Ni ddarparwyd tystiolaeth bellach ynglŷn â'r gweithgaredd hwn.

²⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.²³

Ychwanegodd y sefydliad ei fod yn credu y byddai gwneud safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn yn afresymol ac yn anghymesur, am fod ei swyddfa yn Llundain ac oherwydd nad oedd yn defnyddio system annerch gyhoeddus.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddo. Nodwyd nad oedd y lefel o wybodaeth angenrheidiol ar gyfer bodloni safon 161(2a-c) yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ond y gellid gwneud hynny yn y dyfodol.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau sy'n ymwneud â llunio polisi.²⁴

Darparwyd tystiolaeth gan y Cyngor ynghylch ei weithgareddau polisi a'i bartneriaethau yng Nghymru, a nodwyd y byddai'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau y byddai cyfranwyr i'r broses o lunio polisi yn medru gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Cadarnhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi. Nodwyd hefyd byddai unrhyw gynigion am bolisiau newydd yn cael eu hasesu o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddai'r asesiad yma yn cynnwys effaith y polisi arfaethedig ar bolisi iaith y sefydliad. Cadarnhawyd nad oedd y sefydliad yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd. Ar y cyfan, ystyriodd y sefydliad y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nid oedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol neu'n gymesur, a hynny oherwydd bod gweithdrefnau'n bodoli eisoes sy'n casglu'r wybodaeth angenrheidiol. Nododd y sefydliad hefyd y byddai angen manylder pellach ynglŷn ag anghenion safon 169 a sut y byddai'r Comisiynydd yn manylu ar ba wybodaeth fydd angen ei adrodd yn unol â'r safon.

²³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.²⁵

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, a bod y polisi hwnnw wedi'i gyhoeddi ar y mewnwyd. Ategwyd at hynny gan nodi fod darpariaeth ddwyieithog yn bwysig i'r sefydliad o ran ansawdd ei wasanaeth, ac nid yn unig fel gofyniad cyfreithiol.

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn darparu'r holl ddogfennau y nodir yn safonau 97-102 yn Gymraeg. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd y sefydliad yn gofyn i gyflogeion os byddant yn dymuno cael y dogfennau yma yn Gymraeg, ond eu bod ar gael ar gais. Cydnabuwyd y dylai'r deunydd perthnasol wneud yn glir bod yr opsiwn o dderbyn dogfennaeth Gymraeg ar gael. Yng nghyswllt y gofynion ynghlwm a safonau 103-109, cadarnhawyd bod yr holl bolisiau dan sylw ar gael yn Saesneg yn unig.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.²⁶

Cadarnhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn caniatáu i aelod o staff gyflwyno cwynion i'r sefydliad, ynghyd ag ymateb i unrhyw gŵyn yn Gymraeg. Nodwyd nad oedd yn bosibl cynnal cyfarfod ynglŷn â chwyn yn Gymraeg. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn medru cydymffurfio â'r safonau yma'n rhannol yn y dyfodol.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.²⁷

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm a safonau 114-117, nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn caniatáu i aelodau o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn drwy'r broses ddisgyblu fewnol, a'i fod yn rhoi gwybod i staff ynglŷn â'u gallu i wneud hynny. Pan gaiff cyfarfod ei drefnu i drafod mater disgyblaeth, nododd y sefydliad y byddai'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gais, yn unol â'i ymrwymiad presennol. Teimlodd y sefydliad ei fod yn gymesur i ymateb i geisiadau am wasanaethau perthnasol yn hytrach na chynnig y gwasanaeth ar bob achlysur, o ystyried ei fod wedi lleoli yn Lloegr. Aethpwyd ymlaen i nodi fod hyn yn arfer gyffredin ymysg rheoleiddwyr eraill yn y maes iechydd.

²⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.²⁸

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion a gweithwyr, ac nad oedd yn darparu rhyngwynebau Cymraeg. Fodd bynnag, roedd meddalwedd Microsoft Office ar bob cyfrifiadur yn cynnwys geiriadur Cymraeg. Cadarnhaodd ei fod yn gweithredu system mewnwyd, ond nad oedd elfennau megis y dudalen gartref, y rhyngwyneb a dewislenni ar gael yn Gymraeg. Fel sefydliad sydd yn gweithredu ledled y DU, ac wrth ystyried y galw presennol am wasanaethau Cymraeg yn fewnol, roedd o'r farn y byddai'n afresymol ac yn anghymesur disgwyl iddo gydymffurfio â'r safonau yma gan ystyried y gofynion ariannol a gweinyddol.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 11% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.²⁹

Cadarnhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion, ac mai'r unig hyfforddiant a ddarperir oedd ynglŷn â'r rhwymedigaeth i weithredu yn unol â chynllun iaith Gymraeg.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.³⁰

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ei fod yn cynnal asesiad o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth ddatblygu swydd ddisgrifiad, a chadarnhawyd y byddai'r sefydliad yn cydymffurfio â safon 134 ar gyfer swyddi ble mae angen sgiliau iaith Gymraeg. Cadarnhawyd y byddai ffurflenni cais a deunydd perthnasol eraill yn cael eu darparu yn Gymraeg ar gais, ond y byddai'r angen i gyfieithu unrhyw geisiadau a dderbyniwyd i'r Gymraeg weithiau yn achosi oedi o bosibl. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r sefydliad yn rhoi gwybod i ymgeisydd a oedd wedi gwneud cais am swydd yn Gymraeg o'i benderfyniad yn Gymraeg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.³¹

Nid oedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn arddangos arwyddion Cymraeg yng ngweithle'r corff.

²⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.³²

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd cyhoeddiadau'n cael eu gwneud yng ngweithle'r corff gan ddefnyddio offer sain.

Nid oedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud safonau gweithredol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol neu'n gymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y byddai'n adrodd ar gynnydd ynghylch gweithredu a monitro safonau'r Gymraeg yn ei adroddiad blynyddol. Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud safonau ynghylch materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur. Ategwyd at hyn drwy ofyn am fwy o fanylder ynglŷn â disgwyliadau safon 175 a pha wybodaeth y byddai disgwyl i sefydliadau ei gofnodi.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol nad oedd yn cydsynio i fod yn gymwysadwy i safonau hybu.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 31% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cadw cofnodion.³³

Fel rhan o gydymffurfio â'r safonau yn y dyfodol, cadarnhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y byddai'n adolygu a diweddarau trefniadau o dan oruchwyliaeth y tîm rheoli gweithredol, gan gynnwys sut y mae'r sefydliad yn monitro a chasglu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer safonau 145-157.

Ar y cyfan, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Wrth ystyried gofynion safonau 178 a 179, nododd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y caiff gofynion safon 178 eu bodloni yn allanol ac yn fewnol. Gofynnodd y sefydliad am fwy o fanylder ynghylch oblygiadau safon 179, a'r math o wybodaeth y byddai disgwyl iddo gofnodi.

Nid oedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.³⁴

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn ymateb yn Gymraeg i bob gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg, a'i fod yn anfon cylchlythyron i gleifion ac i'r cyhoedd yn ddwyieithog wrth drin y fersiwn Gymraeg fel y fersiwn Saesneg.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud a gohebiaeth yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac chymesur, a hynny oherwydd na fyddai'n bosibl iddo gydymffurfio yn llawn â phob safon.

Er iddo gydnabod y byddai modd cydymffurfio â safon 4, nodwyd y byddai'n afresymol ac yn anghymesur anfon gohebiaeth fanwl, gyfreithiol ei natur ac wedi ei deilwra at unigolion heb wybod eu dewis iaith o flaen llaw, o ystyried fod y sefydliad yn gweithredu ledled y DU. Rhoddwyd enghraifft o ble anfonwyd dros 3,700 llythyr wedi'u teilwra gan un gyfarwyddiaeth o'r sefydliad at gyfeiriadau yng Nghymru yn 2015.

Ym marn y sefydliad dylai'r safon yma fod yn berthnasol ar gyfer gwybodaeth a ddanfonwyd i'r cyhoedd a chleifion yng Nghymru, ac ar gyfer gohebiaeth unigol sydd wedi'i deilwra i unigolion sydd wedi gwneud cais i'w dderbyn yn Gymraeg. Nodwyd hefyd y gallai fod oedi oherwydd yr angen am gyfieithwyr allanol mewn perthynas â safon 7.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 47% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.³⁵

Ystyriodd y sefydliad na fyddai'n rhesymol nac yn gymesur gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo, a hynny oherwydd goblygiadau cost o ddarparu gwasanaeth cyfatebol i'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu ar gyfer galwadau Saesneg ynghyd â'r galw isel presennol am wasanaethau ffôn yn Gymraeg. Nododd y sefydliad ei fod wedi archwilio dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg gan gyflenwr allanol ar gost fwy rhesymol a chymesur.

³⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Cynigodd y sefydliad felly na ddylid gwneud safon 15 yn benodol gymwys iddo, ac y byddai'n gobeithio symud tuag at weithredu'r safonau yn ei swyddfa yng Nghymru a'i ganolfan gyswllt drwy ddefnyddio gwasanaethau allanol yn y cyfamser.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.³⁶

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar gais ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru gyda meddygon neu gleifion sy'n dymuno siarad Cymraeg. Cydnabuwyd y byddai'n bosibl gwella amlygrwydd testun yn croesawu hynny.

Ystyriodd y sefydliad y byddai'n afresymol ac anghymesur i'r safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys iddo. Nodwyd y byddai'n amhosib i'r sefydliad gydymffurfio â safonau 23, 25, 27D a 28, ble mae gofyn cynnal cyfarfodydd heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. Ategwyd at hyn gan nodi fod rhaid cynnal rhai cyfarfodydd ym mhresenoldeb arbenigwr perthnasol o tu allan i Gymru, ac na fyddai hyn yn bosibl heb gymorth cyfieithydd.

Cydnabuwyd y byddai'r trothwy o 30% a nodir yn safon 27c yn dderbyniol, ond yn ôl y sefydliad ni ddylid gwneud safonau 27a neu 27b yn benodol gymwys iddo.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.³⁷

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif o'r safonau. Fodd bynnag, o ran safon 33 nodwyd y dylid cynnwys trothwy presenoldeb rhesymol a chymesur ar gyfer ceisiadau am wasanaethau cyfieithu mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Am y rheswm yma, ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

³⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.³⁸

Nododd y Cyngor ei fod eisoes yn hyrwyddo digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru ar sail cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg. Yng nghyswllt safon 36, cadarnhaodd y sefydliad na fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cyhoeddusrwydd ac arwyddion. Fodd bynnag, nododd y sefydliad y byddai o bosibl yn profi yn afresymol ac yn anghymesur i ddarparu cyfieithu a chyhoeddiadau sain, yn ddibynnol ar fynychwyr yn nodi eu hanghenion o flaen llaw ai peidio. Unwaith eto, roedd o'r farn y dylid cynnwys trothwy presenoldeb rhesymol a chymesur ar gyfer ceisiadau am wasanaethau cyfieithu a chyhoeddiadau sain mewn digwyddiadau cyhoeddus.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.³⁹

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁴⁰

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁴¹

³⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd y Cyngor ei fod eisoes yn cyfieithu ystod o ddogfennau at sylw cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru gan gynnwys strategaethau corfforaethol, papurau ymgynghoriad, codau ymarfer, canllawiau a rhai datganiadau i'r wasg. O 2015 ymlaen bydd adroddiadau blynyddol a chynlluniau busnes hefyd yn cael eu cyfieithu.

Fodd bynnag, ar y cyfan nododd na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod y sefydliad yn teimlo y byddai gofynion safonau 41 a 44 yn anaddas o ran gofynion cost ac amser ar gyfer sefydliad sydd yn cynnal nifer isel o gyfarfodydd perthnasol yng Nghymru. Yn nhyb y sefydliad dylai'r papurau perthnasol fod ar gael yn Gymraeg ar gais, a bod hyn yn cael ei wneud yn glir ar y fersiynau Saesneg.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁴²

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁴³

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai'n ymgymryd i wella hygyrchedd ei wefan er mwyn hwyluso mynediad at ddeunydd Cymraeg gan gynnwys canllawiau, ffurflenni cwyno ar-lein a theclyn cymorth.

Fodd bynnag, ar y cyfan nododd na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod y sefydliad yn teimlo y byddai gofynion safonau 52 a 56 yn afresymol o ran gofynion cost ar gyfer sefydliad nad oedd yn gweithredu yng Nghymru yn unig. Rhoddwyd amcangyfrif y byddai cyfieithu gwefan yn ei gyfanrwydd a phob adnodd symudol yn costio dros £500,000. Ym marn y sefydliad, dylid darparu'r adrannau hynny o'r wefan sy'n berthnasol i Gymru yn unig yn Gymraeg, ac fe ddylai safon 57 fod yn berthnasol i apiau a dargedir at y cyhoedd yn unig.

⁴² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.⁴⁴

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn arddangos arwyddion dwyieithog yn ei adeiladau ble mae'r ddwy iaith yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb, a bod yr arwyddion hynny wedi cael eu gwirio o ran ystyr a mynegiant. Fodd bynnag, nid oedd yn ystyried y byddai'n rhesymol neu'n gymesur i'r safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad.

O ran safon 59, nododd y sefydliad y byddai gorfod amnewid arwyddion fel bod y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf yn gost ddianghenraid. Teimlodd y sefydliad hefyd ei fod yn afresymol ac yn anghymesur i bennu y dylai'r Gymraeg ymddangos cyn y Saesneg o ystyried nad oedd y mwyafrif o ymwelwyr i swyddfeydd y sefydliad yng Nghymru yn siarad Cymraeg.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁴⁵

Cadarnhaodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai'n medru cydymffurfio â safon 64 drwy sicrhau y byddai unigolyn yn cyrraedd am gyfarfod yn cael ei groesawu gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu gan gyfieithydd.

Fodd bynnag, ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur, a hynny oherwydd na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 61-63, 65 a 66 gan nad oedd ganddo dderbynfafurfiol yn ei swyddfa yng Nghymru.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.⁴⁶

⁴⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd y Cyngor ei fod eisoes yn sicrhau fod hysbysiadau Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferydd Meddygol perthnasol i allu meddygon i weithredu yng Nghymru yn cael eu cyfieithu. Fodd bynnag, ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur, a hynny oherwydd bod safon 68 yn gofyn i'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf. Yn ôl y sefydliad byddai hyn yn anghyfleustra i'r mwyafrif o ddarllenwyr nad sydd yn deall Cymraeg.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.⁴⁷

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am contract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract [74-78]**

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract.⁴⁸

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol fod y broses tendro'n cael ei gydlyn gan dîm canolog a leolir y tu allan i Gymru, ac y byddai'n rhaid cyfieithu unrhyw dendrau a dderbyniwyd yn Gymraeg. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai unrhyw wallau cyfieithu yn y dogfennau technegol a chyfreithiol hyn yn peri canlyniadau ariannol a gweithredol pellgyrhaeddol. Am y rhesymau hyn, teimlodd y sefydliad y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i'r safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys iddo.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁴⁹

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

⁴⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac yn gymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁵⁰

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac yn gymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ni ddarparwyd tystiolaeth bellach ynglŷn â'r gweithgaredd hwn.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ni ddarparwyd tystiolaeth bellach ynglŷn â'r gweithgaredd hwn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai'n medru cydymffurfio a safonau 158(a), 159(a&b), 160(a&b), 161(1,2,3,4,5a), 162 a 163. Fodd bynnag, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y gofynion i ddarparu dogfennaeth ymhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd. Ym marn y sefydliad dylai'r safonau yma fod yn berthnasol i'w swyddfa yng Nghymru yn unig.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau sy'n ymwneud â llunio polisi.⁵¹

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol fod pob polisi a chyhoeddiad newydd yn destun asesiad cydraddoldeb ac o ran bob rhan o'r DU (gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg). Wrth baratoi papurau ar gyfer cyfarfod Cyngor a phwyllgorau mewnol y sefydliad, rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg. Mae'r gofynion hyn ynghyd ag arferion cyfieithu yn rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer holl staff newydd y sefydliad.

O ran holi barn am effaith polisi ar y defnydd a'r driniaeth o'r Gymraeg, nododd y sefydliad na fyddai'n bosibl cydymffurfio ar bob achlysur oherwydd gall ymgynghoriadau ymwneud â materion technegol amherthnasol, neu y gallant fod yn ymgynghoriadau yn ymdrin â'r DU yn ei gyfanrwydd.

⁵⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhawyd nad oedd y sefydliad yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd.

Mynegodd y sefydliad y byddai'n ymhelaethu ar gwestiynau presennol a ofynnwyd yng nghyd-destun gwaith ymchwil wrth wneud penderfyniad polisi, a hynny er mwyn cynnwys ystyriaeth o'r effaith ar y Gymraeg.

Ar y cyfan, ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur, oherwydd ei bryder y gall geiriad y safonau ynghylch comisiynu ymchwil gael canlyniadau annisgwyl.

Cytunodd y sefydliad y dylai effeithiau ar siaradwyr Cymraeg gael eu hystyried wrth lunio polisi a chomisiynu ymchwil. Fodd bynnag, cynigwyd y gall geiriad y safonau fod yn fwy hyblyg.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Cadarnhaodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 164(a), 165(a&b), 166(a&b), 167, 168 a 169. Fodd bynnag, yn ôl y sefydliad dylai safonau 164(b), 165(c), 166(c) a 167(5b) fod yn berthnasol i'w swyddfa yng Nghymru yn unig. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.⁵²

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol nad oedd yn gweithredu polisi o ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso'r Gymraeg. Nododd y sefydliad ei fod yn darparu'r mwyafrif o'r dogfennau a nodir yn safonau 97-102 yn ddwyieithog, a'i fod yn rhoi cynnig i gyflogai neu weithiwr ynghylch derbyn y dogfennau yma'n Gymraeg. Mynegodd y sefydliad y dylai'r safonau yma fod yn berthnasol i gyflogai yng Nghymru yn unig, a bod dogfennau'n cael eu darparu fel copïau caled yn unig o ystyried cost diweddarau systemau ar-lein ar draws y sefydliad. Yng nghyswllt safonau 103-109, nododd y sefydliad nad oedd yr holl bolisiau dan sylw yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Yn nhyb y Cyngor, dylai geiriad y safonau hyn gael eu ddiwygio i amnewid 'rhaid' gyda 'ar gais'.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.⁵³

Cadarnhaodd y Cyngor ei fod yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwyn at y

⁵² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

sefydliad, ynghyd ag ymateb i unrhyw gŵyn, yn Gymraeg. Nodwyd y byddai modd cynnal cyfarfod ynglŷn â chwyn yn Gymraeg gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu, a bod aelodau staff yn swyddfa Cymru'n ymwybodol o'r trefniadau sydd gan y sefydliad.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.⁵⁴

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm a safonau 114-117, nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn caniatáu i aelodau o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy'r broses ddisgyblu fewnol. Cadarnhawyd ei fod yn cynnig cynnal unrhyw gyfarfod a drefnir mewn perthynas â'r honiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny gyda chymorth gwasanaeth gyfieithu. Nododd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â bob un o'r safonau dan sylw heblaw am safon 115b, a hynny gan fod staff adnoddau dynol y sefydliad wedi eu lleoli y tu allan i Gymru. Byddai angen cyfleusterau cyfieithu fel eu bod yn medru cyfrannu i unrhyw gyfarfod perthnasol.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.⁵⁵

Nododd y sefydliad ei fod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg cyfleoegion a gweithwyr ar ffurf gwasanaethau ar-lein rhad ac am ddim. Aethpwyd ymlaen i nodi fod staff yn fodlon defnyddio'r gwasanaethau hyn ar gyfer dogfennau a dderbyniwyd neu ddogfennau answyddogol. Caiff unrhyw ddogfennau swyddogol eu cyfieithu gan gyfieithwyr proffesiynol a'u prawf ddarllen gan staff y sefydliad sy'n siarad Cymraeg. Yng nghyswllt safonau 119-124 nododd y sefydliad y byddai'n afresymol ac anghymesur iddo gydymffurfio â'r safonau hyn gan nad oedd wedi derbyn cais i ddarparu'r mewnrwyd yn Gymraeg a hefyd o ystyried fod 0.01% o staff wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n sicrhau fod unrhyw bolisiau a oedd wedi cael eu cyfieithu ar gael ar y mewnrwyd.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 44% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁵⁶

Nododd y sefydliad nad oedd yn asesu sgiliau iaith ei gyflogegion, nac ychwaith yn darparu hyfforddiant yn y meysydd a bennir yn safon 126 drwy gyfrwng y Gymraeg. Cadarnhaodd y byddai'n darparu'r hyfforddiant a nodir yn safonau 127-129 i staff ble roedd yr angen am yr hyfforddiant wedi'i amlygu gan y broses fewnol o lunio cynlluniau datblygu personol. Nodwyd fod pob aelod o staff newydd yn cael hyfforddiant ar waith swyddfa Cymru, ynghyd â gofynion y cynllun iaith. Nododd y sefydliad ei fod yn cydymffurfio â rhai o

⁵⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

ofynion y safonau ynghylch e-bost staff ond nad oedd yn darparu geiriad neu logo ar gyfer negeseuon e-bost ei gyflogeion a/neu weithwyr.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.⁵⁷

Nododd y Cyngor Meddygol Cyffredinol fod pob swydd yng Nghymru yn cynnwys sgiliau Cymraeg fel elfen ddymunol. Ychwanegodd ei fod yn cydymffurfio â gofynion holl agweddau eraill safonau 134-138, ac eithrio'r ffaith nad oedd yn cynnal cyfweiliadau neu asesiadau yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.⁵⁸

Nododd y sefydliad fod arwyddion sy'n cael eu harddangos tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, ond nad yw'r Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.⁵⁹

Nododd y sefydliad nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

Ni ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Rhoddwyd esiampl yng nghyswllt y safonau'n ymwneud ag arwyddion gan gorff, gan gyfeirio at ei ymateb i gweithgaredd 11. Nododd y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i orfod newid arwyddion a oedd eisoes yn ddwyieithog fel bod y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, nododd y sefydliad y dylai safonau 170(b) a 173(5a) fod yn berthnasol i swyddfa Cymru'r sefydliad yn unig.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

⁵⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 38% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cadw cofnodion.⁶⁰

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac yn gymesur, ac y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 145-157.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Ystyriodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac yn gymesur, ac y byddai'n medru cydymffurfio a safonau 178 a 179.

⁶⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁶¹

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁶²

Oherwydd y diffyg galw presennol am y gwasanaethau perthnasol, lefel adnoddau'r sefydliad a'i leoliadau (canolfan gwrandawriad yn unig a geir yng Nghymru⁶³), nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Ategodd at hyn gan nodi na fyddai'n medru cynnig y gwasanaethau hyn heb wneud buddsoddiad ariannol sylweddol. O ran adnoddau staff hefyd, nodwyd y byddai'n anodd sicrhau y byddai siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio gyda materion sydd yn aml yn rhai technegol.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁶⁴

⁶¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶³ <http://www.nmc.org.uk/contact-us/how-to-find-us/template-court/>

⁶⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod eisoes yn ymrwmo i sicrhau fod person yn medru siarad Cymraeg mewn gwrandawriad, a hynny drwy ddefnyddio cyfieithwyr cymwysedig.

Fodd bynnag, ar y cyfan ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y byddai ond yn medru cydymffurfio â'r safonau mewn mathau penodol o gyfarfodydd megis rheiny sy'n ymwneud â ffitrwydd unigolyn i ymarfer. Aethpwyd ymlaen i nodi byddai cynnig cyfleusterau cyfieithu ymhob cyfarfod yn gost sylweddol i'r sefydliad.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁶⁵

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁶⁶

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.⁶⁷

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, cyn belled â'i fod yn weithredol i weithgareddau yng Nghymru yn unig.

⁶⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁶⁸

Nododd y sefydliad y byddai angen mwy o eglurder o ran y math o ddeunydd sydd dan sylw, gan wahaniaethu rhwng y safonau ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu.

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁶⁹

Nododd y Cyngor ei fod eisoes wedi ymrwymo i ddarparu cyhoeddiadau a dargedir at aelodau'r cyhoedd a chleifion yn y Gymraeg. Caiff rhai dogfennau eraill megis safonau ymddygiad, canllawiau a deunydd i arbenigwyr eu cyfieithu ar gais. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd y sefydliad wedi derbyn unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfnod adrodd ddiwethaf. Roedd rhai mathau eraill o gyhoeddiadau yn cael eu hadolygu i wella eu hygyrchedd i siaradwyr Cymraeg.

Nododd ei fod yn darparu datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog yng Nghymru ble maent yn berthnasol i Gymru yn benodol, a'i fod yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar gais mewn cynadleddau i'r wasg. Er hynny, cydnabuwyd y byddai rhai sefyllfaoedd ble na fyddai'n bosib trefnu cyfieithu ar gyfer datganiadau brys i'r wasg. Mewn sefyllfaoedd o'r fath cadarnhaodd y sefydliad y byddai fersiwn Gymraeg ar gael o fewn 24 awr yn ystod wythnosau gwaith.

Ystyriodd y sefydliad nad oedd safonau 40 i 49 yn rhesymol a chymesur. Er bod dogfennau allweddol yn cael eu cyfieithu, aethpwyd ymlaen i fynegi nad oedd ganddo yr adnoddau i gyfieithu pob dogfen a gynhyrchir heblaw rhai sydd wedi'u targedu'n benodol i gynulleidfa o siaradwyr Cymraeg. Mewn rhai achosion, nododd y sefydliad y byddai rhaid eithrio rhai dogfennau technegol.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

⁶⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁷⁰

Nododd y sefydliad ei fod yn medru darparu copïau Cymraeg o'i ffurflenni ar gais, ond y byddai costau yn cynyddu'n sylweddol pe bai ffurflenni'n cael eu darparu'n ddwyieithog fel mater o arfer. Am y rheswm yma, teimlodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn gymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁷¹

Wrth gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd yma, nododd y sefydliad fod adran ar ei wefan yn cynnwys gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg, ynghyd â fersiynau digidol o'i gyhoeddiadau Cymraeg.

Ystyriodd y sefydliad y byddai'n rhesymol a chymesur i gydymffurfio yn rhannol â'r safonau yma, gan nodi'r arfer presennol o flaenoriaethu'r tudalennau hynny sydd fwyaf poblogaidd. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai'n amhosibl cyfieithu holl dudalennau'r wefan gydag adnoddau presennol.

Ychwanegodd y sefydliad ei fod yn y broses o ddatblygu gwefan newydd erbyn diwedd Mawrth 2015, a fyddai'n fwy hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol. Fel gyda'r wefan presennol, byddai gwybodaeth am y sefydliad a'i brif swyddogaethau ar gael yn Gymraeg ynghyd â chyhoeddiadau Cymraeg.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.⁷²

Nododd y sefydliad nad oedd ganddo unrhyw aelodau staff wedi'u lleoli yng Nghymru. Pe agorir swyddfa yng Nghymru, cadarnhaodd y sefydliad y byddai arwyddion Cymraeg yn cael eu harddangos. Gan nad oedd gan y sefydliad swyddfa yng Nghymru pan gyflwynwyd y dystiolaeth, ystyriodd na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁷⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁷³

Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd y sefydliad nad oedd yn medru derbyn ymwelwyr yn Gymraeg i'w swyddfeydd yn Llundain ac yn yr Alban, oherwydd nad oedd gan staff y sgiliau iaith angenrheidiol ac oherwydd y tebygolrwydd y byddai'r galw am wasanaeth Cymraeg yn y lleoliadau hyn yn debygol o fod yn isel. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd yn bosib i'r sefydliad ganfod o flaen llaw a fyddai angen croesawu ymwelydd yn Gymraeg ar bob achlysur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.⁷⁴

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, ac y byddai'n bosib trefnu darpariaeth yn unol â gofynion y safonau yn ôl yr angen.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.⁷⁵

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

⁷³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.⁷⁶

Mynegodd y sefydliad nad oedd yn credu fod yna alw neu angen digonol am y gwasanaethau a amlinellir yn safonau 74-78 o ystyried natur y sefydliad a'r diffyg siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu. Er hynny, cydnabuwyd y byddai unrhyw anghenion perthnasol ynghylch y Gymraeg yn cael eu nodi mewn dogfennau tendr lle bo'n briodol.

Ychwanegodd y sefydliad y byddai trin tendrau am gontract Cymraeg sydd ag elfennau technegol neu gyfreithiol yn risg am y rhesymau a nodir uchod. Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁷⁷

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Er nad oedd arfer presennol y sefydliad yn adlewyrchu gofynion y safonau, ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nodwyd fod y sefydliad yn ystyried y dulliau presennol oedd ganddo i hysbysebu ei wasanaethau Cymraeg yn ddigonol.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁷⁸

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁷⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.⁷⁹

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.⁸⁰

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Ystyriodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn teimlo fod angen ailymweld a phrosesau cyfredol yn y modd a bennir yn y safonau dan sylw.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau sy'n ymwneud â llunio polisi.⁸¹

Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth bod y safonau llunio polisi, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol a'i fod yn gweithredu'n unol a hwy, i raddau gwahanol, drwy ei gynllun iaith Gymraeg. Nododd y sefydliad hefyd fod gofynion y safonau llunio polisi ynghylch gwaith ymchwil eisoes yn arfer cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg.

Cadarnhaodd nad oedd yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny oherwydd nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd.

Er hynny, ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, ond ni ddarparwyd sylwadau pellach i ymhelaethu ar y farn hon.

⁷⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁸⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁸¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Mynegodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd y gweithgareddau a amlinellir yn y safonau yn arfer cyfredol; yn hytrach fe nodir sut caiff y Gymraeg ei hystyried wrth lunio polisiâu fel rhan o'i adroddiadau monitro blynyddol. Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur.

Roedd y sefydliad yn cwestiynu'r budd o newid ei drefniadau cyfredol er mwyn gweithredu yn unol â'r safonau. Ategwyd at hynny gan dynnu sylw at y 'Mutual Recognition of Professional Qualifications Directive (MRPQ)' Ewropeaidd, sy'n datgan fod pob aelod-wladwriaeth yn medru cyflwyno gofynion ieithyddol mewn perthynas ag un iaith yn unig. Aethpwyd ymlaen i nodi bod Llywodraeth y DU wedi datgan mai Saesneg fyddai'r iaith honno. O'r herwydd, roedd y gofynion iaith yn mynnu bod nyrsys a bydwragedd yn meddu ar sgiliau Saesneg digonol.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.⁸²

Wrth ystyried gofynion safon 96, nododd y sefydliad ei fod yn arfer cyfredol o dan y cynllun iaith Gymraeg i ddatblygu canllawiau mewnol ar y trefniadau i gyfieithu dogfennaeth a gohebiaeth i'r Gymraeg.

Aethpwyd ymlaen i nodi fod y rhaglen ymsefydlu ar gyfer staff a chontractwyr yn cyfeirio at y cynllun iaith Gymraeg, a bod cylchlythyron a sesiynau briffio ar gyfer staff hefyd yn gwneud hyn. Cadarnhawyd nad oedd y sefydliad yn darparu'r dogfennau a pholisïau a nodir yn safonau 97-109, ond y gellir darparu'r deunydd a nodir yn safonau 97-102 ar gais.

Ar y cyfan, ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn cyflogi staff yng Nghymru nac unrhyw siaradwyr Gymraeg pan gyflwynwyd y dystiolaeth.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.⁸³

Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn cynnig y gwasanaethau a nodir yn safonau 110-113 yn Gymraeg. Wrth ystyried gofynion y safonau, cynigodd y sefydliad y dylid ystyried sgiliau iaith gyfredol y gweithlu cyn gosod y safonau hyn ar gorff. Fel y cyfryw, nododd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd natur y gweithlu. Ychwanegodd y byddai'r cost gysylltiol o bosib yn ddianghenraid.

⁸² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.⁸⁴

Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn cynnig y gwasanaethau a nodir yn safonau 114-117 yn Gymraeg, a'i fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac yn anghymesur gan ystyried proffil ei weithlu.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.⁸⁵

Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn cydymffurfio â safonau 118-124. Nid oedd y sefydliad yn teimlo y byddai'n realistig iddo wneud hynny gan ystyried sgiliau Cymraeg y gweithlu. Yn yr un modd, nododd y sefydliad y byddai cyfieithu oddeutu 878 tudalen o'i fewnrwyd yn amhosib gan ystyried yr adnoddau oedd ganddo.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 44% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁸⁶

Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion nac yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg yn unol â safonau 126 a 127. Er nad oedd y sefydliad yn teimlo y byddai gweithredu drwy'r Gymraeg yn y meysydd a bennir yn safonau 128 a 129 yn ddefnyddiol, cydnabuwyd y byddai'n bosibl darparu cyrsiau penodol yn ôl yr angen. Nodwyd ei fod yn cynnig dolenni i staff at wefannau 'BBC - Learning Welsh' a 'Surface languages - Learn Welsh' er mwyn iddynt allu dysgu ymadroddion syml er mwyn adeiladu'r berthynas gyda'i randdeiliaid Cymraeg.

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod eisoes yn cydymffurfio â safonau 130 a 131 ynghylch ymwybyddiaeth staff o'r Gymraeg a'r cynllun iaith Gymraeg, a hynny drwy dudalen un pwrpas ar y mewnwyd. Nid oedd y sefydliad yn cydymffurfio â safonau 132 a 133 pan gyflwynwyd y dystiolaeth.

⁸⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.⁸⁷

Nododd y sefydliad nad oedd nifer fawr o swyddi a oedd yn cynnwys sgiliau Gymraeg fel elfen hanfodol wedi eu hysbysebu yn y gorffennol. Nid oedd y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion eraill safonau 134-138.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.⁸⁸

Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd arwyddion sy'n cael eu harddangos tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff yn rhesymol ac yn gymesur.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.⁸⁹

Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

Ar y cyfan, nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, gan dynnu sylw penodol at y safonau ynghylch arwyddion a chyhoeddiadau sain.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nid oedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystyried y byddai gosod y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd y sefydliad yn gweld budd mewn ailymweld â phrosesau cyfredol o safbwynt triniaeth y sefydliad o'r Gymraeg.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 8% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cadw cofnodion.⁹⁰

⁸⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Wrth gyflwyno tystiolaeth yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion arfaethedig, nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fod y broses gyfredol o gyflwyno adroddiadau monitro yn golygu bod y mwyafrif o'r wybodaeth angenrheidiol yn cael ei gasglu eisoes. Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nid oedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystyried y byddai gosod y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd y sefydliad yn gweld budd mewn ailymweld â phrosesau cyfredol o safbwynt triniaeth y sefydliad o'r Gymraeg.

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁹¹

Nododd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â'r safonau dan sylw wrth ohebu â'r cyhoedd yng Nghymru. Cyfeiriwyd at wrthddywediad ymddangosiadol rhwng safonau 2 a 5, gan nodi nad oedd yn glir a ddylai sefydliad ofyn i unigolyn os ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg wrth ohebu gyda nhw am y tro cyntaf yn unol â safon 2, neu ysgrifennu atynt yn ddwyieithog o'r dechrau yn unol â safon 5. Ym marn y sefydliad safon 2 fyddai'r dewis fwyaf cymesur o'r ddau wrth gyfathrebu dros y ffôn neu e-bost.

Mewn perthynas â safon 7, nododd y sefydliad na fyddai'n ymarferol i ohebu yn ddwyieithog gan fyddai hyn yn achosi oedi ac achosi costau wrth gyfieithu ymatebion. Yn ogystal, mynegwyd pryder na fyddai bob tro yn bosibl adnabod a oedd y gohebydd yn siaradwyr Cymraeg ai peidio pe byddai'n cysylltu drwy ddulliau electronig. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai'n anymarferol i ofyn y cwestiwn hwn i bob gohebydd, yn enwedig ar rwydweithiau cymdeithasol.

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur ar y cyfan, yn amodol ar pe byddai'n bosib mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd uchod.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁹²

Nid oedd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd diffyg galw, y ffaith nad oedd y sefydliad yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg a'i fod wedi ei leoli yn Llundain. Ym marn y sefydliad byddai'n fwy cymesur iddo danyysgrifio i wasanaeth llinell iaith neu drefnu galwad cynadledda gyda chyfieithydd pe bai unigolyn am siarad Cymraeg dros y ffôn.

⁹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 6% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁹³

Nododd y sefydliad y byddai'n fodlon cynnig gwasanaethau cyfieithu yn y mathau o gyfarfodydd dan sylw, er nad oedd wedi derbyn cais o'r fath pan gyflwynwyd y dystiolaeth. Aethpwyd ymlaen i nodi bod y sefydliad yn cyfarfod yn bennaf â rhanddeiliaid a oedd yn cynnal eu busnes drwy gyfrwng Saesneg yn hytrach nac aelodau o'r cyhoedd.

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud bob safon o dan sylw yn benodol gymwys yn debygol o fod yn rhesymol a chymesur cyn belled â'u bod yn berthnasol i gyfarfodydd yng Nghymru yn unig, ac eithrio safon 23. Nododd y sefydliad y byddai gwneud y safon yma yn benodol gymwys yn golygu y byddai'n rhaid i'w holl staff ac aelodau Cyngor fod yn medru siarad Gymraeg.

Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn ag argaeledd cyfieithwyr olynol, a oedd ym marn y sefydliad y gwasanaeth fwyaf addas ar gyfer cyfarfodydd a phynciau cymhleth o natur gyfreithiol neu feddygol.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁹⁴

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn gofyn i fynychwyr cyfarfodydd o flaen llaw os ydynt yn dymuno cael gwasanaeth cyfieithu, ac yn darparu cyfieithydd os ceir unrhyw geisiadau.

Ar y cyfan, ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau o dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur mewn cysylltiad â chyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru.

Roedd y sefydliad yn ystyried safon 33 yn anghymesur o ran y gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyfieithu lle nad oes cais amdano wedi ei wneud o flaen llaw, a hynny yng nghyd-destun sicrhau gwerth am arian aelodau cofrestredig.

⁹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond cafwyd tystiolaeth ei fod weithiau yn trefnu digwyddiadau yng Nghymru ar y cyd gyda rheoleiddwyr eraill.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁹⁵

Roedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, cyn belled â'u bod yn berthnasol i ddigwyddiadau a gynhelir yng Nghymru yn unig.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁹⁶

Er i'r sefydliad nodi nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ystyriwyd y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, er y rhagwelir rhai sefyllfaoedd ble byddai'n fwy cost-effeithiol ac ymarferol i gynnig copïau caled yn un o'r ddwy iaith.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁹⁷

⁹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Gan nodi fod cynllun iaith presennol y sefydliad yn seiliedig ar ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog, ni ystyriwyd y byddai darparu gwybodaeth a dargedir at ei aelodau yn ddwyieithog hefyd yn gymesur.

Fodd bynnag, nododd y sefydliad y byddai'r safonau dan sylw yn rhesymol a chymesur ar y cyfan mewn perthynas â dogfennau yng Nghymru. Oherwydd y cynhelir y mwyafrif o gyfarfodydd yn Llundain, er enghraifft, ystyriodd y sefydliad y byddai gofynion safon 41 yn rhy rhagnodol. Cadarnhawyd fodd bynnag y byddai'n synhwyrol cyfieithu papurau ar gyfer cyfarfodydd yng Nghymru, ac y byddai'n bosibl cyfieithu unrhyw bapurau eraill ar gais.

Yn yr un modd, nodwyd bod rhai ymgynghoriadau yn gyfreithiol a thechnegol eu natur ac o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a chyfreithwyr. O ran safon 46, nodwyd mai dim ond datganiadau i'r wasg a anelir at y wasg Cymraeg y dylid cyfieithu, ac y gall hynny arwain at oedi mewn amgylchiadau o frys.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁹⁸

Cadarnhawyd fod ffurflenni cwyno a dargedir at y cyhoedd eisoes ar gael yn Gymraeg, ac y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nid oedd ffurflenni a dargedir at aelodau cofrestredig ar gael yn Gymraeg.

Yn yr un modd, nododd y sefydliad fod ganddo system gofrestru ar-lein, ac y byddai gwneud y system yma ynghyd â ffurflenni a dargedir at aelodau cofrestredig yn ddwyieithog yn anghymesur o ran y goblygiadau ariannol cysylltiol.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁹⁹

Nododd y sefydliad ei fod yn darparu adran o'i wefan yn Gymraeg, sydd yn cynnwys gwybodaeth allweddol ynglŷn â swyddogaethau rheoleiddiol y sefydliad ac yn galluogi unigolion i bori'r gofrestr o optegwyr yn Gymraeg.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur i wneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo, a hynny drwy dynnu sylw at

⁹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

egwyddor y sefydliad o ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg i'r cyhoedd, ond nid i aelodau'r proffesiwn. Cafodd rhesymau cost eu crybwyll yn ogystal; nododd y sefydliad ei fod wedi derbyn amcangyfrif gan ei gyflenwr y byddai darparu'r wefan gyfan yn Gymraeg yn costio £50,000 i gychwyn, ynghyd â chostau rhedeg ychwanegol.

Nid oedd y sefydliad yn darparu apiau pan gyflwynwyd y dystiolaeth, a nodwyd y byddai unrhyw apiau a gyhoeddwyd yn y dyfodol ar gael yn ddwyieithog os y'u hanelir at y cyhoedd.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mewn perthynas â safon 59, nodwyd nad oedd yn gweld yr angen i nodi pa iaith a roddir yn gyntaf, cyn belled bod y ddwy iaith yn hygyrch.

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod wedi ei leoli yn Llundain ac nad oedd ganddo staff a oedd yn siarad Cymraeg. Ychwanegodd y byddai disgwyl bod unrhyw ymwelwyr o Gymru yn rhoi rhybudd o flaen llaw fel y byddai'n bosib trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar gael ble bo'n briodol.

Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹⁰⁰

Roedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

¹⁰⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.¹⁰¹

Roedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.¹⁰²

Roedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er nad oedd y sefydliad yn gwneud y gweithgaredd hwn yn Gymraeg pan gyflwynwyd y dystiolaeth, cadarnhawyd y byddai'n rhesymol iddo ddechrau gwneud hynny.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.¹⁰³

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Roedd y sefydliad yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.¹⁰⁴

¹⁰¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁰² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁰³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁰⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd y sefydliad y byddai gwneud y safon dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, pe bai'n berthnasol i weithgareddau a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn unig.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.¹⁰⁵

Nododd y sefydliad y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur cyn belled â'u bod yn berthnasol i gyrsiau a ddarperir yng Nghymru yn unig.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.¹⁰⁶

Nododd y sefydliad y byddai gwneud y safon dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur cyn belled â'u bod yn berthnasol i ddefnydd systemau annerch cyhoeddus yng Nghymru yn unig.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi
gwasanaethau [158-163]**

Roedd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud a'r materion yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 70% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau sy'n ymwneud â llunio polisi.¹⁰⁷

Cadarnhaodd y Cyngor Optegol Cyffredinol ei fod yn cynnal asesiadau effaith o ran amrywiaeth a chydaddoldeb fel rhan o'i broses datblygu polisi, a hynny yn cynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg. Nododd y sefydliad hefyd y byddai yn ymdrin â'r effaith ar y Gymraeg mewn ymgynghoriadau ble byddai hynny yn briodol. Er hynny, cadarnhawyd nad oedd y sefydliad yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd.

Ystyriodd y sefydliad y byddai'r safonau yn rhesymol a chymesur cyn belled bod disgwyl iddo gydymffurfio mewn meysydd perthnasol i'r sefydliad yn unig.

¹⁰⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁰⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁰⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Roedd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 7% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.¹⁰⁸

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau 96-109 pan gyflwynwyd y dystiolaeth, a hynny oherwydd ei fod yn cynnal busnes mewnol yn Saesneg yn unig gan ei fod wedi lleoli yn Llundain. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai'n bosib cydymffurfio â'r safonau pe bai'r sefydliad yn agor swyddfa yng Nghymru.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.¹⁰⁹

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau 110-113 pan gyflwynwyd y dystiolaeth, a hynny oherwydd ei fod yn cynnal busnes mewnol yn Saesneg yn unig gan ei fod wedi lleoli yn Llundain. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai'n bosib cydymffurfio â'r safonau pe bai'r sefydliad yn agor swyddfa yng Nghymru.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.¹¹⁰

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau 114-117 pan gyflwynwyd y dystiolaeth, a hynny oherwydd ei fod yn cynnal busnes mewnol yn Saesneg yn unig gan ei fod wedi lleoli yn Llundain. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai'n bosib cydymffurfio â'r safonau pe bai'r sefydliad yn agor swyddfa yng Nghymru.

¹⁰⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁰⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹¹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.¹¹¹

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau 118-124 pan gyflwynwyd y dystiolaeth, a hynny oherwydd ei fod yn cynnal busnes mewnol yn Saesneg yn unig gan ei fod wedi lleoli yn Llundain.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 44% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.¹¹²

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion. Nid oedd yn darparu hyfforddiant ym mhob un o'r meysydd dan sylw, ond yn y meysydd ble darperir hyfforddiant roedd yr hyfforddiant hynny'n cael ei ddarparu yn Saesneg. Fel sefydliad a leolir yn Llundain, nid oedd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried y byddai'n gymesur i ddarparu gwersi Cymraeg i'w holl gyflogeion. Fodd bynnag, nododd y sefydliad ei fod yn ystyried safon 130 yn arfer da, ac y caiff staff perthnasol eu briffio ar gyfrifoldebau'r sefydliad o ran ei gynllun iaith. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r sefydliad yn cefnogi unrhyw aelod Cymraeg o'i staff a oedd yn dymuno gwella ei sgiliau iaith Gymraeg.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.¹¹³

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd yn cydymffurfio â'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff pan gyflwynwyd y dystiolaeth, a hynny gan ei fod yn gweithredu proses recriwtio drwy gyfrwng y Saesneg fel corff a leolir yn Llundain. Nododd y sefydliad y byddai'r gost o ddyblygu'r system recriwtio ar-lein yn Gymraeg yn anghymesur.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.¹¹⁴

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yr arwyddion sy'n cael eu harddangos tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg.

¹¹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹¹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹¹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹¹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.¹¹⁵

Nododd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

Nid oedd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn gymesur ac ni fyddai unrhyw fanteision i'w staff, i randdeiliad nac i'r cyhoedd o ystyried y ffaith ei fod wedi'i leoli y tu allan i Gymru, a'r ffaith y byddai'n rhaid i aelodau cofrestredig y sefydliad gyfrannu at y costau ychwanegol. Er hynny nododd y byddai'n ystyried goblygiadau cost a chymesuredd y safonau pe bai'n agor swyddfa yng Nghymru yn y dyfodol.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Roedd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd y Cyngor Optegol Cyffredinol nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 38% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cadw cofnodion.¹¹⁶

Ystyriodd y Cyngor Optegol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Ystyriodd y Cyngor Optegol Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

¹¹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹¹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.¹¹⁷

Nododd y sefydliad fod ganddo'r un safonau mewnol ar gyfer gohebiaeth Cymraeg a Saesneg. Ychwanegodd y sefydliad y byddai'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn cwrdd â'r safonau hynny mewn perthynas â gohebiaeth Cymraeg. Yn ôl y sefydliad byddai'r safonau mewnol hyn yn ei alluogi i gydymffurfio a safonau 1, 6 a 7 pe bai safon 7 yn berthnasol ar gyfer gohebu gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn unig. Cadarnhaodd y sefydliad y byddai hefyd yn medru cydymffurfio â safonau 2 a 5, er y dylid nodi nad oedd yn gohebu â'r cyhoedd mewn unrhyw ran o'r DU (gan gynnwys Cymru) fel mater o arfer.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd y sefydliad na fyddai'n cysylltu ag aelodau cofrestredig yn Gymraeg fel mater o arfer oherwydd bod y gallu i gyfathrebu yn Saesneg yn amod o gofrestru i feddygon esgyrn.

Nodwyd hefyd y byddai costau ychwanegol cysylltiol yn cael eu hariannu drwy ffioedd cofrestru, ac na fyddai'n rhesymol a chymesur i aelodau cofrestredig ledled y DU i ysgwyddo'r costau ychwanegol hyn o ystyried canran aelodaeth y sefydliad a leolir yng Nghymru (121 allan o 4976). Tynnwyd sylw at y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi gofyn i reoleiddwyr gofal iechyd i leihau eu ffioedd cofrestru yn y blynyddoedd diwethaf.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.¹¹⁸

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am yr un rhesymau a nodwyd yng nghyswllt gweithgaredd 1.

¹¹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹¹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.¹¹⁹

Er i'r sefydliad nodi nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwn fel arfer, cadarnhawyd y byddai gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu pe bai sefyllfa berthnasol yn codi, megis cyfarfod gydag aelod o'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o wrandawriad ffitrwydd i ymarfer. I'r graddau hyn, cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n bosib iddo gydymffurfio â safonau 23-26.

Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud safonau 27-29 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd y sefydliad nad oedd yn cynnal cyfarfodydd o'r fath yng Nghymru. Byddai'r cyfarfodydd hynny yn digwydd yn Llundain gan amlaf, ac yn dueddol o gael eu cynnal gyda gweithwyr ym myd iechyd neu feysydd eraill. Ym marn y sefydliad byddai'n anghymesur disgwyl i sefydliadau a oedd yn gweithredu ledled y DU i gynnal cyfarfodydd o'r math yma yn Gymraeg, ac ychwanegwyd nad oedd ganddo y cyllid i ddarparu gwasanaethau cyfieithu er mwyn gwneud hynny.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.¹²⁰

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â'r safonau hyn pe bai'n cynnal cyfarfod cyhoeddus yng Nghymru, oherwydd ei fod wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau yma yn barod. Fodd bynnag, ystyriodd y sefydliad y byddai disgwyl iddo gydymffurfio ledled y DU yn afresymol ac yn anghymesur, ac nad oedd ganddo'r adnoddau o ran cost a chyllideb i wneud hynny.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.¹²¹

¹¹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹²⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.¹²²

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â'r safon yma cyn belled â'u bod yn berthnasol ar gyfer cyhoeddusrwydd neu hysbysebu i'w defnyddio yng Nghymru yn unig. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai disgwyl i'r sefydliad i gydymffurfio ar draws y DU yn afresymol ac yn anghymesur, ac nad oedd ganddo yr adnoddau staff na'r cyllid i wneud hynny.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.¹²³

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.

Cadarnhaodd y sefydliad fod y dogfennau a gynhyrchir ganddo a dargedir at y cyhoedd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg fel mater o arfer. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod y sefydliad yn croesawu ceisiadau i gyfieithu dogfennau eraill ble bo'n bosibl. I'r graddau hynny, nododd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 40, 43, 46 a 48.

Yng nghyswllt safon 49 nododd ei fod yn datgan ar ei wefan ac o fewn ei gynllun rhyddid gwybodaeth yn hytrach nag ar wyneb dogfennau eu hunain ei fod yn cynnig fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai'r posibilïad o gynnwys y wybodaeth yma ar y dogfennau eu hunain yn cael ei ystyried.

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â safon 42 i'r graddau y byddai'n medru gofyn i aelodau cofrestredig a hoffent dderbyn tystysgrifau yn Gymraeg. Nid oedd y sefydliad yn gwneud y gweithgaredd a bennir yn safon 45.

Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud rhai o'r safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nodwyd na fyddai'n bosib cydymffurfio yn llawn â safonau 41 a 44

¹²¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹²² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹²³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

oherwydd maint rhai dogfennau ynghyd â'r costau ac adnoddau angenrheidiol i'w darparu yn ddwyieithog. Fel corff a oedd yn gweithredu ledled y DU, heb swyddfa yng Nghymru, nodwyd y byddai'r sefydliad yn darparu dogfennau o'r fath ar gais.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 50 a 50B, ac y byddai'n medru bodhau safon 50A i'r graddau y byddai'n datgan ar ei wefan bod ffurflenni ar gael yn Gymraeg yn yr adran hynny o'r wefan lle cedwir y fersiynau Saesneg. Ategwyd at hynny gan gadarnhau y byddai datganiad yn cael ei ychwanegu i unrhyw ffurflenni newydd at ddefnydd y cyhoedd.

Wrth ystyried gofynion safon 51, nodwyd mai'r unig amgylchiadau y rhagwelir y byddai'r safon yn berthnasol oedd ynghylch ffurflen dystio i'w arwyddo gan achwynydd. Cadarnhawyd y gellir gwneud datganiad o'r fath yn Gymraeg os dymunir hynny.

Ar y cyfan, ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.¹²⁴

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod eisoes yn darparu'r wybodaeth fwyaf poblogaidd ac allweddol i'r cyhoedd ac i gleifion yn Gymraeg ar ei wefan. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai'n bosib egluro ar y tudalennau Saesneg cyfatebol bod yr wybodaeth dan sylw hefyd ar gael yn Gymraeg, ac y byddai'r posibilïad o ychwanegu gwybodaeth bellach yn y Gymraeg pe bai gwaith dadansoddol ar y wefan yn awgrymu y byddai hyn yn ddefnyddiol.

Fodd bynnag, ar y cyfan ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny gan nad oedd gan y sefydliad yr isadeiledd na'r cyllid i ddarparu'i holl wefan yn Gymraeg.

Ategwyd at hynny drwy nodi mai'r cyllid cyfredol am wefan y sefydliad ar gyfer 2014-15 a 2015-16 oedd £16,000 y flwyddyn.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

¹²⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.¹²⁵

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.¹²⁶

Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd ganddo swyddfa yng Nghymru, nac ychwaith unrhyw aelodau staff a oedd yn siarad Cymraeg. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd gan y sefydliad adnoddau digonol i ddarparu staff er mwyn darparu gwasanaeth derbynfa ac nad oedd yn derbyn llawer o ymwelwyr i'w swyddfa.

Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol

Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹²⁷

Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant

Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.¹²⁸

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd yn dyfarnu grantiau yn rheolaidd, a byddai disgwyl i'r sefydliad gynnal y gweithgaredd yma yn Gymraeg yn anghymesur, a byddai'r costau o wneud hynny yn waharddol.

Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am contract

Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract [74-78]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

¹²⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹²⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹²⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹²⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.¹²⁹

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am fod y sefydliad heb swyddfa yng Nghymru ac yn gweithredu ledled y DU, ac am nad oedd ganddo'r isadeiledd na'r cyllid i gydymffurfio. Cydnabuwyd y byddai'r safonau o bosibl yn briodol i sefydliad a phresenoldeb yng Nghymru a oedd yn tendro am waith i'w gyflawni yng Nghymru.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.¹³⁰

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.¹³¹

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â'r safon yng nghyswllt ei gwaith yng Nghymru. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai'n anghymesur i ddisgwyl iddo gydymffurfio â'r safon ar draws y DU.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.¹³²

¹²⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹³⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹³¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.¹³³

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod nifer o brosesau cyffelyb yn weithredol o dan ei gynllun iaith. Nodwyd na fyddai rhai elfennau o'r safonau dan sylw yn berthnasol gan nad oedd ganddo swyddfa a oedd yn agored i'r cyhoedd.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau sy'n ymwneud â llunio polisi.¹³⁴

Ystyriodd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol y byddai safonau 86-95 yn fwy perthnasol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru nac i gorff a oedd yn gweithredu ledled y DU a heb swyddfa yng Nghymru. Cadarnhaodd y sefydliad ei fod wedi ymrwymo o dan ei gynllun iaith presennol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac i sicrhau fod polisiâu a mentrau newydd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ble bo'n briodol. Aethpwyd ymlaen i nodi fod holl bolisiâu'r sefydliad yn ymwneud â materion rheoleiddiol a gweithdrefnau ffitrwydd i ymarfer, ac ni allai'r polisiâu hynny gael unrhyw effaith ar gyfleoedd i'r cyhoedd yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai unrhyw weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig yn ymwneud ag unigolion yn rhoi tystiolaeth mewn gwrandawriadau yn cael eu hasesu er mwyn sicrhau bod cyfleoedd iddynt siarad yn Gymraeg.

Wrth ystyried gofynion safonau 88-91, nododd y sefydliad fod ei holl ymgynghoriadau yn holi barn am oblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth polisiâu neu fentrau arfaethedig, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar y Gymraeg.

Cadarnhawyd nad oedd y sefydliad yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd.

O ran cynnal gwaith ymchwil i'w gynorthwyo i gymryd penderfyniad polisi, cadarnhawyd y byddai unrhyw grwpiau ffocws i'r cyhoedd neu i gleifion a gynhaliwyd yng Nghymru yn rhoi cyfle i gyfranogwyr i siarad Cymraeg.

Nid oedd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur am y rhesymau a nodir uchod.

¹³² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹³³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹³⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod nifer o brosesau cyffelyb yn weithredol yn barod o dan gynllun iaith y sefydliad. Nodwyd na fyddai rhai elfennau o'r safonau dan sylw yn berthnasol gan nad oedd gan y sefydliad swyddfa a oedd yn agored i'r cyhoedd. Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â safon 169, cyn belled a bod cyfnod o rybudd digonol yn cael ei roi er mwyn paratoi i gydymffurfio. Ym marn y sefydliad byddai cyfnod o ddau fis yn rhesymol.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.¹³⁵

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 96-109, a hynny am nad oedd yn ystyried eu bod yn berthnasol ar gyfer sefydliad a oedd yn gweithredu ledled y DU a heb swyddfa yng Nghymru. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd y sefydliad yn meddu ar gyllid na'r isadeiledd angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r safonau dan sylw.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.¹³⁶

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 110-113, a hynny am nad oedd yn ystyried eu bod yn berthnasol ar gyfer sefydliad a oedd yn gweithredu ledled y DU a heb swyddfa yng Nghymru. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd y sefydliad yn meddu ar gyllid na'r isadeiledd angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r safonau dan sylw.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.¹³⁷

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 114-117, a hynny am nad oedd yn ystyried eu bod yn berthnasol ar gyfer sefydliad a oedd yn gweithredu ledled y DU a heb swyddfa yng Nghymru. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd y sefydliad yn meddu ar gyllid na'r isadeiledd angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r safonau dan sylw.

¹³⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹³⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹³⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.¹³⁸

Nododd y sefydliad nad oedd safonau 118-124 yn berthnasol iddo, gan nad oedd yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg a gan nad oedd ganddo fewnrwyd.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.¹³⁹

Wrth ystyried gofynion safonau 125-133, cadarnhawyd bod copi o gynllun iaith y sefydliad yn cael ei ddarparu i gyflogeion ynghyd â chanllawiau ysgrifenedig yn ei gylch. Nodwyd hefyd fod meithrin dealltwriaeth staff o ran ymrwymadau'r sefydliad i weithredu o fewn ei gynllun iaith Gymraeg yn rhan o'r broses ymsefydlu i staff newydd.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.¹⁴⁰

Nododd y sefydliad nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn ofynnol ar gyfer unrhyw swyddi o fewn y sefydliad, gan nad oedd ganddo swyddfa yng Nghymru ac mai canran bach yn unig o waith y sefydliad sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.¹⁴¹

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd yr arwyddion sy'n cael eu harddangos yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.¹⁴²

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

¹³⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹³⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁴⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁴¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁴² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Ar y cyfan, ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny naill ai oherwydd nad oedd y sefydliad yn gwneud y gweithgaredd (er enghraifft mewn perthynas â safonau 140-142), neu oherwydd ei fod o'r farn y byddai'r safonau yn fwy priodol ar gyfer sefydliadau a oedd â swyddfa yng Nghymru ac yn cyflogi siaradwyr Cymraeg (er enghraifft mewn perthynas â safonau 134-139A).

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Ystyriodd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, amlygwyd rhai elfennau o'r safonau dan sylw na fyddai yn berthnasol oherwydd natur y sefydliad.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 23% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cadw cofnodion.¹⁴³

Nododd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol nad oedd yn rhagweld y byddai angen unrhyw brosesau ychwanegol i'r rhai cyfredol o dan gynllun iaith y sefydliad er mwyn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Nodwyd na fyddai rhai elfennau o'r safonau arfaethedig yn berthnasol oherwydd natur y sefydliad.

Ar y cyfan, nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn glir ynghylch pwrpas y gofynion cadw cofnodion ychwanegol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi na fyddai gan y sefydliad unrhyw ddata i adrodd yn y mwyafrif o gategorïau arfaethedig.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nid oedd y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mynegodd y byddai'n medru cydymffurfio â'r safonau, ond ei fod yn credu y byddant yn faich anghymesur a dianghenraid. Ychwanegwyd at hynny gan nodi fod gan y sefydliad gynllun cyhoeddiadau eang, yn unol â gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth.

¹⁴³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.¹⁴⁴

Nododd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 1 a 6 mewn perthynas â gohebiaeth gyda'r cyhoedd, ac y byddai'n bosibl cydymffurfio â rhai o'r agweddau o'r safonau eraill dan sylw yn y tymor canol er y byddai angen adnoddau ychwanegol i wneud hynny.

Ar y cyfan, nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Fel sylw cyffredinol ynglŷn â'r safonau ynghylch y gweithgaredd hwn, nododd y sefydliad y dylai'r Comisiynydd ystyried cymesuredd gofynion y safonau i sefydliadau sydd â phresenoldeb ledled y DU, gan ychwanegu mai tri aelod cofrestredig sydd wedi nodi eu dymuniad i dderbyn gohebiaeth Cymraeg ynglŷn â'i gofrestrïadau.

Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd yn ei ystyried yn rhesymol na'n gymesur i ddisgwyl i sefydliad a oedd yn gweithredu ledled y DU wneud cais am ddewisiadau iaith aelodau cofrestredig unigol o'r dechrau.

Roedd o'r farn y byddai'n fwy rhesymol a chymesur iddo anfon gohebiaeth Cymraeg ar gais, yn hytrach na phob darn o ohebiaeth megis ffurflenni adnewyddu cofrestrïad. Awgrymodd y byddai'n medru cydymffurfio â'r safon pe bai'n berthnasol i ohebiaeth â'r cyhoedd a chleifion yn unig yn hytrach nag aelodau cofrestredig yn ogystal.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.¹⁴⁵

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur ar y cyfan.

Cadarnhaodd y byddai'n medru cydymffurfio â safon 18 a bod gwasanaeth cyfieithu'n cael ei ddarparu trwy Language Line. Gan nad oedd gan y sefydliad unrhyw gyflogaion a oedd yn siarad Cymraeg, nododd na fyddai'n bosibl iddo drosglwyddo galwadau i siaradwr Cymraeg ac felly na fyddai'n bosibl cydymffurfio â safonau 10,11, 19 a 20.

¹⁴⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁴⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nodwyd y byddai'n rhaid i'r sefydliad ystyried cymesuredd datgan fod ei adran gofrestru yn croesawu galwadau yn Gymraeg, ond y byddai o bosibl yn medru cydymffurfio â rhai agweddau o safonau 12,13 a 14. Mewn perthynas â safon 13, nododd y sefydliad nad oedd yn crybwyll gwasanaeth Cymraeg mewn neges awtomataidd ar gyfer galwadau i rif yr adran gofrestru.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried safon 16 yn berthnasol iddo, gan nad oedd yn defnyddio gwasanaeth peiriant ateb ar gyfer ei brif rifau ffôn. Yn yr un modd, nid oedd y sefydliad yn ystyried safon 17 yn berthnasol gan ei fod yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu.

Nododd y sefydliad nad oedd yn ystyried safon 21 yn rhesymol a chymesur ar gyfer sefydliad a oedd yn gweithredu ledled y DU, a bod y mwyafrif o alwadau a wneir gan y sefydliad at unigolion y tu allan i Gymru.

Wrth ystyried gofynion y safonau dan sylw, nododd y byddai cydymffurfio â rhai ohonynt yn ymofyn adnoddau ariannol a sylweddol, ac y dylid ystyried hyn wrth osod safonau ar gyrrff hunangyllidol.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.¹⁴⁶

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn cyfarfod ag ystod eang o randdeiliaid yn gyson wrth weithredu ei rôl statudol, ac y byddai'n ceisio cyflawni gymaint o anghenion cyfathrebu cyfranogwyr a phosibl, gan gynnwys yn Gymraeg. Yn y mwyafrif o achosion, nodwyd y byddai hyn yn golygu defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Fel y cyfryw, ystyriodd y sefydliad y byddai gosod safonau 24A, 26A, 27A, 27B, 27C, 27E a 29A yn rhesymol a chymesur.

Ni ystyriwyd y byddai'n rhesymol a chymesur i'r sefydliad ymofyn dewisiadau cyfathrebu ar gyfer pob ymwelydd i gyfarfod preifat yn ei swyddfeydd yn Llundain, ac ni fyddai'n bosibl bob tro i wybod a oedd yn ymwelydd o Gymru ydoedd.

Ategwyd at hynny gan nodi nad oedd gan y sefydliad unrhyw gyflogeion a oedd yn siarad Cymraeg, ac felly nad oedd yn bosibl cynnal unrhyw gyfarfodydd yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n

¹⁴⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

agored i'r cyhoedd.¹⁴⁷

Cadarnhawyd y byddai'r sefydliad yn medru cydymffurfio â safonau 31, 33 a 34 mewn perthynas â chyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd yng Nghymru.

Ar y cyfan nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn rhesymol a chymesur.

O ran safon 30, nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai darparu proses gofrestru ar-lein ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn rhesymol a chymesur, oherwydd y costau cysylltiol uchel o ran TG a'r diffyg galw am wasanaethau Cymraeg gan gyfranogwyr i ddigwyddiadau yn y gorffennol.

Wrth gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r safonau dan sylw, mynegwyd pryder ynglŷn â chostau cyfieithu papurau cyfarfod ble nad oes cais wedi ei dderbyn am fersiynau Cymraeg.

Ategwyd at hyn drwy nodi nad oedd aelodau o'r cyhoedd yn cael caniatâd gan amlaf i gyfrannu at gyfarfodydd pwyllgorau a Chyngor y sefydliad.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.¹⁴⁸

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 35 a 36, ac yr oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynglŷn a'r angen i ddarparu proses gofrestru ar-lein ar gyfer bob digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff

Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.¹⁴⁹

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio ag elfennau o'r safon mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a hysbysebu a dargedir at gynulleidfa Gymreig.

¹⁴⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁴⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁴⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.¹⁵⁰

Cadarnhawyd y byddai'n bosibl cydymffurfio â rhai elfennau o safonau 38-39 mewn perthynas â digwyddiadau yng Nghymru sydd yn agored i randdeiliaid allweddol.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 70% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.¹⁵¹

Nodwyd bod fersiynau Cymraeg o ddogfennau megis safonau craidd, canllawiau a deunydd arbenigol eraill at sylw aelodau eisoes yn cael eu darparu ar gais, a bod yr ymrwymiad hwn wedi'i ddatgan yn holl gyhoeddiadau'r sefydliad. Gan ystyried hynny, cadarnhawyd y byddai'r sefydliad yn medru cydymffurfio â nifer o'r gofynion i raddau helaeth.

Ar y cyfan, nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, gan nodi costau uchel cyfieithu'r holl ddogfennau a gyhoeddwyd ganddo a'r galw isel amdanynt cyn belled. Fodd bynnag, nododd y sefydliad y byddai'n ystyried cyfieithu rhai dogfennau ychwanegol ar gais, megis tystysgrifau cofrestru.

Ategwyd at hyn drwy ddatgan na fyddai'n rhesymol a chymesur i ddisgwyl i'r sefydliad i ddarparu fersiwn Gymraeg o ddatganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â swyddogaethau rheoleiddiol y tu allan i Gymru.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.¹⁵²

Cadarnhawyd y byddai'n darparu ffurflenni cofrestru Cymraeg ar gais, ac ni fyddai ffurflen a dderbyniwyd yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mewn perthynas â gofynion safon 51 nodwyd y cynhelir y broses adnewyddu cofrestriadau ar-

¹⁵⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

lein, ac nid oedd y system bresennol yn ddwyieithog. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai ond yn bosibl darparu ffurflenni cofrestru papur yn Gymraeg, am eu bod yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi ei fewnosod o flaen llaw.

Ni ystyriwyd y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod y mwyafrif o'r rheiny a gofrestrir gan y sefydliad yn gweithredu y tu allan i Gymru. Ystyriwyd felly y byddai'n afresymol darparu fersiynau Cymraeg o ffurflenni a hynny heb gael cais amdanynt.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.¹⁵³

Mynegodd y sefydliad y dylai unrhyw ofynion o ran dwyieithrwydd y wefan gael ei gyfyngu i ddeunydd a dargedir at y cyhoedd neu gleifion mewn adran Gymraeg o'r wefan. Nododd y sefydliad na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 52, 54 a 55 yn eu cyfanrwydd er iddo gadarnhau y byddai'n medru sicrhau bod tudalennau Cymraeg perthnasol yn gweithredu'n llawn.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur darparu fersiwn Gymraeg o dudalen gartref ei wefan yn unol â safon 53, er cydnabuwyd fod y sefydliad eisoes yn darparu dolen i'w wefan Gymraeg ar dudalen gartref ei wefan Saesneg.

Mewn perthynas â safon 57, nododd y sefydliad ei fod yn ystyried y safon hon i fod yn afresymol ac anghymesur ar gyfer sefydliad a oedd yn gweithredu ledled y DU, ac y byddai'n fwy cost effeithiol i ddatblygu fersiynau Cymraeg o ddau ap y sefydliad o'r newydd.

Ar y cyfan, nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.¹⁵⁴

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru yn unig.

¹⁵³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.¹⁵⁵

Ni ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur o ran cost, a hynny oherwydd ei fod o'r farn y dylai'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg fod yn berthnasol ar gyfer sefydliad oedd a swyddfa yng Nghymru yn unig.

Fodd bynnag, nododd y sefydliad ei fod eisoes yn cydymffurfio â rhai agweddau o safon 63, gan ei fod yn defnyddio'r gwasanaeth Language Line ar gyfer galwadau a dderbyniwyd mewn ieithoedd ar wahân i'r Saesneg. Yn ogystal, cadarnhawyd y byddai unrhyw geisiadau o flaen llaw i dderbyn gwasanaeth dderbynfa Cymraeg yn cael eu hystyried, a thrwy hynny byddai'n bosibl cydymffurfio â rhai agweddau o safon 62A.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹⁵⁶

Cadarnhaodd y byddai'n bosibl cydymffurfio â safon 67 yng nghyd-destun unrhyw ohebiaeth Gymraeg a fyddai'n deillio o ddyroddi hysbysiad swyddogol.

Ar y cyfan, ystyriwyd na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys i'r sefydliad yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd na fyddai'n rhesymol na'n gymesur disgwyl i destun Cymraeg ymddangos cyn y testun Saesneg ble bo'r mwyafrif helaeth o'i waith yn cael ei gynnal drwy'r Saesneg.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.¹⁵⁷

¹⁵⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.¹⁵⁸

Ystyriodd y sefydliad fod safonau 75, 75A a 78 yn rhesymol a chymesur gan eu bod yn debyg i ymrwymadau cyfredol ei gynllun iaith Gymraeg.

Pe bai tendr yn cael ei dderbyn yn Gymraeg ble roedd cyfweiliad yn rhan o'r broses ddyfarnu, cadarnhawyd y byddai'r cyfweiliad hynny'n cael ei gynnig yn Gymraeg drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Dylid nodi y byddai'r sefydliad hefyd yn cadw'r hawl i asesu cymhwysedd iaith Saesneg cyfwelai mewn achosion o'r fath.

Fodd bynnag, nododd y sefydliad ei fod yn ystyried safonau 74 a 76 i fod yn afresymol ac yn anghymesur ar gyfer corff a oedd yn gweithredu ledled y DU.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.¹⁵⁹

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur ar y cyfan.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

¹⁵⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁵⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.¹⁶⁰

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur mewn perthynas â logo, offer swyddfa ddwyieithog, a llofnodion e-bost staff. Ategwyd at hyn gan nodi y dylai unrhyw ofynion pellach fod yn berthnasol i sefydliadau a leolir yng Nghymru.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ac eithrio'r ffaith ei fod yn cynnal rhai digwyddiadau gwybodaeth fel rhan o'i swyddogaeth statudol.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.¹⁶¹

Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn trefnu cyrsiau perthnasol ar wahân i rhai digwyddiadau gwybodaeth a dargedir at randdeiliaid allweddol yn unig.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.¹⁶²

Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd y sefydliad fod llawer o elfennau safonau 158, 159, 160 a 162 yn gyffelyb i'r gofynion monitro ac adrodd o dan gynllun iaith y sefydliad, ac y byddant felly yn rhesymol ac yn gymesur. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r sefydliad yn medru cydymffurfio â safon 163, cyn belled bod cyfnod amser rhesymol yn cael ei gynnig ar gyfer ymateb i unrhyw geisiadau.

Fodd bynnag, nodwyd y byddai elfennau cadw cofnodion 161 yn heriol i adrannau mwyaf y sefydliad megis yr adran gofrestru.

¹⁶⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁶¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁶² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 20% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau sy'n ymwneud â llunio polisi.¹⁶³

Cadarnhaodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal y byddai'n medru cydymffurfio â rhai agweddau o safonau 86-88, a hynny wrth iddo gydnabod yr angen i wneud gwaith pellach ar ffurfioli prosesau mewnol ynghylch asesu polisiâu newydd a'u heffaith ar y Gymraeg.

Wrth ystyried gofynion safonau 89-91, nodwyd bod llawer o agweddau o'r safonau hynny yn gyson ag ymrwymadau presennol y sefydliad. Fodd bynnag, yn gyffredinol nododd na fyddai'r safonau yn rhesymol a chymesur pe byddant yn berthnasol ar gyfer pob ymgynghoriad a gynhelir ganddo ar draws y DU, gan ychwanegu nad oedd y mwyafrif o randdeiliaid y sefydliad yn siaradwyr Cymraeg ac felly ni fyddant o reidrwydd yn medru ymateb i gwestiynau ynglŷn â hyn. Nodwyd y byddai angen ystyried rhesymoldeb a chymesurededd cynllunio teclynnau asesu effaith ar gydraddoldeb ar gyfer ymgynghoriadau ledled y DU ar benderfyniadau polisi a all effeithio ar aelodau Cymraeg. Yn gyffredinol, ystyriwyd nad oedd y safonau yn gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau cyrff cyhoeddus a leolir yng Nghymru (megis adran o'r Llywodraeth) a chyrff sy'n gweithredu ledled y DU a all fod yn hunangyllidol.

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd.

Nododd y sefydliad y byddai'n medru cydymffurfio â rhai agweddau o safonau 93-95, ond y byddai rhai agweddau ohonynt yn afresymol ac yn anghymesur ar gyfer corff a oedd yn gweithredu ledled y DU. Dylid nodi fod y sefydliad wedi cadarnhau ei fod yn croesawu tendrau am waith ymchwil yn Gymraeg, a'i fod wedi cadarnhau na fyddai cais a dderbyniwyd yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a dderbyniwyd yn Saesneg.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Ystyriodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.¹⁶⁴

Ystyriodd y sefydliad fod y gofyniad i ddatblygu polisi penodol yn unol â safon 96 yn ddisgwyliad afresymol i sefydliad a leolir yn Llundain a heb gyflogaion yn siarad Cymraeg. Cadarnhawyd fod y sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau y byddai aelodau staff a oedd yn delio â'r cyhoedd ac yn dymuno dysgu Cymraeg yn cael eu cefnogi i wneud hynny fel bo'n briodol i'w swyddi ac yng nghyd-destun eu hamcanion hwy a'r sefydliad yn gyffredinol.

¹⁶³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁶⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.¹⁶⁵

Nododd y sefydliad nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau 110-113 pan gyflwynwyd y dystiolaeth, gan nodi na fyddant yn rhesymol a chymesur ar gyfer sefydliad a oedd yn gweithredu ledled y DU heb swyddfa yng Nghymru na chyflogeion a oedd yn siarad Cymraeg.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.¹⁶⁶

Nododd y sefydliad na fyddai'n medru cydymffurfio â'r safonau dan sylw fel corff a oedd wedi ei leoli yn Llundain.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.¹⁶⁷

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd ei dudalen gartref, rhyngwynebau na dewislenni'n cael eu darparu yn Gymraeg, ac ni fyddai cydymffurfio â'r safonau ynghylch darparu mewnwyd yn gost-effeithiol iddo lle nad oes galw am y gwasanaeth. Ystyriodd y sefydliad felly na fyddai safonau 119, 120, 121, 122 a 124 yn rhesymol a chymesur, er cydnabuwyd y byddai o bosib yn medru cydymffurfio â rhai agweddau o safon 123.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 22% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.¹⁶⁸

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion, ac y darperir hyfforddiant yn y meysydd a bennir yn safon 126 drwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Ategwyd at hyn drwy nodi nad oedd unrhyw alw wedi bod am y mathau o hyfforddiant a nodir yn safonau 127, 128 a 129.

O ran safon 129, nododd y sefydliad ei fod eisoes wedi ymrwymo o dan ei gynllun iaith i sicrhau bod unrhyw aelod o staff sydd yn dymuno dysgu Cymraeg ac sydd yn gweithio gyda'r cyhoedd yn cael cefnogaeth i wneud hynny o fewn cwpas ei rôl ac amcanion y sefydliad.

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn codi ymwybyddiaeth staff o'i gynllun iaith Gymraeg fel rhan o'r broses ymsefydlu.

¹⁶⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁶⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁶⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁶⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.¹⁶⁹

Cadarnhawyd y byddai sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hychwanegu at unrhyw swydd ddisgrifiadau ble bo'n briodol, er nad oedd hyn wedi bod yn angenrheidiol hyd yma. Er hynny, nododd y byddai'n ceisio cwrdd â chymaint o anghenion ieithyddol ymgeiswyr a phosibl mewn perthynas ag unrhyw swyddi a leolir yng Nghymru. Dylid nodi y byddai'r sefydliad hefyd yn cadw'r hawl i asesu cymhwysedd iaith Saesneg cyfwelai mewn achosion o'r fath.

Ystyriwyd y byddai rhai agweddau o safonau 135-138 yn afresymol ac yn anghymesur ar gyfer corff a oedd yn gweithredu ledled y DU.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.¹⁷⁰

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd yr arwyddion sy'n cael eu harddangos yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.¹⁷¹

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

Yn gyffredinol, nododd y sefydliad fod l lawer o elfennau o'r safonau gweithredu yn afresymol ac yn anghymesur ar gyfer sefydliad sy'n gweithredu ledled y DU gyda'i unig swyddfa yn Llundain, ac oedd heb aelodau staff a oedd yn siarad Cymraeg.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Ystyriodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

¹⁶⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁷⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁷¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 46% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cadw cofnodion.¹⁷²

Ar y cyfan, nid oedd Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn ystyried y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd o'r farn bod gofynion safonau 145 a 146 yn rhesymol a chymesur, gan nad oedd ganddo unrhyw aelodau o staff a oedd yn siarad Cymraeg nac ychwaith bresenoldeb yng Nghymru. Cydnabuwyd y byddai angen datblygu gweithdrefnau mwy ffurfiol er mwyn cydymffurfio â safon 147.

Yn yr un modd, mynegwyd pryder ynglŷn â gallu'r sefydliad i gydymffurfio a safonau 150, 152 a 154, a hynny oherwydd natur y systemau mewnol y defnyddir ganddo.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Cadarnhaodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 178-179. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai'n ystyried gwneud y dogfennau dan sylw ar gael ar ei wefan, ac y byddai'n bosib darparu copïau caled ar gais.

Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny'n unol â'i sylwadau mewn perthynas â'r safonau cadw cofnodion.

¹⁷² Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cyngor Gofal Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.¹⁷³

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â gohebiaeth yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.¹⁷⁴

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â galwadau ffôn at gorff a chan gorff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.¹⁷⁵

Wrth ystyried gofynion y safonau ynghylch y gweithgaredd hwn, nododd y sefydliad nad oedd yn cynnig i fynychwyr yr opsiwn o ddefnyddio'r Gymraeg fel mater o arfer gan nad oedd holl staff ac aelodau'r Cyngor yn siarad Cymraeg. Ychwanegwyd hefyd na fyddai'n bosib cynnig cyfieithu olynol gan nad oedd y gwasanaeth yma wedi ei gynnwys yn nhrefniadau cytundebol y sefydliad â'i gyflenwyr. Aethpwyd ymlaen i nodi fod y sefydliad wedi cytuno i ddefnyddio fframwaith gwasanaethau cyfieithu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac nid oedd y fframwaith hynny'n cynnwys gwasanaethau cyfieithu olynol. Nid oedd y sefydliad yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

¹⁷³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁷⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁷⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.¹⁷⁶

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.¹⁷⁷

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.¹⁷⁸

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

¹⁷⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁷⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁷⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.¹⁷⁹

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â arddangos deunydd yn gyhoeddus yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.¹⁸⁰

Wrth ystyried gofynion y safonau o dan sylw, nododd y sefydliad ei fod yn cyhoeddi'r mwyafrif helaeth o'i ddogfennaeth yn ddwyieithog. Er hynny, ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nid oedd yn medru dyroddi adroddiadau ar gyfer ei gyfarfodydd bwrdd cyhoeddus yn Gymraeg. Ychwanegwyd bod yr amserlen ar gyfer cynhyrchu papurau ar gyfer y cyfarfodydd yma yn golygu bod cofnodion ac agendaau yn cael eu darparu yn Gymraeg, ond nid ar yr un pryd a ddarperir y fersiynau Saesneg.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.¹⁸¹

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chorff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.¹⁸²

¹⁷⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.¹⁸³

Cadarnhaodd Cyngor Gofal Cymru fod yr holl arwyddion a gyhoeddir ganddo yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf. Er hynny, ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn bosib sicrhau y byddai arwyddion a gynhyrchwyd gan drydydd partion (megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) yn cydymffurfio â'r gofynion.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.¹⁸⁴

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹⁸⁵

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chorff yn gwneud hysbysiadau swyddogol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

¹⁸³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.¹⁸⁶

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chorff yn dyfarnu ar geisiadau am grant yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.¹⁸⁷

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chorff yn dyfarnu ar dendrau am gontract yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.¹⁸⁸

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

¹⁸⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.¹⁸⁹

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol corff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.¹⁹⁰

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chysiau a ddarperir gan gorff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Cyngor Gofal Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.¹⁹¹

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd Cyngor Gofal Cymru fod yr holl wybodaeth ynglŷn â'i safonau cyflenwi gwasanaethau a'i weithdrefnau cwynion ar gael yn Gymraeg. Cadarnhawyd na fyddai gwneud cwyn yn Gymraeg yn arwain at oedi, a bod y sefydliad yn medru adrodd yn erbyn y safonau arfaethedig yn Gymraeg. Fodd bynnag, ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol dan sylw yn rhesymol a chymesur.

Mynegodd y sefydliad na fyddai'n medru cydymffurfio yn llawn â'r gofynion adrodd oherwydd na fyddai'n bosibl darparu ystadegau manwl ynghylch y nifer o bobl a oedd wedi gwneud galwadau Cymraeg at rifau uniongyrchol, nac ychwaith y nifer o bobl oedd am siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd.

¹⁸⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safon ynghylch llunio polisi.¹⁹²

Cadarnhaodd Cyngor Gofal Cymru fod polisiâu newydd eisoes yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar y Gymraeg fel rhan o asesiadau ar effaith o gydraddoldeb. Ystyriodd y sefydliad y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, gan nodi y byddai modd addasu arfer cyfredol i ateb gofynion y safonau lle bo'n briodol.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Ystyriodd Cyngor Gofal Cymru y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud a materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.¹⁹³

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, a bod y polisi hwnnw wedi'i gyhoeddi ar y fewnwyd. Ategwyd at hyn gan nodi bod y sefydliad wedi datblygu canllawiau mewnol yn seiliedig ar egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' a amlinellir yn strategaeth 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn darparu'r holl ddogfennau a nodir yn safonau 97-102, a bod y mwyafrif o'r dogfennau hynny ar gael yn Gymraeg. O ran cofnodi gwyliau blynyddol ac absenoldebau o'r gwaith, nododd y sefydliad ei fod yn defnyddio meddalwedd a gyflenwir gan drydydd parti nad oedd ar gael yn Gymraeg. Cadarnhawyd y darperir yr holl bolisiâu adnoddau dynol a nodir yn safonau 103-109 yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.¹⁹⁴

Cadarnhaodd y sefydliad y bydd yn hysbysu staff eu bod yn medru gwneud neu ymateb i gwynion yn Gymraeg, er nad oedd yn gwneud hynny pan gyflwynwyd y dystiolaeth. Nododd y sefydliad na fyddai'n bosibl cydymffurfio yn llwyr gyda safonau 111-113 gan nad oedd holl reolwyr y sefydliad yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai'n bosibl darparu gwasanaethau cyfieithu er mwyn hwyluso cyfarfodydd ble roedd aelod o staff yn dymuno i broses disgyblaethol gael ei gynnal yn Gymraeg.

¹⁹² Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁹³ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.¹⁹⁵

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 114-117, nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn drwy broses ddisgyblu fewnol. Nododd y sefydliad na fyddai'n medru cydymffurfio â'r holl safonau dan sylw gan nad oedd pob rheolwr neu aelod o'r tîm adnoddau dynol yn siarad Cymraeg. Dylid nodi fod y sefydliad wedi datgan y byddai'n bosibl iddo gydymffurfio trwy gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a thrwy gyfieithu gwybodaeth ysgrifenedig mewn perthynas â gwrandawriad disgyblaeth.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.¹⁹⁶

Cadarnhaodd Cyngor Gofal Cymru y byddai'n medru cydymffurfio â'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd. Ychwanegwyd fod y sefydliad eisoes yn gweithredu mewn rwyd ddwyieithog.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.¹⁹⁷

Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion, a bod pob aelod o staff yn cael y cyfle i gael gwersi Cymraeg yn ystod oriau gwaith yn ogystal â hyfforddiant pellach wedi i staff gwblhau un gyfres o wersi. Nododd y sefydliad ei fod yn darparu'r mathau o hyfforddiant a restrir yn safon 126 yn unig, er y byddai'n medru darparu hyfforddiant yn unol â safon 127 yn y dyfodol. Cadarnhaodd y byddai'n bosibl darparu hyfforddiant penodol i reolwyr ar gais, a'i fod eisoes yn darparu hyfforddiant yn unol â safonau 130 a 131 ac eithrio safon 130(a). Cadarnhawyd bod y sefydliad eisoes yn cydymffurfio â gofynion safonau 132 a 133.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.¹⁹⁸

Nododd y sefydliad bod rhaid i reolwyr ateb cwestiwn penodol ynglŷn â gofynion iaith Gymraeg bob swydd newydd (boed yn swydd allanol neu fewnol) wrth iddynt baratoi'r achos busnes perthnasol. Gwnaethpwyd hyn mewn ymgynghoriad gyda'r tîm adnoddau dynol, sydd yn cadw cofnod o sgiliau iaith staff y sefydliad. Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn darparu'r dogfennau a restrir yn safon 135A yn Gymraeg. Er hynny, nid oedd y sefydliad yn datgan bod croeso i unigolion wneud cais am swydd yn Gymraeg ac na fyddai

¹⁹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

¹⁹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

cais yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais yn Saesneg. Ategwyd at hynny gan nodi nad oedd ffurflenni cais yn rhoi lle i'r ymgeisydd nodi y byddai'n hoffi cael cyfweliad neu asesiad yn Gymraeg. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai cyfweliad neu asesiad yn cael ei gynnal yn Gymraeg, a hynny drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Nododd y sefydliad hefyd y byddai ymgeisydd a oedd wedi gwneud cais am swydd yn Gymraeg yn cael gwybod am y penderfyniad terfynol yn Gymraeg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.¹⁹⁹

Roedd y sefydliad eisoes yn cydymffurfio â gofynion safonau 139-141.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.²⁰⁰

Nid oedd y sefydliad yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn y gweithle.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd Cyngor Gofal Cymru nad oedd yn gweithredu unrhyw un o'r safonau dan sylw, ac eithrio safon 171 mewn perthynas â'i weithdrefn gwynion. Fodd bynnag, cadarnhaodd na fyddai unrhyw rwystrau iddo fedru cydymffurfio â'r safonau, o'u gwneud yn benodol gymwys.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Wrth ystyried gofynion y safonau arfaethedig, darparwyd gwybodaeth ynglŷn â'r cylch gwaith a roddwyd iddo gan Lywodraeth Cymru o ran hybu defnydd o'r Gymraeg ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ac o ran pwysleisio sensitifrwydd iaith o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Yn yr un modd, nododd Cyngor Gofal Cymru ei fod yn chwarae rôl arweiniol o ran gweithredu strategaeth 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cadw cofnodion.²⁰¹

Cadarnhaodd Cyngor Gofal Cymru y byddai angen sefydlu rhai gweithdrefnau cofnodi a monitro er mwyn casglu peth o'r wybodaeth newydd a fydd yn angenrheidiol o dan y weithdrefn safonau, y tu hwnt i'r gofynion cyfredol o dan gynllun iaith y sefydliad. Er bod y sefydliad wedi nodi ei fod yn cadw cofnodion addas ar gyfer cydymffurfio â rhai o'r safonau, cydnabuwyd na fyddai'n bosibl cydymffurfio â phob un yn llawn. Eglurwyd na

¹⁹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁰⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁰¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

fyddai'n bosibl i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth fanwl am unigolion a oedd yn dymuno gwasanaethau yn y Gymraeg y tu hwnt i'r rheiny a gofnodwyd ar ei fas data canolog, a hefyd na fyddai'n bosibl darparu gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r nifer o alwadau a wnaethpwyd i rifau uniongyrchol yn Gymraeg. Ystyriodd y sefydliad na fyddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Roedd Cyngor Gofal Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.²⁰²

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r gofynion ynghlwm â safonau 1-7. Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod bellach yn gallu cofnodi dewis iaith y personau hynny sy'n cysylltu â'r Comisiynydd. Er hynny, nid oedd ganddo gronfa ddata ar gyfer ymholiadau cyffredinol fyddai'n ei alluogi i gofnodi pob galwad a phob gohebiaeth ar hyn o bryd.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â gohebiaeth yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 73% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.²⁰³

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod ganddo dderbynfa gwbl ddwyieithog sy'n golygu y gellir ymdrin â phob galwad yn Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn gofyn i alwyr a hoffent barhau â'u galwad yn Gymraeg neu'n Saesneg, a bod pob un o'u gweithwyr achos yn ddwyieithog.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â galwadau ffôn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.²⁰⁴

²⁰² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁰³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁰⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safonau 23-29, nodwyd bod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bennaf, a hynny ar gyfer unigolion sy'n ei chael hi'n anodd cysylltu dros y ffôn. Cadarnhawyd bod y gwasanaeth hwnnw ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg, a chaiff ei gynnig mewn modd rhagweithiol. Pe byddai person(au) yn nodi ei fod yn dymuno cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, gellid cynnal y cyfarfod hwnnw'n Gymraeg neu ddarparu cyfieithu ar y pryd.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.²⁰⁵

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.²⁰⁶

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gofyn i wahoddedigion ei hysbysu ymlaen llaw os ydynt yn dymuno siarad Cymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiad yn ddwyieithog, gyda rhestr wirio i'w ddilyn wrth gynllunio a chynnal digwyddiadau a drefnir.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

²⁰⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁰⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.²⁰⁷

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn llwyr ymrwymedig i fod yn sefydliad dwyieithog, ac fe adlewyrchir hynny ymhob agwedd o'i hunaniaeth gorfforaethol.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a hysbysebu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.²⁰⁸

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod unrhyw stondin arddangos, ynghyd â'r deunydd mewn arddangosfeydd a chynadleddau'n ddwyieithog.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas ag arddangos deunydd yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.²⁰⁹

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod unrhyw ddeunydd y bwriedir i'r cyhoedd yng Nghymru ei ddefnyddio yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog. Ategwyd at hynny gan nodi bod dogfennau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog fel rheol, ond y cynhyrchir fersiynau ar wahân mewn sefyllfaoedd eithriadol.

Er hynny, nodwyd nad oedd rhai datganiadau i'r wasg a wneir yn adweithiol yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod rhai dogfennau mewnol ar gael yn eu hiaith wreiddiol yn unig.

²⁰⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁰⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁰⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi dogfennau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.²¹⁰

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y gellir cwblhau pob ffurflen ac arolwg sy'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ategwyd at hynny gan nodi y bydd ffurflenni Saesneg yn datgan bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg o hyn ymlaen.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.²¹¹

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod gwefan y sefydliad yn gwbl ddwyieithog, a cheir safleoedd Cymraeg a Saesneg sy'n gwbl gyfatebol. Aethpwyd ymlaen i nodi nad ydynt yn cyhoeddi apiau ar hyn o bryd.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â gwefannau a gwasanaethau ar-lein yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.²¹²

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod unrhyw arwyddion sy'n cael eu harddangos yn rai sydd wedi eu hargraffu ganddo, ac y cant eu harddangos'n ddwyieithog.

²¹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.²¹³

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn darparu gwasanaeth derbynfa cwbl ddwyieithog a'i fod yn darparu'r bathodyn 'Cymraeg' i ddynodi hynny. Cydnabuwyd nad yw'n nodi ymwelwyr sy'n siaradwyr Cymraeg ymlaen llaw ar hyn o bryd, ond y byddai'n mynd ati i wneud hynny cyn apwyntiad o hyn ymlaen, gan hysbysu'r staff yn y dderbynfa.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â derbyn ymwelwyr i adeiladau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol

Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.²¹⁴

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safonau 67-68, nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod pob hysbysiad swyddogol yn cael ei gyhoeddi ar ei gwefan corfforaethol yn ddwyieithog.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â hysbysiadau swyddogol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant

Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.²¹⁵

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

²¹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.²¹⁶

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn hysbysebu manylebau pob tendr dros £15000 yn ddwyieithog. Ategwyd at hynny gan nodi bod asesiad iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cyfweiliad tendro mewn achosion ble bo'r iaith yn rhan o fanyleb y gwasanaeth.

Nodwyd y byddai angen i'r tendr fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg i'r panel asesu, a hynny gan ystyried natur presennol y staff.

Nid oedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â dyfarnu ar dendrau am gontract yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod dogfennau tendro'n dueddol o fod yn ddogfennau hir. Ategwyd at hynny gan nodi y gallai'r costau fod yn anghymesur i werth y contract ac anghenion gwasanaeth y sefydliad.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.²¹⁷

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod ei holl wasanaethau yn cael eu cynnig a'u hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg, a hynny drwy ei wefan a thafleini y cynhyrchir.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

²¹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.²¹⁸

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn llwyr ymrwymedig i fod yn sefydliad dwyieithog, ac fe adlewyrchir hynny ymhob agwedd o'u hunaniaeth gorfforaethol.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.²¹⁹

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod erbyn hyn yn cynnig hyfforddiant ar wahaniaethu ar sail oedran yn unig, ond nad yw'r aelod o staff sy'n darparu'r hyfforddiant hwnnw yn siarad Cymraeg. O'r herwydd, drwy gyfrwng y Saesneg y cynhelir yr hyfforddiant. Er hynny, cadarnhawyd bod y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r hyfforddiant ar gael yn Gymraeg.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.²²⁰

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Wrth ymateb i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaeth, cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn cofnodi dewis iaith unigolion pan fyddant yn cysylltu â'r tîm gwaith achos. Nodwyd nad yw ar hyn o bryd yn gwahaniaethu rhwng cyfarfodydd, galwadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig. Yn yr un modd, nid yw'r system ffôn ar hyn o bryd yn cynnig opsiwn i barhau â galwad yn Gymraeg neu Saesneg; yn hytrach gweithredir gwasanaeth derbynfa gwbl ddwyieithog.

Nid oedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd yr angen am fuddsoddiad sylweddol mewn system ffôn a chronfa ddata newydd er mwyn cydymffurfio â'r holl ofynion.

²¹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²²⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.²²¹

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â safonau llunio polisi, a hynny am fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn nad oedd yn llunio polisiâu fel sefydliad. Er hynny, nodwyd bod polisiâu mewnol mewn perthynas ag adnoddau dynol ac arferion llywodraethu yn cael eu gwneud. Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod o'r farn mai polisiâu mewn cysylltiad â'r safonau gweithredu fyddai'r rhain.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â safonau llunio polisi, a hynny am fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn nad oedd yn llunio polisiâu.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 7% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.²²²

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. Er hynny, nid oedd yn gweld rhwystr mewn gweithredu polisi o'r fath yn y dyfodol.

Nid oedd y Comisiynydd o'r farn y byddai'n gallu cydymffurfio'n llawn â safon 96 am nad oedd ganddo safle mewnwyd dwyieithog ar hyn o bryd. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai'r gost o adeiladu mewnwyd newydd yn ormodol gan ystyried prinder adnoddau mewnol arbenigol er mwyn ymgymryd â'r gwaith. O'r herwydd, roedd o'r farn y byddai dulliau a ffurfiau eraill o gyfathrebu mewnol yn fwy rhesymol.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 97-109, ni ragwelwyd problemau mewn cydymffurfio'n gyffredinol. Er hynny, nodwyd y byddai angen darparu'r ohebiaeth, y polisiâu a'r ffurflenni'n ddwyieithog gan nad yw'r holl staff cymorth Adnoddau Dynol, ynghyd â rheolwyr llinell yn siaradwyr Cymraeg. I'r un perwyl, ceir problemau â gwasanaeth Pensiwn MYSCP, sydd yn darparu gwybodaeth am bensiynau, fel mantolenni, yn Saesneg yn unig.

²²¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²²² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 40% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.²²³

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y byddai'n gallu cydymffurfio â safonau 110-113. Er hynny, cadarnhawyd y byddai angen diwygio polisiau presennol er mwyn gwneud hynny, ac y byddai defnydd o gyfieithu ar y pryd yn debygol gan nad yw'r holl swyddogion o fewn Adnoddau Dynol, nac ychwaith rheolwyr llinell i gyd yn siaradwyr Cymraeg.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 40% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.²²⁴

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y byddai'n gallu cydymffurfio â safonau 114-117. Er hynny, cadarnhawyd y byddai angen diwygio polisiau presennol er mwyn gwneud hynny, ac y byddai defnydd o gyfieithu ar y pryd yn debygol gan nad yw'r holl swyddogion o fewn Adnoddau Dynol, nac ychwaith rheolwyr llinell i gyd yn siaradwyr Cymraeg.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.²²⁵

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod eisoes yn cydymffurfio â safon 118. Er hynny, nodwyd bod cyfyngiadau mewn adnoddau yn amharu ar ei allu i gydymffurfio â'r gofynion ynghlwm â safonau 119-124. Ategwyd at hynny gan nodi bod gan y Comisiynydd fewnwyd syml iawn, a grëwyd flynyddoedd yn ôl drwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Ni lwyddwyd i gael ategyn Sharepoint 2010 yn y Gymraeg i weithio ar y safle presennol. O'r herwydd, byddai'n rhaid i'r Comisiynydd fuddsoddi mewn system fewnwyd newydd er mwyn cydymffurfio.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.²²⁶

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogaion.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safonau 126-127, nodwyd nad oedd yn darparu hyfforddiant yn y meysydd hynny. Yn yr un modd, cadarnhawyd nad oes hyfforddiant i

²²³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²²⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²²⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²²⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

gyflogeion ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr ar hyn o bryd. Er hynny, cadarnhawyd bod cyfleoedd ar gael i'w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ynghyd â hyfforddiant mewn perthynas â'r meysydd yr amlinellir yn safonau 130-131.

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r gofynion ynghlwm â safonau 132-133, a hynny oherwydd ei fod yn arferion cyfredol ganddo.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.²²⁷

Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn cynnal adolygiad mewn perthynas â phob swydd newydd neu wag yr hysbyseb. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn ystyried cydbwysedd sgiliau Cymraeg ar draws y sefydliad ac nid ar gyfer y rôl yn unig. Cadarnhawyd ei fod bellach yn ymdrechu i fod yn fwy penodol mewn swydd ddisgrifiadau ynghylch pa sgiliau sy'n ofynnol e.e. cynnal cyfweiliadau â'r cyfryngau yn Gymraeg.

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn cydymffurfio â gofynion holl agweddau eraill safonau 134-138, ag eithrio'r angen i ofyn a fyddai ymgeisydd yn hoffi cynnal cyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.²²⁸

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei fod yn arddangos arwyddion yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, ond nad oedd y Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.²²⁹

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd cyhoeddiadau sain yn cael eu gwneud o fewn y gweithle ar hyn o bryd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Wrth ymateb i'r gofynion, nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y byddai'n gallu cyhoeddi adroddiad blynyddol. Yn yr un modd, nododd y byddai'n hyrwyddo'r gallu i gyflwyno cwyn yn Gymraeg, ynghyd â derbyn gwasanaethau Cymraeg ar y wefan, a phan yn briodol, mewn taflenni a chyhoeddiadau eraill.

²²⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²²⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²²⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Er hynny, nid oedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau gweithredu, ynghyd â'r materion atodol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y rhesymau yr amlinellir yn yr adran hon.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 85% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.²³⁰

Wrth ddarparu gwybodaeth ar y trefniadau corfforaethol sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd, nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru na chedwir copi o asesiadau ar hyn o bryd; yn hytrach caiff y penderfyniad ei adlewyrchu yn y swydd ddisgrifiad terfynol a'r hysbyseb. Yn yr un modd, nodwyd mai galwadau Cymraeg sy'n ymwneud ag ymholiadau a gedwir yn unig ar hyn o bryd.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safonau 152-154, cadarnhawyd ei fod yn cofnodi dewis iaith wrth i unigolion gysylltu â'r tim gwaith achos. Er hynny, nid oedd trefniadau mewn lle er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfarfodydd, galwadau ffôn a gohebiaeth.

Nid oedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd yr angen am fuddsoddiad sylweddol mewn system ffôn a chronfa ddata newydd er mwyn cydymffurfio â'r holl ofynion.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn y byddai adroddiad blynyddol yn ddull cymesur i gyflawni'r gofynion ar gyfer cyhoeddi a darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

²³⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Comisiynydd Plant Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.²³¹

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safonau 1-7, cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, ac y byddai pob ateb gan Gomisiynydd Plant Cymru, boed yn ohebiaeth neu gyfathrebu electronig, yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â gohebiaeth yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 87% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.²³²

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru fod ei drefniadau wrth dderbyn galwadau ffôn, ac wrth wneud galwadau at aelodau o'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r safonau. Ategwyd at hynny gan nodi bod trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio â galwadau pan nad yw'r swyddog ar y dderbynfa yn bresennol.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â galwadau ffôn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.²³³

²³¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²³² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²³³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru bod ganddo nifer fawr o staff sy'n medru'r Gymraeg. O'r herwydd, neilltuir swyddog priodol ar gyfer cyfarfodydd, a hynny ar sail iaith y person sy'n dymuno cyfarfod. Er hynny, mewn achosion ble nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, cynigir parhau â'r cyfarfod yn Saesneg neu ddelio â'r pwnc trwy ohebiaeth.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Comisiynydd Plant Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.²³⁴

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd. Er hynny, fe nodwyd y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.²³⁵

Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod ei drefniadau cyfredol ar gyfer cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Cadarnhawyd y croesewir cyfraniadau yn Gymraeg a/neu yn Saesneg, ac y darperir cyfleusterau cyfieithu ar gyfer rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.²³⁶

²³⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

²³⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog. Golyga hynny bod yr holl waith cysylltiadau allanol, gan gynnwys cyhoeddi a marchnata yn rhoi sylw i ofynion ei gynllun iaith Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod unrhyw ddatganiad rhagweithiol i'r wasg yn ddwyieithog. Er hynny, nodwyd bod datganiadau adweithiol yn cael eu cyflwyno y newis iaith y corff cyfryngau fydd yn eu derbyn.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chyhoedduswydd a hysbysebu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.²³⁷

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod holl arddangosfeydd clywedol, ynghyd â stondinau a ddefnyddir mewn digwyddiadau yn ddwyieithog. O'r herwydd, roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas ag arddangos deunydd yn gyhoeddus yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.²³⁸

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru bod pob dogfen a gynhyrchir sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys adroddiadau a newyddlenni.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi dogfennau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.²³⁹

²³⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²³⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²³⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²³⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru bod pob ffurflen ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a'i fod yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.²⁴⁰

Nododd Comisiynydd Plant Cymru bod pob tudalen ar ei holl wefannau yn ddwyieithog, ac y caiff unrhyw dudalen ei ddiweddarau a'i lwytho ar yr un pryd. Er hynny, mewn achosion ble nad oes fersiwn Gymraeg ar gael o gyhoeddiad na chafodd ei gynhyrchu gan y Comisiynydd, bydd ymwadiad wedi ei gynnwys yn egluro nad oes fersiwn Gymraeg ar gael.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â gwefannau a gwasanaethau ar-lein yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.²⁴¹

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Derbynn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.²⁴²

Nodod Comisiynydd Plant Cymru y derbynnir ymwelwyr yn ddirybudd i'r adeilad gan ei swyddogion gweinyddol; swyddi yr aseswyd fel rhai sy'n hanfodol ddwyieithog. Ategwyd at hynny gan nodi bod ymwelwyr disgwylidig yn cael cynnig dewis iaith cyn yr ymweliad.

²⁴⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â derbyn ymwelwyr yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swydddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swydddogol [67-68]**

Nododd Comisiynydd Plant Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.²⁴³

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Plant Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd. Er hynny, fe nodwyd y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Comisiynydd Plant nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.²⁴⁴

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Plant Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd. Er hynny, fe nodwyd y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.²⁴⁵

Nododd Comisiynydd Plant Cymru y cyhoeddir hysbysebion am gyfleoedd tendro yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â dyfarnu ar dendrau am gontract yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

²⁴³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.²⁴⁶

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru y cynigir gwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.²⁴⁷

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog. Golyga hynny bod yr holl ddeunydd corfforaethol yn rhoi sylw i ofynion ei gynllun iaith Gymraeg.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Comisiynydd Plant Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.²⁴⁸

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Plant Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

²⁴⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁴⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Comisiynydd Plant nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.²⁴⁹

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Comisiynydd Plant Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd. Er hynny, fe nodwyd y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Wrth ymateb i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaeth, cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru bod ganddo bolisi cwynion sydd ar gael yn ddwyieithog ar ei wefan, ynghyd â chopïau caled yn ei swyddfeydd.

Nid oedd Comisiynydd Plant Cymru yn rhagweld unrhyw anhawster mewn cydymffurfio â gofynion safon 158-163, ac ystyriwyd y byddai gwneud y safonau atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.²⁵⁰

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru bod asesiad effaith yn cael ei gynnal ar bob achlysur y caiff polisi neu brosiect mewnol neu allanol ei ddatblygu. Nodwyd bod yr asesiad effaith hwnnw'n cynnwys categori ar gyfer effaith y polisi ar yr iaith Gymraeg.

Ymhellach i hynny, cadarnhawyd bod grwpiau bychain o fewn y sefydliad yn ymgymryd ag asesiadau o'r math hwn, ac yn cyfrannu eu barn i'r broses asesu.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Wrth ymateb i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi, cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd yn mynd i'r afael â'r materion perthnasol.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

²⁴⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁵⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 79% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.²⁵¹

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 96-109, roedd Comisiynydd Plant Cymru o'r farn y byddai modd cydymffurfio â nifer helaeth o'r gofynion, er bod hynny i raddau amrywiol ar hyn o bryd. Nodwyd mai ar gais yn unig y mae dogfennau cyflogaeth yn cael eu darparu'n Gymraeg fel mater o drefn. Er hynny, cadarnhawyd ei fod wrthi'n gweithio tuag at wella'r hyn a gynigir i gyflogeion yn sylweddol.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.²⁵²

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn rhoi gwybod i aelod o staff am unrhyw benderfyniad yn Gymraeg ar gais, neu pe byddai'r aelod o staff wedi cychwyn y broses gyda chais am ei gyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar sail ei drefniadau staffio presennol, roedd o'r farn mai cydymffurfio'n rhannol y gellir ei wneud, ond y byddai'n ymgeisio i wella'r ddarpariaeth drwy wasanaethau cyfieithu.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.²⁵³

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn rhoi gwybod i aelod o staff am unrhyw benderfyniad yn Gymraeg ar gais, neu pe byddai'r aelod o staff wedi cychwyn y broses gyda chais am ei gyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar sail ei drefniadau staffio presennol, roedd o'r farn mai cydymffurfio'n rhannol y gellir ei wneud, ond y byddai'n ymgeisio i wella'r ddarpariaeth drwy wasanaethau cyfieithu.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.²⁵⁴

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safon 118-124, cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg i gyflogeion a gweithwyr. Er hynny, nid oedd yn gweithredu system fewnwyd yn Gymraeg ar hyn o bryd, nac ychwaith yn darparu rhyngwynebau Gymraeg.

²⁵¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁵² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁵³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁵⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.²⁵⁵

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion. Er hynny, nid oedd yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd yr amlinellir yn safon 126. Ategwyd at hynny gan nodi bod hyfforddiant ehangach yn yr iaith Gymraeg yn cael ei ddarparu neu ei gytuno ar gais gan weithwyr unigol a rheolwyr llinell.

Nodwyd bod y sefydliad yn cynnig pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, a bod ei raglen sefydlu yn cynnwys cyflwyniad i bolisiâu gweithredu, sy'n amlinellu ymrwymiad y sefydliad i ddarparu dewis iaith.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.

Nododd Comisiynydd Plant Cymru bod polisi sgiliau iaith wedi ei ddatblygu ganddo, a bod asesiad o'r anghenion iaith yn cael ei wneud bob tro y bydd swydd yn agor ar gyfer recriwtio. Cadarnhawyd bod yr holl ddogfennau recriwtio ar gael yn Gymraeg, a bod datganiad wedi'i gynnwys yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg. Wrth gynnal cyfweiliadau, nodwyd nad oedd modd iddo gynnal cyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg, a hynny ar sail ei drefniadau staffio presennol. Er hynny, byddai gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu yn dilyn cais gan ymgeisydd.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.²⁵⁶

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn arddangos arwyddion yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, a bod y Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.²⁵⁷

Cadarnhaodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru nad oedd cyhoeddiadau sain yn cael eu gwneud o fewn y gweithle ar hyn o bryd.

²⁵⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁵⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁵⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau gweithredu, ynghyd â'r materion atodol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.²⁵⁸

Nododd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn bwriadu adolygu'r cynllun iaith Gymraeg a'r Cynllun Cydraddoldeb er mwyn sicrhau cynnydd a chydymffurfiaeth â'r gofynion ynghlwm yn y rheoliadau. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion ar hyn o bryd, gan nad oedd nifer ohonynt yn arfer cyfredol o fewn y sefydliad.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Cadarnhaodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn cyhoeddi dogfennau perthnasol yn ddwyieithog ar ei gwefan fel mater o drefn. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

²⁵⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.²⁵⁹

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm, nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhagweld unrhyw anawsterau wrth gydymffurfio â mwyafrif helaeth o'r safonau. Er hynny, nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â gohebiaeth yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai safon 2 yn feichus ac y byddai'n cymryd gormod o amser ac adnoddau i sefydliad bychan fel hwy, ac iddo nifer fawr o randdeiliaid.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.²⁶⁰

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru y byddai modd iddo gydymffurfio â nifer o'r safonau mewn perthynas â galwadau ffôn. Er hynny, mynegwyd pryder ynglŷn â rhai safonau o fewn y gweithgaredd, gan dynnu sylw at rai gwasanaethau arbenigol na ellir eu darparu yn Gymraeg.

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau mewn perthynas â galwadau ffôn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd yr anawsterau y byddai sefydliad bychan yn ei hwynebu o ran gofynion cadw cofnodion.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.²⁶¹

²⁵⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁶⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁶¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bellach mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.²⁶²

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru y byddai modd iddo gydymffurfio â'r holl ofynion, a hynny oherwydd eu bod eisoes yn arferion cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg. Er hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y costau ychwanegol er mwyn bodloni'r safonau ble byddai angen cyfieithu ar y pryd.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.²⁶³

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.²⁶⁴

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a hysbysebu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei fod yn arfer cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg.

²⁶² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁶³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁶⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.²⁶⁵

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas ag arddangos deunydd yn gyhoeddus yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd eu bod yn arferion cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.²⁶⁶

Er bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'r farn bod y mwyafrif o'r gofynion eisoes yn arferion cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg, mynegwyd pryder ynglŷn â safon 41(b), a hynny oherwydd y goblygiadau o ran amser staff ynghyd â chostau cyfieithu. Yn yr un modd, nid oedd yn ystyried y byddai cydymffurfio'n llawn â safon 44 yn rhesymol a chymesur, a hynny gan nodi ei fod yn blaenoriaethu dogfennau i'r cyhoedd, gan gynnwys papurau ymgynghori.

Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi dogfennau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.²⁶⁷

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd eu bod yn arferion cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg.

²⁶⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁶⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁶⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.²⁶⁸

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai unrhyw rwystr mewn cydymffurfio â'r gofynion ynghlwm â safonau 52-57. Er hynny, nodwyd nad oedd yn cyhoeddi apiau ac felly byddai'r safon hwnnw, yn ei dyb ef, yn amherthnasol.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.²⁶⁹

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd eu bod yn arferion cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.²⁷⁰

Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'r farn bod safon 62 a 62A yn or-fiwrocrataidd a beichus. Yn yr un modd, nid oedd yn gallu gwarantu cydymffurfiaeth lawn â safon 63 ar hyn o bryd, a hynny oherwydd nad oedd siaradwr Cymraeg o fewn y tîm gweinyddol ar gael drwy gydol yr amser. O'r herwydd, nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â derbyn ymwelwyr yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

²⁶⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁶⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁷⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.²⁷¹

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhagweld unrhyw anawsterau â safonau 67-68, ac felly fe'u hystyrir yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.²⁷²

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei fod yn arferion cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg. Er hynny, nodwyd nad oedd o'r farn bod rhai safonau (71 a 72) o fewn y gweithgaredd yn berthnasol iddo.

Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am contract Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract [74-78]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract.²⁷³

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bellach mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.²⁷⁴

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r

²⁷¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁷² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁷³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁷⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru rhagweld unrhyw anawsterau mewn cydymffurfio â'r gofynion, ac roedd yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ynghylch ei wasanaethau Cymraeg yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.

Nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gwirio logo newydd y Cyngor Gweithlu Addysg, corff newydd fydd yn disodli'r Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd eu bod yn arferion cyfredol o dan ei gynllun iaith Gymraeg.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau

ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.²⁷⁵

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Er y bu cadarnhad gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru bod modd cydymffurfio â nifer o'r gofynion, mynegwyd pryder ynglŷn â safon 161 gan nodi byddai mesur rhai agweddau ohono yn cynyddu llwyth gwaith mewn modd afresymol. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod

²⁷⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

o'r farn y byddai'r safonau yn yr adran hon yn ddiangen o fiwrocataidd ac yn llethol i sefydliadau llai.

O'r herwydd, nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau mewn perthynas â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.²⁷⁶

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â'r safonau llunio polisi, nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn cynnwys cyfleoedd i gofrestreion gyrchu'r polisïau perthnasol yn Gymraeg, a'i fod yn monitro'r modd o ddarparu ei wasanaethau yn flynyddol. Ategwyd at hynny gan nodi nad yw'n ymgynghori ar unrhyw benderfyniadau polisi, nac ychwaith yn casglu barn ar oblygiadau polisi ar hyn o bryd.

Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm, cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru y byddai modd iddo gydymffurfio â nifer o'r safonau atodol dan sylw. Er hynny, mynegwyd pryder ganddo ynglŷn â safon 166 gan nodi ei fod yn ymddangos yn ddiangen o feichus. Ategwyd at hynny gan gwestiynu pa mor ddefnyddiol byddai trefnu bod prosesau monitro ar gael i'r cyhoedd.

Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau mewn perthynas â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.²⁷⁷

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Yn yr un modd, cadarnhawyd nad oedd yn darparu'r holl ddogfennau y nodir yn safonau 97-102 ar hyn o bryd. Er hynny, roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'r farn y byddai modd cydymffurfio â'r gofynion, ond y byddai hynny'n ychwanegu at gostau cyfieithu.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 103-109, nodwyd y byddai cyfieithu polisïau personél mewnol yn cael effaith sylweddol ar gostau.

²⁷⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁷⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.²⁷⁸

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru y gallai gydymffurfio â'r gofynion mewn egwyddor. Er hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag ymarferoldeb rhai o'r gofynion, gan nodi costau cyfieithu, sgiliau iaith y staff presennol ynghyd â materion cyfrinachedd.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.²⁷⁹

Wrth ymateb i'r gofynion, er bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cydnabod y gellir gydymffurfio, mynegwyd pryder ynglŷn â chost y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Yn ategol i hynny, pe caiff penderfyniadau ysgrifenedig eu cyfieithu yn fewnol, byddai rhaid iddynt ystyried materion cyfrinachedd.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.²⁸⁰

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried mwyafrif y gofynion yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd diffyg cyllid ac adnoddau i gyfieithu a chynnal fersiynau cyfoes o bolisiau, ynghyd â chynnal mewnwyd ddwyieithog. Er hynny, nodwyd y byddai modd iddo gynnal tudalen sy'n codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddiant.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 44% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.²⁸¹

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogaion. Ategwyd at hynny gan nodi nad oedd yn darparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg mewn unrhyw faes yr amlinellir yn safon 126. Er hynny, nodwyd bod hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i ddysgwyr, ynghyd â hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff o'r Gymraeg.

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn gweld unrhyw rwystr mewn gydymffurfio â gofynion safonau 132-133.

²⁷⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁷⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁸⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁸¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.²⁸²

Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn cynnal asesiad o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg, gyda'r penderfyniad yn cael ei wneud rhwng rheolwyr llinell a'r tim adnoddau dynol. Ategwyd at hynny gan nodi bod ffurflenni cais a swydd ddisgrifiadau ar gael yn Gymraeg. Er hynny, nid oedd cyfle i ymgeiswyr gael cyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.²⁸³

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd arwyddion yn cael eu harddangos yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.²⁸⁴

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd cyhoeddiadau a negeseuon sain yn cael eu gwneud yng ngweithle'r sefydliad. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Er hynny, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r fewnwyd ynghyd â'r angen i gyhoeddi dogfennau mewnol. Nodwyd y byddai angen llawer o adnoddau, yn ogystal â chostau cyfieithu ychwanegol er mwyn gallu cydymffurfio. Yn yr un modd, nodwyd bod ei gyllideb ar gyfer hyfforddiant wedi'i thorri'n gyfan gwbl, ond pe byddai'r sefyllfa hwnnw'n newid y gellir cydymffurfio.

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er hynny, derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r materion atodol dan sylw.

²⁸² Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁸³ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁸⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 46% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.²⁸⁵

Wrth ddarparu gwybodaeth ar y trefniadau corfforaethol sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd, nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn tynnu ar ddata a gwybodaeth ar draws yr holl sefydliad wrth fonitro gweithrediad ei gynllun iaith Gymraeg.

Cadarnhawyd bod y trefniadau presennol wedi gwyro i ffwrdd o fesur y galw, gyda'r ffocws bellach ar farn defnyddwyr o ansawdd ei ddarpariaeth. I'r perwyl hynny, cadarnhawyd na fyddai modd cydymffurfio â nifer o'r gofynion, gyda goblygiadau ariannol sylweddol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Nodwyd fod arolwg o sgiliau ieithyddol y staff yn cael ei gofnodi gan y tim adnoddau dynol. Ategwyd at hynny gan nodi bod cofnodion mewn perthynas â chwynion ac hyfforddiant yn cael eu cadw'n ganolog.

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nid oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhagweld unrhyw rwystrau mewn cydymffurfio â gofynion y materion atodol dan sylw, ac fe'u hystyrir yn rhesymol a chymesur.

²⁸⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.²⁸⁶

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru bod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau yn arfer cyfredol, a hynny'n unol â'i gynllun iaith Gymraeg. Er hynny, mynegwyd pryder ganddo ynglŷn â nifer o'r safonau, gan nodi y byddai eu gweithredu yn arwain at ragor o gostau gweinyddol.

Gan dynnu sylw at gylchlythyrau a gynhyrchir ganddo, nodwyd bod y mwyafrif o'r rheiny wedi eu cyfeirio at brifysgolion, yn ogystal a sefydliadau addysg eraill. Yn yr un modd, gohebir â'r sefydliadau hynny mewn perthynas â risg, cyflwr ariannol a llywodraethiant. Roedd o'r farn y byddai gorfod sicrhau gohebiaeth cyffelyb i'r uchod yn ddwyieithog, a hynny at gynulleidfa fechan iawn, yn faich anghymesur. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai gwneud hynny'n cael effaith andwyol ar gyflymder ei ymwneud â'r gynulleidfa darged, ac ar ei adnoddau gostyngol.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 53% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.²⁸⁷

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn cynnig gwasanaeth canolfan alwadau neu linell gymorth, ond bod ganddo un prif rif ar gyfer galwyr allanol. Er hynny, nid oes gweithiwr switsfwrdd llawn amser ganddo. Yn hytrach, mae aelodau o dim penodol yn goruchwyllo'r switsfwrdd.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Ymhlith y rhesymau dros hynny oedd gallu'r staff i ddelio ag ymholiadau'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg ymhob maes gwaith. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai goblygiadau sefydliadol sylweddol er mwyn gwarantu'r gwasanaeth.

Nid oedd yn ystyried safon 15 yn berthnasol iddo, a hynny oherwydd natur ei waith, ynghyd â'r nifer o alwadau a dderbynnir ganddo.

286 Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

287 Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 94% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.²⁸⁸

Nodwyd bod cyfarfodydd a gynhelir yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu yn digwydd yn ad hoc ar hyn o bryd, a hynny'n ddibynnol ar sgiliau ieithyddol yr aelodau staff cysylltiedig. Ategwyd at hynny gan nodi fod seminarau a chynadleddau a drefnir ganddo ar gyfer cynrychiolwyr o'r sector addysg uwch yn digwydd drwy gyfrwng y Saesneg fel rheol. Er hynny, rhoddir ystyriaeth i ddefnydd o'r Gymraeg, a hynny'n seiliedig ar bwnc, natur a chynulleidfa debygol y digwyddiad.

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd diffyg capasiti o fewn y gweithlu er mwyn gwarantu'r gwasanaeth hwnnw. Gyda hynny mewn golwg, roedd o'r farn y byddai costau cyfieithu yn codi'n sylweddol ac y byddai'n cael effaith ar ei allu i ymateb i geisiadau byr rybudd am gyfarfodydd.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.²⁸⁹

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru bod croeso i'r rheiny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd wedi eu trefnu. Ategwyd at hynny gan nodi bod trefniadau yn cael eu gwneud o flaen llaw er mwyn cadarnhau dewis iaith mynychwyr, ynghyd â sicrhau bod aelodau staff Cymraeg eu hiaith yn bresennol er mwyn eu croesawu ac i ymdrin ag ymholiadau.

Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

²⁸⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁸⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.²⁹⁰

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn cyfrannu at ariannu cyrff sy'n gweithredu ledled y DU. O bryd i'w gilydd, mae'r cytundeb lefel gwasanaeth â'r cyrff hynny yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal digwyddiad yng Nghymru. Nodwyd y byddai'r digwyddiadau hynny wedi eu targedu ar gyfer cynulleidfaoedd o wahoddedigion, ac nid i'r cyhoedd. Yn yr un modd, caiff seminarau a chynadleddau i gynrychiolwyr o'r sector addysg uwch eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg. Wrth gyflwyno'r dystiolaeth yma, nododd ei fod yn ansicr a fyddai digwyddiadau tebyg i'r uchod yn cael eu cynnwys yn y safonau. Roedd yn dymuno eglurder pellach ynghylch y diffiniad o 'cyhoeddus'.

Er yr uchod, nododd ei fod yn disgwyl i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â darpariaeth addysg uwch cyfrwng Gymraeg gael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.²⁹¹

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fod yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a gynhyrchir ganddo yn ddwyieithog. Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.²⁹²

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm, nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn arddangos gwybodaeth, megis copïau o'i gyhoeddiadau blynyddol, yn ogystal a chyhoeddiadau eraill yn ddwyieithog. Er hynny, nodwyd bod adegau pan na fyddai'n arddangos deunyddiau sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd y DU neu ryngwladol, a lle nad oes fersiwn Gymraeg ar gael. Un enghraifft o hynny oedd dogfen a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ei hanelu at ymchwilyr a phrifysgolion rhyngwladol.

²⁹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Er ei fod o'r farn y byddai'n afresymol ac yn anghymesur disgwyl iddo gynhyrchu'r dogfennau hynny'n Gymraeg, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.²⁹³

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm, cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fod nifer o'i ddogfennau corfforaethol wedi eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Ategwyd at hynny gan nodi bod rhai dogfennau arbenigol eu natur yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg, â chrynodeb gweithredol yn Gymraeg. Er hynny, ble bod testun yn awgrymu y dylai fod yn Gymraeg, neu ei fod yn rhagweld y byddai'r gynulleidfa darged yn disgwyl i'r ddogfen fod yn Gymraeg, fe'u cynhyrchir yn ddwyieithog.

Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn dymuno eglurder o'r diffiniad 'at ddefnydd cyhoeddus' y nodir yn y rheoliadau. Yn yr un modd, nid oedd yn sicr o ystyr 'y wasg' yn y cyd-destun hwn ychwaith gan nodi pe bai aelod o'r wasg yn gofyn am ymateb yn Saesneg, Saesneg yn unig fyddai'r ymateb fel rheol.

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Rhoddwyd nifer o resymau dros hynny yn ei dystiolaeth, gan gynnwys rhesymau cyllidebol ynghyd â gweithredol. Nodwyd y byddai goblygiadau sylweddol o ran costau cyfieithu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion, yn ogystal ag oedi yn y broses o ryddhau dogfennau i'w rhanddeiliaid a chyngor mewnol.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.²⁹⁴

Nodwyd mai anaml iawn y cynhyrchir ffurflenni ar gyfer y cyhoedd, ond ble bo hynny'n digwydd, fe'u cynhyrchir yn Gymraeg. Er hynny, nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt mewn perthynas â'r naw Prifysgol, sef ei randdeiliaid, yn rhesymol a chymesur. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn cynhyrchu amryw o ffurflenni ar gyfer prifysgolion fel rhan o'i broses ymgysylltu barhaus.

²⁹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.²⁹⁵

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru bod yr holl destun sydd ar ei dudalennau gwefan ar gael yn Gymraeg. Yn yr un modd, nodwyd bod pob tudalen Gymraeg yn weithredol ac yn ddrych o'r cynnwys Saesneg, gan ganiatáu i'r defnyddiwr ddewis ym mha iaith yr hoffai bori drwy'r wefan.

Er hynny, nid oedd yn gwbl glir o ddiffiniad 'rhyngwyneb' fel y nodir yn y rheoliadau drafft. Yn yr un modd, nodwyd bod angen eglurhad pellach a fyddai testun ar y dudalen yn cyfeirio at yr holl ddogfennau sydd ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan.

Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.²⁹⁶

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru bod ei holl arwyddion yn ddwyieithog, a'i fod yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.²⁹⁷

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn cyflogi staff penodedig ar gyfer y dderbynfa. Er hynny, nodwyd bod croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'i swyddfeydd i wneud ymholiadau cyffredinol yn Gymraeg. Ble nad oes staff dwyieithog ar gael, gwneir trefniadau er mwyn sicrhau bod aelod o staff yn medru ymdrin â'r ymholiad.

²⁹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys y ffaith nad oedd yn cynnig gwasanaeth croesawu ymwelwyr yn uniongyrchol, anghymesurededd sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael i gyflenwi gwasanaeth croesawu ar bob achlysur ynghyd ag adnoddau presennol y sefydliad. Ategwyd at hynny gan nodi nad oedd yn eglur ynglŷn ag ystyr safon 61, a sut y byddai cydymffurfiaeth â'r safon hwnnw'n gweithio yn ymarferol.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw fel rheol, ond ei fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg o bryd i'w gilydd..

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.²⁹⁸

Nodwyd mai anaml y bydd yn cynhyrchu hysbysiadau swyddogol, ond pan fydd yn gwneud, fe sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn ddwyieithog. Roedd yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.²⁹⁹

Er iddo nodi nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, wrth gyfeirio at safonau 71-72, nodwyd na fu unrhyw adeg ble bu cyfweiliadau am grant. Ategwyd at hynny gan nodi na fyddai'r capasiti ganddo i gyfweld heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. Awgryma hynny y gallai fod yn dyfarnu ar geisiadau o bryd i'w gilydd.

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.³⁰⁰

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn pwrcasu llawer o nwyddau a gwasanaethau. Er hynny, ble bo hynny'n digwydd, gwneir hynny gan fwyaf

²⁹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁰⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

drwy gyfrwng y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Nodwyd nad oedd yn hysbysebu tendrau'n ddwyieithog fel rheol, ond bod hysbysebion dwyieithog wedi eu gosod ar gyfer contractau cymwys neu addas.

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys goblygiadau sylweddol o ran adnoddau a gweithredu, ynghyd â chostau cyfieithu. Er hynny, cydnabuwyd y gallai ymgymryd â rhywfaint o dendro cyhoeddus yn ddwyieithog pe bai'n gymesur â maint y sefydliad, ac â'i allu i'w weinyddu'n effeithiol.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.³⁰¹

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.³⁰²

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn ymrwymedig i gynnal hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru, gyda gwybodaeth safonol yn ymddangos ar holl ddeunyddiau a chyhoeddiadau swyddogol y sefydliad.

Er ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor, fe nodwyd mai'r 'HEFCW' coch yw ei logo, gyda thestun yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y chwith. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai'n gostus newid y logo hwn ar adeg ble bo ansicrwydd ynghylch pa mor hir fydd yr enw hwn mewn bodolaeth yn y dyfodol tymor canolog.

³⁰¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁰² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.³⁰³

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.³⁰⁴

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn darparu rhai safonau 'cyflenwi gwasanaethau' ar ei wefan, ac fe gyhoeddir ei gynllun iaith Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod ganddo weithdrefn gwyno gyffredin sydd ar gael yn ddwyieithog, a'i fod yn cynhyrchu adroddiad cydymffurfiaeth yn flynyddol.

Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.³⁰⁵

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau llunio polisi, cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch bod y safonau llunio polisi, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol a'i fod yn gweithredu'n unol â hwy, i raddau gwahanol, drwy ei gynllun iaith Gymraeg. Ceir ymrwymadau yn y cynllun iaith Gymraeg i asesu effaith ieithyddol posibl unrhyw gynigion newydd sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth gan y sefydliad.

Nododd ei fod yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi, gan gynnal asesiad o'r effaith y caiff y polisi ar yr iaith Gymraeg. Nid oedd yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau. Er hynny, nododd y Cyngor ei fod yn ansicr ynglŷn ag ystyr y diffiniad 'grant' yn y cyd-destun hwn,

³⁰³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁰⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁰⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

gan gyfeirio at bolisi ar gyllido prifysgolion ac addysg uwch yng Nghymru. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ynghylch y gweithgareddau uchod wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ansicrwydd ynglŷn ag ymarferoldeb nifer o'r safonau. Mynegwyd pryder ynglŷn ag ymgynghori ar benderfyniad polisi, yn hytrach na chynnig polisi. I'r un perwyl, dymuna eglurhad ar y graddau y byddai pob penderfyniad cyllido a wnâi yn dod o dan safon 92, gan y byddai hynny'n cael effaith ar amser ac adnoddau,.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn darparu rhai safonau 'cyflenwi gwasanaethau' ar ei wefan, ac fe gyhoeddir ei gynllun iaith Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod ganddo weithdrefn gwyno gyffredin sydd ar gael yn ddwyieithog, a'i fod yn cynhyrchu adroddiad cydymffurfiaeth yn flynyddol.

Er hynny, nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y gofynion ynghlwm â safon 165 (a) (ii). Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys yr angen i ddarparu hyfforddiant ychwanegol, a hynny gan fynd tu hwnt i'w weithdrefnau arferol. Yn yr un modd, nid oedd yn eglur ynghylch pam y byddai angen trin y polisi hwn yn wahanol i'w bolisiau cwyno eraill.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.³⁰⁶

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. Er hynny, fe anogir staff i dderbyn gwersi Gymraeg, ac fe ddarperir canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn darparu rhai o'r dogfennau y nodir yn safonau 97-102. Er hynny, cydnabuwyd nad oedd yn cynnig y dogfennau hynny yn swyddogol i gyflogai, ond ei fod yn ymateb i ddewis iaith y cyflogai fel mater o drefn. Aethpwyd ymlaen i nodi bod nifer o'i systemau adnoddau dynol yn electronig, ac y byddai angen atgynhyrchu neu ailadeiladu'r systemau hynny er mwyn cynnal gofynion dwyieithog.

Yng nghyswllt y gofynion ynghlwm â safonau 103-109, cadarnhaodd bod yr holl bolisiau dan sylw yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg ar hyn o bryd. Er hynny, nododd ei fod yn gwerthfawrogi mai'n achlysurol yn unig fyddai'n rhaid cyflawni'r gwaith.

³⁰⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 20% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.³⁰⁷

Nid oedd y sefydliad yn caniatáu i aelodau o'i staff gyflwyno cwynion at y sefydliad, ynghyd ag ymateb i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ef neu â hi, yn Gymraeg. Yn yr un modd, nodwyd nad oedd cyfarfodydd mewn perthynas â chwyn yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Mynegwyd pryder ynglŷn ag effaith defnyddio cyfieithydd allanol ym mhob cam llafar neu llai ffurfiol, a hynny o ran cyflymder, natur agored a chyfrinachedd y broses. Er hynny, nodwyd y byddai modd sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion pe byddai cyflogai a/neu weithiwr yn dymuno hynny.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 20% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.³⁰⁸

Nid oedd y sefydliad yn caniatáu i aelodau o'i staff ymateb yn Gymraeg i honiadau yn Gymraeg. Yn yr un modd, nodwyd nad oedd cyfarfodydd mewn perthynas ag achos disgyblu yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Oherwydd capasiti presennol y sefydliad, nodwyd y byddai'n amhosibl cynnal y cyfarfodydd hynny heb gymorth gwasanaeth cyfieithu, gan arwain at gostau ychwanegol. Er hynny, nodwyd y byddai modd sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion pe byddai cyflogai a/neu weithiwr yn dymuno hynny.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 29% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.³⁰⁹

Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Gymraeg i gyflogeion a gweithwyr. Yn ychwanegol i hynny, cafwyd cadarnhad ei fod yn darparu rhyngwynebau Gymraeg. Er hynny, nid oedd tudalennau'r fewnwyd ar gael yn y Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod nifer uchel o bolisiau ganddo, ac mai dyma oedd rhan helaeth cynnwys ei fewnwyd. Roedd o'r farn y byddai effaith sylweddol ar adnoddau a'i arferion gwaith pe byddai disgwyl iddo gydymffurfio â rhai o'r gofynion hyn.

Nid oedd yn rhagweld anhawster mewn darparu rhyngwynebau Gymraeg, ble bo rhyngwynebau Gymraeg ar gael.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.³¹⁰

³⁰⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁰⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁰⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³¹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogaion.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safon 126, nodwyd nad oedd yn darparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn y meysydd a nodir. Er hynny, nododd y byddai'n caniatáu i staff fynychu hyfforddiant mewn perthynas â'r meysydd yr amlinellir yn safonau 127-130 pe bai'r rheiny yn cael eu nodi'n ofynion hyfforddiant gan staff. Er hynny, dymuna Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru eglurhad pellach ar union ddiffiniad safon 128(b).

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru y caiff pob swydd newydd, a phob swydd wag, ei hystyried yng nghyd-destun gofynion sgiliau iaith. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael â diffyg o ran sgiliau Cymraeg. Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn cydymffurfio â gofynion nifer o agweddau safonau 135-138. Er hynny, mynegwyd pryder ynglŷn â'r angen i gynnal unrhyw gyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. Yn yr un modd, mynegwyd pryder ynghylch materion cyfrinachedd a diogelu data wrth rannu manylion swyddi tu hwnt i'r adran Adnoddau Dynol.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.³¹¹

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn arddangos arwyddion tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, a bod y Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.³¹²

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd cyhoeddiadau a negeseuon sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³¹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³¹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn darparu rhai safonau 'cyflenwi gwasanaethau' ar ei wefan, ac fe gyhoeddir ei gynllun iaith Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod ganddo weithdrefn gwyno gyffredin sydd ar gael yn ddwyieithog, a'i fod yn cynhyrchu adroddiad cydymffurfiaeth yn flynyddol.

Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.³¹³

Cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn cynhyrchu adroddiad blynyddol, gyda gwybodaeth ynghylch darparu gwasanaethau Gymraeg yn cael eu casglu ar draws y sefydliad. Er y trefniadau hynny, roedd o'r farn y byddai angen rhoi trefn gofnodi trylwyr ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â gofynion diogelu data y sefydliad, ynghyd â'r amser fyddai angen ar yr aelod o staff â chyfrifoldeb dros y Gymraeg i sicrhau y cedwir cofnodion yn gywir. Esboniwyd nad oes capasiti ar hyn o bryd i gynyddu'r elfen oruchwylio a gweinyddu o fewn y rôl berthnasol.

Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er hynny, mewn perthynas â safonau 156(a), nodwyd yr angen am eglurder o'r diffiniad 'angen', ac a fyddai hynny'n cwmpasu sgiliau hanfodol, dymunol ynteu'r ddau.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Cadarnhawyd bod adroddiad ar gydymffurfiaeth yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi ganddo yn flynyddol.

Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn gweld eu perthnasedd, o ystyried ei swyddogaeth. Ni ymhelaethwyd ar y dystiolaeth hynny wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau.

³¹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Colegau Cymru Cyfyngedig

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.³¹⁴

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan ei gynllun iaith Gymraeg. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 73% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.³¹⁵

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safonau 8-22, cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig bod nifer ohonynt eisoes yn eu lle, a hynny'n unol â'i gynllun iaith Gymraeg. Er hynny, nodwyd y byddai'n anodd gwarantu cydymffurfiaeth lawn â safonau 18-19, a hynny oherwydd y gall fod achlysuron ble nad oes staff sy'n siarad Gymraeg ar gael.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.³¹⁶

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn cydymffurfio â'r safonau yn rhannol ar hyn o bryd. Nodwyd nad oedd dewis iaith yn cael ei ofyn i'r sawl y dymuna gyfrannu mewn cyfarfod. Ategwyd at hynny gan nodi bod ystyriaeth o'r hyn sydd yn rhesymol mewn cysylltiad â chyfarfod penodol. O'r herwydd, heb ddefnydd o wasanaethau cyfieithu byddai dibyniaeth helaeth ar sgiliau ieithyddol ac argaeledd staff.

Nodwyd nad yw'n gofyn am ddewis iaith fel mater o drefn ar hyn o bryd, a hynny oherwydd bod tueddiad i gyfarfodydd ddigwydd yn naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg ble bo'r person

³¹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³¹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³¹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

sydd yn cynnal y cyfarfod yn medru'r iaith. Yn yr un modd, nodwyd y byddai'n anodd iddo gydymffurfio â rhai gofynion ar bob achlysur, a hynny oherwydd argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai angen cymorth cyfieithu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.³¹⁷

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.³¹⁸

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.³¹⁹

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³¹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³¹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³¹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.³²⁰

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.³²¹

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safonau 40-49, cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod eisoes yn cydymffurfio, a hynny'n unol â'i gynllun iaith Gymraeg cyfredol. Er hynny, cydnabuwyd nad oedd y sefydliad yn cydymffurfio â safon 41 ar hyn o bryd, a hynny oherwydd bod y ffocws wedi bod ar ddogfennau cyhoeddus yn hanesyddol.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.³²²

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.³²³

³²⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³²¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³²² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er hynny, cadarnhawyd nad oedd apiau yn cael eu cynhyrchu gan y sefydliad ar hyn o bryd.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.³²⁴

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn dilyn canllawiau Comisiynydd y Gymraeg, gan osod y Gymraeg uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.³²⁵

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig bod 2 aelod o staff yn gweithio ar ei dderbynfâ, gydag 1 yn siarad Cymraeg yn rhugl, a'r llall gyda'r gallu i gyfarch yn Gymraeg. Nodwyd y gellir cydymffurfio â'r gofynion ynghlwm, ac fe'u hystyrir yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.³²⁶

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Colegau Cymru Cyfyngedig o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

³²³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³²⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³²⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³²⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.³²⁷

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Colegau Cymru Cyfyngedig o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.³²⁸

Roedd Colegau Cymru Cyfyngedig yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.³²⁹

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

³²⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³²⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³²⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.³³⁰

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.³³¹

Er yr uchod, cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig bod cwrs MA mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth, ynghyd â thystysgrif ôl-radd mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn cael ei gynnig i ddarlithwyr yn y sector addysg bellach. Nodwyd bod rhai o'r seminarau yn Gymraeg, a bod 2 siaradwr Cymraeg yn gweithio yn y maes. Croesewir mewnbyn, gwaith cwrs, aesiadau ac adborth yn Gymraeg, ac fe amlygir hynny yn y deunydd hysbysebu. Derbynnir premiwm gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth hwn.

Roedd Colegau Cymru Cyfyngedig yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.³³²

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Colegau Cymru Cyfyngedig o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi
gwasanaethau [158-163]**

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig bod nifer o'r gofynion ar waith fel rhan o'i gynllun iaith Gymraeg cyfredol. Er hynny, cydnabuwyd y byddai angen gweithredu dogfennaeth a threfniadaeth bellach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn dros amser.

Roedd Colegau Cymru Cyfyngedig yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, ond y byddai angen diwrnodau gosod rhesymol fel y gallait weithio tuag at gydymffurfiaeth lawn.

³³⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³³¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³³² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 70% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.³³³

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig bod effaith y caiff penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd ynghyd â'r Uwch Dîm Rheoli ar y Gymraeg eu hystyried. Ategwyd at hynny gan nodi y bydd teclun asesiad effaith ieithyddol cyhoeddus ar gael yn fuan er mwyn cynorthwyo'r penderfyniadau hynny. Cadarnhawyd nad oedd yn dyfarnu grantiau, ac yn anaml iawn y bydd gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu ganddo.

Roedd Colegau Cymru Cyfyngedig yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Er nad oedd Colegau Cymru Cyfyngedig yn cydymffurfio â holl ofynion safonau 164-169 ar hyn o bryd, roedd yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.³³⁴

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. Er hynny, nodwyd nad oedd yn gweithredu system mewnwyd ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig nad oedd yn darparu'r holl ddogfennau y nodir yn safonau 97-102. Er hynny, ers mabwysiadu'r cynllun iaith Gymraeg cyfredol, gofynnir i staff ym mha iaith y maent yn dymuno derbyn dogfennau.

Yng nghyswllt y gofynion ynghlwm â safonau 103-109, nodwyd ei fod yn bosibl cynhyrchu pob polisi'n ddwyieithog, a hynny gyda'r defnydd o gyfieithydd.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.³³⁵

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod staff yn cael cyflwyno cwyn yn Gymraeg, er nad yw hynny'n cael ei gyflwyno iddynt mewn modd ffurfiol. Mynegwyd pryder ynglŷn â safonau 111-113, gan nodi y byddai cynnal cyfarfodydd sy'n ymwneud â chwynion yn gofyn i'r Prif Weithredwr a/neu unigolyn o fewn yr adran adnoddau dynol fedru'r Gymraeg.

³³³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³³⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³³⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Ychwanegwyd at hynny gan nodi y dylid ystyried sensitifrwydd y mater dan sylw, ynghyd â materion cyfrinachedd.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.³³⁶

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 114-117, nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn caniatáu i aelodau o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy'r broses ddisgyblu fewnol. Mynegwyd pryder o ran ei allu i sicrhau y cynhelir cyfarfodydd yn newis iaith y cyflogai, a hynny oherwydd diffyg staff adnoddau dynol penodol o fewn y sefydliad. O'r herwydd, byddai angen trefnu cyfieithu ar y pryd ymhob achos.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.³³⁷

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Gymraeg i gyflogeion a gweithwyr. Yn ychwanegol i hynny, cafwyd cadarnhad ei fod yn darparu rhyngwynebau Gymraeg. Nid oedd yn gweithredu system fewnwyd ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.³³⁸

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion. Ychwanegwyd at hynny gan nodi nad oedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ymhob un o'r meysydd y nodir yn safon 126 a 130. Er hynny, roedd yn croesawu ceisiadau gan staff i dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith neu tu allan i'r oriau hynny.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.³³⁹

Nododd Colegau Cymru Cyfyngedig bod y gweithgaredd hwn bellach wedi hen sefydlu fel mater o drefn o dan gynllun iaith Gymraeg y sefydliad. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³³⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³³⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³³⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³³⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.³⁴⁰

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig ei fod yn arddangos arwyddion yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, a bod y Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.³⁴¹

Cadarnhaodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru nad oedd cyhoeddiadau a negeseuon sain yn cael eu gwneud yng ngweithle'r sefydliad. Er hynny, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig nad oedd yn ymgymryd ag unrhyw elfennau o'r materion atodol ar hyn o bryd. Er hynny, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Gofynnwyd i Gomisiynydd y Gymraeg roi ystyriaeth lawn i ddiwrnodau gosod yn y cyswllt hwn wrth gyflwyno hysbysiad cydymffurfio.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.³⁴²

Er nad oedd nifer o'r gofynion yn arferion cyfredol, cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig y byddai modd iddo gydymffurfio â'r gofynion dros amser, a hynny oherwydd yr angen am newid ymddygiad sefydliadol.

Roedd Colegau Cymru Cyfyngedig yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³⁴⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁴¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁴² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Cadarnhaodd Colegau Cymru Cyfyngedig y byddai modd iddo gydymffurfio â safonau 178-179, a hynny wedi i'r safonau cadw cofnodion eraill ddod yn weithredol.

The National Institute of Adult Continuing Education

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.³⁴³

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn sicrhau bod ymateb i unrhyw ohebiaeth yn cael ei ddanfôn yn yr iaith y'i derbynnir. Yn yr un modd, nodwyd bod pob gohebiaeth y danfonir am y tro cyntaf yn cael ei wneud yn ddwyieithog. Bydd unrhyw gofnod o ddewis iaith yn cael ei roi ar system newydd fydd yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2015 ymlaen.

Roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 53% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.³⁴⁴

Nodwyd bod staff bellach wedi cael eu hyfforddi i gyfarch galwyr yn ddwyieithog, ond nad oedd modd iddynt gynnal sgysiau pellach yn Gymraeg, a hynny'n dilyn aelod o staff iaith Gymraeg yn ymadael yn ddiweddar. Cadarnhawyd bod gwasanaeth ateb y prif rif ffôn â recordiad dwyieithog yn gofyn i unigolyn adael neges.

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd diffyg staff sydd yn medru'r Gymraeg. O ganlyniad i'r diffyg hwn, ni fyddai modd iddo gydymffurfio â nifer helaeth o'r gofynion.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

³⁴³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁴⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.³⁴⁵

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd goblygiadau cost a diffyg staff sydd yn medru'r Gymraeg.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.³⁴⁶

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.³⁴⁷

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.³⁴⁸

Cadarnhawyd bod pob deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog, ac na chaiff y fersiwn Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

³⁴⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁴⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁴⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁴⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.
³⁴⁹

Cadarnhawyd bod unrhyw ddeunydd sydd yn cael ei arddangos yn ddwyieithog.

Roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.
³⁵⁰

Pan gynhyrchir dogfennau ar gyfer eu cyhoeddi yng Nghymru, cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud hynny'n ddwyieithog. Roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.
³⁵¹

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn cynhyrchu unrhyw ffurflenni cydsynio cyhoeddus yn ddwyieithog. Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

³⁴⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.³⁵²

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education bod tudalennau ar ei wefan corfforaethol yn ddwyieithog. Ategwyd at hynny gan nodi bod cynnwys, ble bo'n berthnasol, wedi ei gyhoeddi yn y ddwy iaith.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.³⁵³

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm, nododd The National Institute of Adult Continuing Education fod ei holl arwyddion yn ddwyieithog. Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.³⁵⁴

Nodwyd yn ei dystiolaeth ei fod ar hyn o bryd wedi lleoli mewn adeilad aml ddaliadaeth, ac wedi ei reoli gan gwmni allanol. O'r herwydd, nid oedd ganddo reolaeth dros staff y brif dderbynfa.

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.³⁵⁵

³⁵² Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵³ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm, nododd The National Institute of Adult Continuing Education fod yr holl hysbysiadau swyddogol a gynhyrchir ganddo yn ddwyieithog. Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.³⁵⁶

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education bod ei holl ddogfennau grant yn cael eu cynhyrchu a'u cylchredeg yn ddwyieithog. Yn yr un modd, nodwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyfweld.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.³⁵⁷

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education bod dogfennau mewn perthynas â contractio ar gael yn ddwyieithog, ble bo'n berthnasol. Yn yr un modd, nodwyd bod gwasanaeth cyfieithu ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyfweld.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.³⁵⁸

³⁵⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Wrth ymateb i'r gofynion, nodwyd nad oedd gwasanaethau iaith Gymraeg yn cael eu darparu'n uniongyrchol ganddo. Ni ymhelaethwyd ar y dystiolaeth yma wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau.

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.³⁵⁹

Cadarnhawyd bod ei logo, ynghyd â'i hunaniaeth gorfforaethol i gyd yn ddwyieithog. Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.³⁶⁰

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn darparu nac yn cynnig unrhyw gyrsiau addysgol i'r cyhoedd.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.³⁶¹

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd ganddo system annerch i'r cyhoedd.

³⁵⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁶⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁶¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Ni ddarparwyd tystiolaeth benodol i'r safonau mewn perthynas â'r materion atodol. Er hynny, roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.³⁶²

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi ar hyn o bryd. Er hynny, roedd ganddo bolisi dyfarnu grantiau, a hynny gan ystyried gofynion safon 92.

Roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Ni ddarparwyd tystiolaeth benodol i'r safonau mewn perthynas â'r materion atodol. Er hynny, roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.³⁶³

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ond y gellid sicrhau cyfathrebu mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei swyddfa yng Nghymru pe byddai angen. Yn yr un modd, nodwyd bod pob un o'r dogfennau yr amlinellir yn safonau 97-102 ar gael yn Gymraeg pe byddai cyflogai neu weithiwr yn dymuno.

Er nad oedd y polisiâu yr amlinellir yn safonau 103-109 ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd, nid oedd yn rhagweld unrhyw anhawster mewn darparu'r polisiâu i gyflogai neu weithiwr pe byddai cais amdanynt.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.³⁶⁴

³⁶² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁶³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁶⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Er bod modd i staff gyflwyno ac ymateb i unrhyw gŵyn yn Gymraeg, nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn eu hysbysu hwy o hynny. Er nad yw'n arfer cyfredol ganddo i gynnig cyfarfodydd mewn perthynas â chwynion yn Gymraeg, nid oedd yn rhagweld anhawster mewn cydymffurfio â hynny.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.³⁶⁵

Er bod modd i staff ymateb yn Gymraeg i honiadau, nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn eu hysbysu hwy o hynny. Er nad yw'n arfer cyfredol ganddo i gynnig cyfarfodydd mewn perthynas ag achos disgyblu yn Gymraeg, nid oedd yn rhagweld anhawster mewn cydymffurfio â hynny.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.³⁶⁶

Nododd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn cynnig deunydd cymorth, nac ychwaith rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer ei staff ar hyn o bryd. Yn yr un modd, nid oedd tudalennau'r mewnwyd ar gael yn Gymraeg ychwaith.

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai'n rhesymol iddo orfod darparu tudalennau'r mewnwyd yn Gymraeg, a hynny oherwydd bod y system yn cael ei gynnal drwy ei brif swyddfa yn Lloegr. Yn ategol i hynny, nodwyd mai 10% o staff y sefydliad oedd yn gweithio yng Nghymru.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.³⁶⁷

Nid oedd The National Institute of Adult Continuing Education yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei cyflogeion ar hyn o bryd. Yn yr un modd, nid oedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg yn unol â rhan helaeth safonau 126-131. Er hynny, nodwyd bod hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol wedi ei ddarparu i staff yn y gorffennol, gyda rhai aelodau wedi datblygu ei sgiliau drwy hyfforddiant pellach.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.³⁶⁸

³⁶⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁶⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁶⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁶⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethodoleg bendant ganddo er mwyn dod i benderfyniad ar anghenion sgiliau Cymraeg angenrheidiol wrth hysbysebu swydd wag neu swydd newydd. Yn hytrach, roedd yn cynnwys sgiliau iaith Gymraeg fel 'dymunol' ar gyfer pob swydd.

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn cydymffurfio â rhai o'r gofynion ynghlwm â safonau 134-138 ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.³⁶⁹

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education ei fod yn arddangos arwyddion yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, ond nad oedd y Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.³⁷⁰

Cadarnhawyd nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Ni ddarparwyd tystiolaeth benodol i'r safonau mewn perthynas â'r materion atodol. Er hynny, roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd The National Institute of Adult Continuing Education nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.³⁷¹

Wrth ddarparu gwybodaeth ar y trefniadau corfforaethol sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd, nododd The National Institute of Adult Continuing Education bod cofnodion yn cael eu cadw drwy fas fata, a hynny er mwyn gallu adnabod y personau hynny sydd yn dymuno derbyn gohebiaeth neu gyswllt pellach trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, roedd systemau eisoes mewn lle er mwyn cofnodi asesiadau o anghenion sgiliau iaith Gymraeg swyddi, ynghyd â chwynion.

³⁶⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁷⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁷¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Er hynny, cydnabuwyd y byddai angen diwygio polisïau perthnasol er mwyn adlewyrchu'r gofynion newydd fydd arno o dan safonau'r Gymraeg.

Roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Ni ddarparwyd tystiolaeth benodol i'r safonau mewn perthynas â'r materion atodol. Er hynny, roedd The National Institute of Adult Continuing Education yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yn rhesymol a chymesur

Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.³⁷²

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn rhagweld unrhyw anawsterau mewn cydymffurfio â'r gofynion. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn ymrwymedig i dderbyn ac i ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, a hynny gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 40% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.³⁷³

Roedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch o'r farn y byddai'n afresymol ac yn anghymesur iddo orfod cydymffurfio â'r safonau, ag eithrio mewn perthynas â'i linell iaith Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod ei pencadlys yn Lloegr, a'i bod yn sefydliad sydd yn gweithredu ar draws y DU.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.³⁷⁴

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Wrth gyfeirio'n benodol at safonau 23, 25 a 26, nodwyd y byddai'n rhaid iddo gael gwybod o flaen llaw bod ymwelydd yn dymuno cynnal cyfarfod yn Gymraeg, a hynny er mwyn gallu trefnu gwasanaeth

³⁷² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁷³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁷⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

cyfieithu. Mewn perthynas â safonau 28, 29 a 29A, cyfeiriwyd at y ffaith ei fod yn sefydliad sydd â chylch gwaith ar draws y DU gyda'i bencadlys yn Lloegr.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.³⁷⁵

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.³⁷⁶

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn trefnu nac yn ariannu digwyddiadau cyhoeddus. Ategwyd at hynny gan nodi mai digwyddiadau drwy wahoddiad yn unig y cynhelir ganddo. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder yng nghyswllt digwyddiadau o'r math hwn wrth bennu safonau a'u gwneud yn benodol gymwys i'r person dan sylw.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.³⁷⁷

Roedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a hysbysebu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³⁷⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁷⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁷⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.³⁷⁸

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn arddangos deunydd mewn mannau cyhoeddus.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.³⁷⁹

Er bod Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn cadarnhau bod dogfennau y cynhyrchir ar gyfer Cymru'n benodol ar gael yn Gymraeg, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Ymhlith y rhesymau dros hynny oedd amherthnasedd rhai o'r safonau (42, 45) i'w gweithgareddau, ynghyd â'r ffaith bod ganddo gylch gwaith ledled y DU.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.³⁸⁰

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni ar gyfer defnydd y cyhoedd.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

³⁷⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁷⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.³⁸¹

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm, nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch y byddai'n afresymol ac yn anghymesur iddo orfod cydymffurfio â safon 53 a 56. Ymhlith y rhesymau dros hynny oedd y ffaith bod ganddo gylch gwaith ledled y DU a bod ei bencadlys yn Lloegr. Er hynny, cadarnhawyd bod ganddo adran benodol ar gyfer Cymru ar ei wefan, a bod hwnnw ar gael yn Gymraeg.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, ynghyd â'r ffaith bod ei bencadlys yn Lloegr. Er hynny, cadarnhawyd bod ganddo arwyddion dwyieithog yn ei swyddfa ranbarthol yng Nghaerdydd.

Gweithgaredd 12: Derbynn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbynn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 29% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbynn ymwelwyr i adeiladau'r corff.³⁸²

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, ynghyd â'r ffaith bod ei bencadlys yn Lloegr. Ategwyd at hynny gan nodi mai ar wahoddiad yn unig y derbynir ymwelwyr yng Nghaerdydd, a bod staff y dderbynfa honno'n gyflogedig gan UCM Cymru.

Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.³⁸³

³⁸¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn cyhoeddi unrhyw hysbysiadau swyddogol.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.³⁸⁴

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn gwahodd na dyfarnu ar geisiadau am grant.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.³⁸⁵

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, ynghyd â'r ffaith bod ei bencadlys yn Lloegr. Ategwyd at hynny gan nodi bod contractau caffael yn cael eu cyhoeddi ledled y DU.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.³⁸⁶

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

³⁸⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm, cadarnhawyd bod canllaw yn cael ei ddyroddi i staff ar ei gynllun iaith Gymraeg. Yn yr un modd, nodwyd bod ei raglen sefydlu yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaethau Cymraeg ymhellach.

Roedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.³⁸⁷

Nodwyd bod newidiadau diweddar i'w logo wedi derbyn cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg. Roedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.³⁸⁸

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oedd yn darparu cyrsiau addysg i'r cyhoedd.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.³⁸⁹

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei fod yn rhentu adeilad ar brydles ar hyn o bryd, ac mai nid yr Asiantaeth sydd â chyfrifoldeb dros systemau annerch cyhoeddus yr adeilad hwnnw.

³⁸⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Er i Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nodi ei fod yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â'r materion atodol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, mynegwyd pryder ynglŷn â safon 160. Roedd o'r farn y byddai gorfod cydymffurfio 'r safon benodol hwnnw yn afresymol, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, a'r ffaith bod ei bencadlys yn Lloegr.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.³⁹⁰

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn ymgynghori ar unrhyw ddulliau adolygu y cyflwynir yng Nghymru, a hynny gan ystyried darpariaeth iaith Gymraeg. Er hynny, nid oedd yn ystyried safonau 92,93 a 94 yn berthnasol, a hynny oherwydd nad oedd yn dyfarnu grantiau.

Er iddo gydnabod y gellid cynnal yr ymrwymadau yr amlinellir yn ei gynllun iaith Gymraeg, nodwyd y byddai unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn afresymol ac yn anghymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Roedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.³⁹¹

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, nac ychwaith yn darparu dogfennau a ffurflenni'n unol â'r gofynion.

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, ynghyd â'r ffaith bod yr holl wasanaethau cefnogi wedi eu lleoli yn ei bencadlys (Lloegr).

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.³⁹²

³⁹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn caniatáu i aelod o staff wneud cwynion, nac ychwaith ymateb i unrhyw gwyn yn Gymraeg. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw gyfarfodydd mewn perthynas â chwynion ar gael yn Gymraeg.

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, ynghyd â'r ffaith bod yr holl wasanaethau cefnogi wedi eu lleoli yn ei bencadlys (Lloegr).

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.³⁹³

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn caniatáu i aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw gyfarfodydd mewn perthynas ag achos disgyblu ar gael yn Gymraeg. Er hynny, nodwyd ei fod yn rhoi gwybod i aelod o staff beth oedd ei benderfyniad yn dilyn achos disgyblu yn Gymraeg.

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, ynghyd â'r ffaith bod ei bencadlys yn Lloegr.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.³⁹⁴

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn darparu deunyddiau cymorth i gyflogeion a gweithwyr, a hynny'n unol â safon 118. Er hynny, nid oedd yn gweithredu system fewnwyd dwyieithog, nac ychwaith yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar hyn o bryd.

Nid oedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, ynghyd â'r ffaith bod ei bencadlys yn Lloegr. Aethpwyd ymlaen i nodi y byddai cost sylweddol ynghlwm â'r gwaith o sicrhau mewnwyd dwyieithog, ac y byddai'n cymryd o leiaf 12 mis i'w weithredu.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 56% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.³⁹⁵

³⁹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch Cymru ei fod yn cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion. Wrth ymateb i'r gofynion, nodwyd nad oedd yn darparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg mewn un o'r meysydd yr amlinellir yn safonau 126-129. Er hynny, cadarnhawyd bod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ynghyd â'r cynllun iaith Gymraeg yn cael ei ddarparu iddynt. Aethpwyd ymlaen i nodi bod asesiadau ynghyd â chynlluniau datblygu personol yn tynnu sylw at unrhyw hyfforddiant iaith Gymraeg y mae staff yn dymuno ei dderbyn.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei gylch gwaith ledled y DU, bod ei bencadlys yn Lloegr ac o'r herwydd ei fod yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.³⁹⁶

Nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch bod anghenion sgiliau Cymraeg yn cael eu hasesu fel rhan o drefniadaeth recriwtio cyffredinol y sefydliad. Ategwyd at hynny gan nodi bod y Gymraeg yn cael ei hadnabod fel sgil dymuno ymhob swydd wag.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.³⁹⁷

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ei fod yn arddangos arwyddion yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, a bod y Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.³⁹⁸

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch bod cyhoeddiadau a negeseuon sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad. Er hynny, nid oedd yn Gymraeg, a hynny oherwydd lleoliad ei bencadlys. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn rhentu adeilad ar brydles ar hyn o bryd, ac mai nid yr Asiantaeth sydd â chyfrifoldeb dros systemau annerch cyhoeddus yr adeilad hwnnw.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm, nodwyd bod ei gynllun iaith Gymraeg ar gael drwy'r wefan gorfforaethol. Cadarnhawyd nad oedd swyddfeydd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn agored i'r cyhoedd.

³⁹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³⁹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 92% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.³⁹⁹

Wrth ddarparu gwybodaeth ar y trefniadau corfforaethol sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd, nododd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch bod yr iaith Gymraeg yn eitem sefydlog ar bwyllgor mewnol y sefydliad. Yn yr un modd, nodwyd bod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu cofnodi mewn bas data ganddo.

Roedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Cadarnhaodd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch y byddai'n cyhoeddi'r safonau cadw cofnodion y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ar ei wefan. Nodwyd nad oedd swyddfeydd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn agored i'r cyhoedd.

Roedd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³⁹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁴⁰⁰

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau y byddai'n bosibl iddogydymffurfio â safonau 1-6, gan nodi bod modd i ymgeiswyr gofrestru ac ymgeisio ar gyfer cyrsiau AU drwy gyfrwng y Gymraeg eisoes. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod yn medru ymateb i ohebiaeth yn yr iaith y'i derbynnir. Gwneir hynny drwy ddibynnu ar yr aelodau o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg, neu drwy wasanaeth cyfieithu.

Er yr uchod, nid oedd Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny mewn amgylchiadau ble derbynnir lefelau digynsail o ohebiaeth yn Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, nodwyd y byddai'n anodd sicrhau cydymffurfiaeth heb oedi, a hynny oherwydd y nifer cyfyngedig o staff â sgiliau iaith Gymraeg, ynghyd â'i dibyniaeth ar wasanaethau cyfieithu.

Nodwyd y byddai gofynion safon 7 yn anghymesur, a hynny oherwydd bod modd i ymgeiswyr gwblhau ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod yr opsiwn hwnnw'n glir ar y ffurflen gais. Ychwanegwyd at hynny gan ddatgan y byddai costau sylweddol ynghlwm â gwneud y newidiadau angenrheidiol i'w systemau.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 47% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁴⁰¹

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion y byddai'n anodd iawn iddynt gydymffurfio â safonau 8-10, 16-18 a 20-22. Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys lleoliad ei swyddfa (Lloegr), ynghyd â'r ffaith bod mwyafrif y galwadau y derbynnir yn dod gan ymgeiswyr o weddill y DU ac rhyngwladol. O'r herwydd, nid oedd Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁴⁰⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 28% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁴⁰²

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn cynnal cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn, a hynny at ddibenion ymgynghori a rhannu gwybodaeth. Nodwyd bod holl wahoddiadau, agendau a phapurau y cyfarfodydd hynny'n ddwyieithog, gyda chyfieithu ar y pryd mewn lle ble bo un neu fwy o fynychwyr wedi hysbysu'r sefydliad o'i dymuniad i siarad Cymraeg.

Er yr uchod, nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd pryder ynglŷn â safonau 23-26 a 28-29B. Er hynny, cadarnhawyd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg pan dderbynnir cais i wneud hynny.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁴⁰³

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁴⁰⁴

⁴⁰² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.⁴⁰⁵

Cadarnhawyd mai dau aelod o staff sydd yn siarad Cymraeg o fewn y sefydliad, a sydd yn gallu cynnal cyfweiliadau teledu a radio drwy gyfrwng y Gymraeg. Aethpwyd ymlaen i nodi nad yw datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ar hyn o bryd ac nad oeddent o'r farn y byddai'r gofyniad hwnnw'n gymesur oherwydd bod nifer o'r datganiadau hynny ar gyfer erthyglau nad oeddent o reidrwydd yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru. Ategwyd at hynny gan nodi nad oedd unrhyw gais wedi dod gan y wasg yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf ar gyfer y gwasanaeth. Ni dderbyniwyd cadarnhad ganddo os mai'r wasg Gymreig oedd dan sylw yma.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁴⁰⁶

Pan fo Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn cynnal gweithgareddau yng Nghymru, fe ystyrir arddangos deunydd cyhoeddus yn Gymraeg. Er hynny, nodwyd bod mwyafrif y deunydd a gynhyrchir yn Saesneg yn unig, a hynny oherwydd bod rhan helaeth o'i weithgareddau yn cael eu cynnal tu allan i Gymru. Nodwyd y byddai'n rhesymol iddo barhau i ddarparu deunydd angenrheidiol yn Gymraeg, gan ddarparu deunydd arall yn Gymraeg yn ôl y galw.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

⁴⁰⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁴⁰⁷

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau bod dogfennau yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y cyhoedd yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gorfod cynhyrchu a chyhoeddi ei holl ddogfennaeth yn Gymraeg yn rhesymol a chymesur. Yn hytrach, nododd y byddai'n rhesymol parhau i ddarparu dogfennau angenrheidiol ar gyfer cyfarfodydd yn Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi y gellir darparu dogfennau eraill perthnasol yn ôl y galw, a hynny'n unol â gofynion safonau 47,48 a 49.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁴⁰⁸

Nodwyd bod defnyddwyr yn gallu cofrestru ac ymgeisio ar gyfer cyrsiau AU drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cadarnhawyd nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.

Roedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁴⁰⁹

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau bod ei wefan corfforaethol wedi ei dargedu ar gyfer y cyhoedd yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai cael gwefan gwbl ddwyieithog yn rhesymol a chymesur. Yn hytrach, nododd y byddai'n rhesymol parhau i ddarparu is-wefan hygyrch, gyda'r golwg i ddarparu gwybodaeth bellach ar ei wefan yn ôl y galw.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁴⁰⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.⁴¹⁰

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd ganddo swyddfa yng Nghymru, ac nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod gan gyflogai sydd â sgiliau iaith Gymraeg i arddangos arwyddion Cymraeg yn y gweithle. O'r herwydd, nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁴¹¹

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn derbyn ymwelwyr yn Gymraeg ar hyn o bryd, a hynny oherwydd y gyfran isel o ymwelwyr a dderbynnir sydd yn medru'r Gymraeg. Er hynny, pan fo apwyntiad yn cael ei wneud a bod yr ymwelydd hwnnw wedi nodi ei fod yn dymuno gwasanaeth derbynfayn Gymraeg, byddai yn sicrhau bod aelod o staff ar gael i fynd i'r dderbynfa.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.⁴¹²

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn cyhoeddi nifer o hysbysiadau swyddogol. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau technegol ar geisiadau a systemau derbyn i ddarparwyr addysg uwch ac ymgeiswyr.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd canran isel

⁴¹⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

yr ymgeiswyr sydd yn siaradwyr Cymraeg, ynghyd â'r diffyg galw am hysbysiadau yn Gymraeg.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.⁴¹³

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, a hynny am fod Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am contract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract [74-78]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract.⁴¹⁴

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro yn swyddogol, a hynny oherwydd statws y sefydliad. Er hynny, defnyddir dulliau amgen i dendro, gan ddethol rhestr fer o gwmnïau ar ôl adolygu'r farchnad berthnasol. Unwaith y caiff rhestr fer ei lunio, danfonir gwahoddiadau i dendro i'r cwmnïau ar sail cyfrinachol.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd lefel y gost, ynghyd ag effeithiolrwydd y broses yn ei dyb ef.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁴¹⁵

Dylid nodi bod adran 12 (2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r

⁴¹³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Cadarnhawyd bod Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau wedi creu adran Gymraeg ar ei wefan corfforaethol. Ategwyd at hynny gan gadarnhau bod yr adran hwnnw'n hyrwyddo'r broses ymgeisio sydd ar gael yn y ddwy iaith.

Roedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁴¹⁶

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod yr acronym 'UCAS' yn cael ei ddefnyddio'n eang ar draws Cymru a thu hwnt. Er hynny, pan fo busnes yn cael ei gynnal yng Nghymru, fe nodwyd ei fod yn ymroddedig i hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg mae'n ddarparu.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.⁴¹⁷

Cadarnhawyd bod sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal ar gyfer darparwyr addysg uwch ar draws y DU. Nodwyd bod y sesiynau yma'n amrywio o becynnau cyffredinol i rai llawer mwy pwrpasol a phenodol. Gan fod mwyafrif helaeth y mynychwyr yn ddi-Gymraeg, nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er hynny, pe byddai cynnydd yn y galw ar gyfer cyrsiau yn y Gymraeg, byddai Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried darparu'r cwrs gyda chymorth cyfieithu.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.⁴¹⁸

⁴¹⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd ei fod wedi lleoli yn Lloegr. Ategwyd at hynny gan nodi bod canran isel iawn o staff o fewn y sefydliad sydd yn medru'r Gymraeg, a'i bod yn annhebygol y bydd cynnydd yn y niferoedd hynny oherwydd ei leoliad.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Roedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny ar y sail y byddai'r safonau a wneir yn benodol gymwys iddynt yn gyfyngedig, yn unol â'i ymateb.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.⁴¹⁹

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ei fod yn derbyn ei gyfrifoldebau wrth gyflwyno unrhyw bolisiau neu fentrau newydd. Ategwyd at hynny gan gadarnhau bod asesiadau ar effaith ieithyddol yn cael eu cymryd gan y tim cyfreithiol.

Cadarnhawyd ei fod yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi, ond nad oedd ar hyn o bryd yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm, roedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gorfod cydymffurfio â safonau 89, 90 a 91 ar gyfer pob penderfyniad polisi yn afresymol ac yn anghymesur. Nodwyd y byddai gorfod gwneud hynny'n golygu oedi a chymhlethdod i'r broses.

Er hynny, roedd o'r farn y byddai'n rhesymol iddodgeisio barn, ynghyd ag ystyried effeithiau ar unrhyw bolisiau ble bo'r polisi yn berthnasol i ddefnyddwyr ac i wasanaethau Cymraeg yn benodol.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Roedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny ar y sail y byddai'r safonau a wneir yn benodol gymwys iddo yn gyfyngedig, yn unol â'i ymateb.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol.⁴²⁰

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. Er ei fod yn cydnabod na fyddai gweithredu polisi o'r fath yn feichus, nid oedd yn ystyried y gofyniad yn un rhesymol gan ystyried lleoliad y sefydliad, canran isel o staff â sgiliau iaith

⁴¹⁹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴²⁰ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi ei fod o'r farn y byddai'n well iddo sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddelio â hwy yn Gymraeg.

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn darparu'r dogfennau y nodir yn safonau 97-102 yn Gymraeg. Yn yr un modd, cadarnhaodd bod yr holl bolisiau dan sylw yn safonau 103-109 ar gael yn Saesneg yn unig.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chwynion gan aelodau o staff.⁴²¹

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn caniatáu i aelodau staff gyflwyno cwynion at y sefydliad, ynghyd ag ymateb i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ef neu â hi, yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chorff yn disgyblu staff.⁴²²

Wrth ystyried safonau 114-117, derbyniwyd cadarnhad gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn cydymffurfio â'r gofynion ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.⁴²³

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn cydymffurfio ag unrhyw agwedd o'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth, deunyddiau cymorth a'r fewnwyd. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yma'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 56% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁴²⁴

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion ar hyn o bryd. Ategwyd at hynny gan nodi bod hyfforddiant yn y meysydd yr amlinellir yn safonau 126-129. Er hynny, nodwyd ei fod yn darparu hyfforddiant i'w gyflogeion a/neu weithwyr er mwyn iddynt feithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

⁴²¹ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴²² Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴²³ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴²⁴ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Nid oedd unrhyw ddeunyddiau cymorth ar gael yn Gymraeg gan y sefydliad ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â recriwtio gan gorff.⁴²⁵

Ni dderbyniwyd tystiolaeth gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau mewn perthynas â'r fethodoleg a ddefnyddir er mwyn dod i benderfyniad ar gynnwys anghenion sgiliau iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi. Yn ychwanegol i hynny, cadarnhawyd nad oedd yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion mewn perthynas â 135-138 ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.⁴²⁶

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd arwyddion yn cael eu harddangos yn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â chyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.⁴²⁷

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd cyhoeddiadau a negeseuon sain yn cael eu gwneud yng ngweithle'r sefydliad. O'r herwydd nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nid oedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Roedd y rhesymau am hynny'n cynnwys lleoliad ei adeiladau, nifer isel o staff â sgiliau iaith Gymraeg, ac y byddai'n well defnyddio ei adnoddau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddelio â hwy yn Gymraeg.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

⁴²⁵ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴²⁶ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴²⁷ Canran cyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 85% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion.⁴²⁸

Nododd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau bod isadeiledd mewn lle er mwyn delio â chwynion a dderbynnir ganddo, a hynny o fewn terfyn amser penodol. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod y sefydliad yn ymwybodol o nifer y galwadau sydd yn nodi dymuniad i gael gwasanaeth Cymraeg. I'r un perwyl, roedd ganddo gofnod o'r nifer o geisiadau a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod Grŵp mewnol yn derbyn diweddariadau ar gydymffurfiaeth ddwywaith y flwyddyn.

Roedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â chadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Roedd Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny ar y sail y byddai'r safonau a wneir yn benodol gymwys iddo yn gyfyngedig, yn unol â'i ymateb.

⁴²⁸ Canran cyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd 291 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Chyrff Cyhoeddus: Cyffredinol. Derbyniwyd 155 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 136 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath. Mewn 14 o achosion derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Digwyddodd hyn gan fod unigolion wedi ymateb drwy gyfrwng ymgynghoriad y Comisiynydd yn ogystal â chwblhau templed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Derbyniwyd 4 ymateb gan fudiadau neu sefydliadau eraill ⁴²⁹. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw i bob ymateb a dderbyniwyd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad B.

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.

Ffigur 1 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad⁴³⁰

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	16	5%
Blaenau Gwent	1	0%
Bro Morgannwg	7	2%
Caerffili	5	2%
Casnewydd	0	0%
Castell-nedd Port Talbot	2	1%
Ceredigion	30	10%
Conwy	9	3%
Caerdydd	32	11%
Gwynedd	72	25%
Merthyr Tudful	3	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1%
Powys	9	3%
Rhondda Cynon Taf	13	4%
Sir Benfro	4	1%
Sir Ddinbych	22	8%

⁴²⁹ Ceir rhestr o'r mudiadau/sefydliadau hynny yn Atodiad B yr adroddiad safonau.

⁴³⁰ Mae'r ystadegau yma'n cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith.

Sir Fynwy	2	1%
Sir Gâr	21	7%
Sir y Fflint	10	3%
Torfaen	1	0%
Wrecsam	4	1%
Ynys Môn	19	7%
Tu allan i Gymru	6	2%
Dim gwybodaeth	0	0%
Cyfanswm	291	100%

Ymateb y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau y cynhelir mewn perthynas â Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal gweithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?

Wrth ateb y cwestiwn hwn fel rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwrpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Ffigur 2 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

Ffigur 2 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur – Safonau cyflenwi gwasanaethau⁴³¹



Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, roedd 94% (146) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 146 a ymatebodd, roedd 93% (136) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw ystyried effaith eu penderfyniadau polisi, gan sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, gwell cyfleoedd i bersonau allu defnyddio'r Gymraeg ynghyd â sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

⁴³¹ Mae talgrynnu ffigyrau i rifau lawn yn golygu nad yw'r canrannau o reidrwydd yn adio'n union i 100%

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur – Safonau llunio polisi⁴³²



Safonau gweithredu

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, roedd 94% (146) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 146 a ymatebodd, roedd 93% (136) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw orfod hwyluso a defnyddio'r Gymraeg yn unol â diffiniad safonau gweithredu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn 4 yr holiadur – Safonau gweithredu⁴³³



⁴³² Noder bod yr ystadegau yma'n ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

⁴³³ Noder bod yr ystadegau yma'n ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

Safonau cadw cofnodion

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, roedd 95% (148) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 148 a ymatebodd, roedd 93% (138) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 5 Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur – Safonau cadw cofnodion⁴³⁴




Sylwadau Pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol y roeddent o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar ein gwefan, darparodd 49% (76) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

⁴³⁴ Noder bod yr ystadegau yma'n ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn. Mae talgrynnu ffigurau i rifau lawn yn golygu nad yw'r canrannau o reidrwydd yn adio'n union i 100%.

Ffigur 6 Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd



Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mewn cysylltiad â'r safonau yn ymwneud â chyrsiau, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd ynghyd â sectorau eraill, a'r angen i bennu safonau fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsiau, a'r perygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrff neu sy'n cael eu rheoli gan y cyrff yn unig.

Safonau Lluinio Polisi

Cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys i'r Comisiynwyr a enwir yng nghylch 2, gan nodi bod nifer o adroddiadau ganddynt lle nad oes sôn am y Gymraeg o gwbl, a hynny mewn meysydd lle bo hawliau iaith yn cael eu tramgwyddo yn gyson.

O'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd, bu cyfeiriadau at nifer o'r cyrff rheoleiddio proffesiynau yng nghylch 2, gan nodi y dylid sicrhau y caiff safonau eu pennu ar eu cyfer a fydd yn arwain at well cynllunio gweithlu ar gyfer dibenion Cymru ddwyieithog.

6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt yng nghylch 1, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r personau perthnasol ochr yn ochr â'r cyd-destun. Roedd hynny, yn eu tyb hwy, yn cynnwys bwriad y Ddeddfwriaeth a dymuniad y Ddeddfwrfa o ran statws cyfreithiol y Gymraeg; maint y personau dan sylw; eu hymwneud â'r cyhoedd; a'r gwahaniaeth rhwng gosod safonau a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r safonau hynny.

Ategwyd at hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef; pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol ar gyfer pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. lle bo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, caniatáu rhagor o amser i sefydliad gydymffurfio â safon o'i gymharu â sefydliad lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes. Roedd y Panel unwaith eto'n gryf o'r farn mai'r ail ddull yw'r mwyaf addas i Gomisiynydd y Gymraeg ei weithredu yn y mwyafrif o achosion, gan ystyried bod sicrhau gwell cysondeb rhwng personau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg yn un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hynny, derbyniwyd sylwadau gan y Panel ynglŷn â rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i bersonau sydd â'u pencadlys tu allan i Gymru, gan ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ar draws y DU. Pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3)

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Roedd y Panel o'r farn y dylid gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys i'r personau perthnasol, gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd dan sylw.

Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, nododd y Panel eu bod o'r farn nad oedd unrhyw reswm na ddylai'r personau perthnasol allu cyflawni mwyafrif o'r gweithgareddau dan sylw a chydymffurfio â hwy, a thrwy hynny'n ymwneud â'r cyhoedd yn Gymraeg yn gynyddol. Er hynny, roedd y Panel o'r farn y dylid sicrhau ychydig o hyblygrwydd mewn perthynas â rhai gweithgareddau, gan dynnu sylw penodol at gynhyrchu a cyhoeddi dogfennau, derbyn ceisiadau am grant ynghyd â chysiau. Pwysleisiwyd mai hyblygrwydd mewn sefyllfaoedd neu amgylchiadau eithriadol fyddai ei angen, gan dynnu sylw'n benodol at ddogfennau fyddai'n gyfyngedig o ran pwnc a'r gynulleidfa darged dybiedig.

Yn yr un modd, roedd y Panel o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i leoliadau canolfannau neu swyddfeydd y personau dan sylw wrth gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai angen ystyried a fyddai'n rhesymol i bersonau o'r fath gydymffurfio â detholiad o'r safonau ble nad oes ganddo bresenoldeb yng Nghymru. Pwysleisiwyd y cymalau perthnasol yn adran 44 (3) y Mesur fel modd i'r Comisiynydd allu goresgyn sefyllfaoedd cyffelyb.

Safonau llunio polisi

Croesawyd y safonau llunio polisi a bennwyd yn y rheoliadau drafft gan y Panel. Ategwyd at hynny gan nodi y dylai'r safonau yma gael eu gosod ar bob person y cynhelir ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy yng nghylch 2, gan bwysleisio pwysigrwydd cydymffurfiaeth â hwy ar bob lefel.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai penderfyniadau polisi'r personau perthnasol wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg, ac y dylid gwneud safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

Safonau gweithredu

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu, ac y dylid gwneud safonau gweithredu'n benodol gymwys iddynt.

Safonau cadw cofnodion

Roedd y Panel yn unfryd o'r farn bod gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys i bersonau cylch 2 yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gweddill y safonau y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau penodedig eraill, a chadw cofnodion am gwynion. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt.

7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol, y cyhoedd a'r Panel Cyngori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Gymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person, ac i'r graddau y mae'r person, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau bod person yn gwneud y gweithgaredd⁴³⁵, boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddo. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwrdd gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai bod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i farn ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

⁴³⁵ Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3)

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol.

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt) a pherfformiad (y graddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y person wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, â'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw yn gam yn ôl ac yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodir bod perfformiad, ynghyd â'r graddau y gall person gydymffurfio â safon ar gyfnod penodol mewn amser, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, waethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau gwrdd ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cydnabyddir i bersonau adnabod heriau a rhwystrau posibl i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, nid oedd y materion a godwyd ar y cyfan yn perthyn i'r holl safonau a oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd penodol. Mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau cymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Derbyniwyd dystiolaeth gan bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn oedd yn mynegi pryder ynglŷn â rhesymoldeb cydymffurfio â'r gofynion, a hynny'n seiliedig ar y ffaith eu bod yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig. Dylid nodi bod adran 44 y Mesur yn darparu fframwaith hyblyg i Gomisiynydd y Gymraeg benderfynu ar yr hyn sydd yn ofynnol i berson gydymffurfio ag ef o fewn hysbysiad cydymffurfio.

Casgliad 1: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn at gorff a chan gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau

- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- corff yn dyfarnu ar geisiadau ar dendrau am gontract
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- hunaniaeth gorfforaethol corff

Nododd 3 person perthnasol (The National Institute of Adult Continuing Education, Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru) nad ydynt yn cynnal cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd. Oherwydd natur a swyddogaethau un o'r sefydliadau dan sylw (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru), ynghyd â'i nod a'i amcanion, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol iddo.

Yn yr un modd, mae ymrwymadau yng nghynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Casgliad 2: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Nododd 3 person perthnasol (The National Institute of Adult Continuing Education, Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru) nad ydynt yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff. Oherwydd natur a swyddogaethau un o'r sefydliadau dan sylw (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru), ynghyd â'i nod a'i amcanion, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol iddo.

Yn yr un modd, mae ymrwymadau yng nghynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Casgliad 3: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Nododd 3 person perthnasol (Cyngor Osteopatheg Cyffredinol, Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Cyngor Optegol Cyffredinol) nad ydynt yn arddangos arwyddion.

Ymddengys mai arddangos arwyddion yn Gymraeg oedd dan sylw ganddynt, a hynny oherwydd lleoliad ei swyddfeydd yn Lloegr yn unig ar hyn o bryd. Dylid nodi bod un o'r personau perthnasol (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) wedi cadarnhau y byddai'n arddangos arwyddion Cymraeg pe bai'n agor swyddfa yng Nghymru yn y dyfodol.

Dylid nodi nad arwyddion o fewn adeiladau personau sydd o dan sylw yma; gall personau

arddangos arwyddion wrth gynnal gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau eraill e.e cyfarfodydd cyhoeddus.

Yn yr un modd, ac am yr un rhesymau (sef swyddfeydd y tu allan i Gymru yn unig), nododd nifer o bersonau perthnasol nad ydynt yn derbyn ymwelwyr yn Gymraeg. Dylid nodi y rhoddir hyblygrwydd o dan adran 44 y Mesur i Gomisiynydd y Gymraeg nodi'r amgylchiadau y bydd disgwyl i berson gydymffurfio â safon mewn hysbysiad cydymffurfio.

Casgliad 4: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau canlynol fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Nododd 11 person perthnasol (Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch, Colegau Cymru Cyfyngedig, Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol, Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru) nad ydynt yn dyfarnu ar geisiadau am grant o gwbl, neu ddim yn gwneud hynny yn Gymraeg oherwydd eu bod wedi'u lleoli tu allan i Gymru. Er hynny, ni dderbyniwyd tystiolaeth i amlygu a oedd hynny o ddewis, neu am resymau yn ymwneud â'u cyfansoddiadau.

Dylid nodi y rhoddir hyblygrwydd o dan adran 44 y Mesur i Gomisiynydd y Gymraeg nodi'r amgylchiadau y bydd disgwyl i berson gydymffurfio â safon mewn hysbysiad cydymffurfio.

Casgliad 5: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd canlynol fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn, i'r graddau bod y pŵer a'r swyddogaeth gan y personau i wneud hynny:

- corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant

Nododd 10 person perthnasol (Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyngor Optegol Cyffredinol, Cyngor Osteopatheg Cyffredinol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch a National Institute of Adult Continuing Education) nad ydynt yn darparu cyrsiau i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Er hynny, roedd aneglurder ynghylch digwyddiadau gwybodaeth a gynhelir gan gyrff rheoleiddio iechyd fel rhan o'u swyddogaethau statudol. Amlygwyd aneglurder hefyd ynghylch diffiniad 'person' yng nghyd-destun y gweithgaredd hwn, gyda nifer yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd cyrsiau o'r fath ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ynghylch yr uchod wrth bennu safonau mewn rheoliadau. Yn yr un modd, ymddengys bod aneglurder wedi bod ymysg y personau perthnasol ynghylch union ddiffiniad 'cwrs addysg'. Noda'r rheoliadau drafft mai cwrs addysg yw "unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu ar

gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chysiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad"⁴³⁶.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 6: Ar sail y diffiniad presennol o'r rheoliadau, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

○ cyrsiau a ddarperir gan gorff

Nododd pob person perthnasol ag eithrio 2 (Cyngor Optegol Cyffredinol, Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch) nad ydynt yn cyhoeddi negeseuon dros system annerch gyhoeddus ar hyn o bryd. Yng nghyswllt nifer ohonynt, nid oedd yn eglur a oedd hynny am nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd o gwbl ynteu am ei fod yn digwydd yn Lloegr yn unig.

Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y gall personau ymgymryd â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau eraill y mae'n debygol y byddai systemau annerch cyhoeddus yn gysylltiedig â hwy: er enghraifft cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, neu ddigwyddadau cyhoeddus. O'r herwydd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i'r holl bersonau yn yr adroddiad hwn.

Casgliad 7: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

○ systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau llunio polisi

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi'r holl bersonau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwn yw bod disgwyliad eisoes ar bersonau i asesu goblygiadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Cadarnhawyd hyn oll yn y dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn.

Ymhellach, nododd mwyafrif helaeth o bersonau y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau llunio polisi'n benodol gymwys iddynt.

⁴³⁶ Paragraff 37, Rhan 3, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015.

Er hynny, dylid nodi'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan ddau berson yng nghyswllt gofynion deddfwriaethol eraill sydd arnynt a sut y mae'r gofynion hynny'n cysylltu â'r Mesur. Cadarnhaodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol bod y ddeddfwriaeth sy'n pennu cylch gwaith y sefydliad yn gofyn iddo drin holl wledydd y DU yn hafal. Yn unol â hyn, ni fyddai'n bosib ffafrio Cymru na siaradwyr Cymraeg dros eraill. Yn yr un modd, cyfeiriodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth at y 'Mutual Recognition of Professional Qualifications Directive (MRPQ)' Ewropeaidd, sy'n datgan fod pob aelod-wladwriaeth yn medru cyflwyno gofynion ieithyddol mewn perthynas ag un iaith yn unig. Aethpwyd ymlaen i nodi bod Llywodraeth y DU wedi datgan mai Saesneg fyddai'r iaith honno. O'r herwydd, roedd y gofynion iaith yn mynnu bod nyrsiau a bydwreagedd yn meddu ar sgiliau Saesneg digonol.

Ystyriwyd hefyd y mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg sydd i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (pasiwyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisiau, strategaethau a mentrau newydd ac yn eu gweithredu.

Casgliad 8: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau gweithredu

Noda adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw:

safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
- (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Golyga hynny mai diben y safonau gweithredu yw sicrhau bod aelod o staff yn cael defnyddio'r Gymraeg wrth wneud ei weithgareddau perthnasol gydag eraill. Gall hynny olygu â'r cyhoedd yng Nghymru, neu â pherson perthnasol arall. Drwy'r safonau yma, fe sicrhewr bod sgiliau iaith staff yn ddigonol er mwyn i unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg â'r person hwnnw allu gwneud hynny. Dylid pwysleisio bod yr amcan hwnnw'r un mor briodol i bersonau sydd wedi eu lleoli mewn mannau eraill o'r DU, ond sydd yn cyflenwi gwasanaethau i Gymru, ag yw i bersonau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Caiff yr uchod ei ategu gan y ffaith bod Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod safonau gweithredu yn gymwysadwy i'r holl bersonau.

Noda Comisiynydd y Gymraeg bod rhai personau o'r math hwn (h.y. sydd ddim wedi eu lleoli yng Nghymru) wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad safonau hwn, sef:

- Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau

Ar 24 Mawrth 2015, cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y rheoliadau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Lleolir yr holl sefydliadau hynny yng Nghymru. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau gweithredu y caiff eu pennu mewn rheoliadau ar gyfer cylch 2 yn cyflawni'r un amcanion a nodir uchod, gan gydnabod nad yw rhai personau wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm wrth y safonau gweithredu yn newydd i nifer o'r personau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau ble nad oes trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hynny, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i nifer o bersonau eu gwneud o dan gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys pennu mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol; mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol; ynghyd â mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant a'i ddarparu i gyflogeion.

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod hi'n rhesymol a chymesur i'r personau hyn alluogi eu gweithwyr wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg, neu'n weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol i ymgyswng at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lleddfu eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol, yn rhesymol a chymesur.

Personau nad ydynt wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd:

Casgliad 9: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol, Y Cyngor Optegol Cyffredinol, Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

- Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- Safonau ynghylch recriwtio gan gorff.

Casgliad 10: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried pennu safonau amgen mewn perthynas â'r materion isod ar gyfer y personau uchod:

- Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelod o staff corff
- Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd
- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Personau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru:

Casgliad 11: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol arall a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd
- Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- Safonau ynghylch recriwtio gan gorff
- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl bersonau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3) gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion. Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r sefydliadau dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, gyda'r rhan helaeth o'r personau, ar y cyfan, yn nodi bod nifer o'r safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol.

Casgliad 12: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau hybu

Cyngor Gofal Cymru yn unig oedd yn dymuno cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Casgliad 13: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gwenidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau hybu fod yn benodol gymwys i Gyngor Gofal Cymru.

Safonau yn ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015⁴³⁷ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 y Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru, 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio'⁴³⁸, yn egluro mai rôl arolygwyr yw 'gwirio'n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol'. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy'n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw'r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton sy'n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch. Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrff arolygu oruchwyllo popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach i hynny, mae hunan asesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Casgliad 14: Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau, ac wrth ystyried yr uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru wneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn benodol gymwys i'r holl bersonau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

⁴³⁷ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

⁴³⁸ <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementcy.pdf>

Safonau ychwanegol y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn adroddiad safonau Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (3)

Nodir yr isod yn adran 64 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Os -

- (a) casgliadau'r ymchwiliad safonau (boed yn llwyr neu'n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i berson, a
- (b) nad yw unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid pennu safonau ychwanegol i'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014. Cyrhaeddwyd y farn yma yn dilyn derbyn tystiolaeth gan y cyhoedd a gan y personau perthnasol fel rhan o'r ymchwiliad safonau.

Gweithgareddau: cyfryngau cymdeithasol; peiriannau hunanwasanaeth

Ers i gyfnod yr ymchwiliad safonau ddirwyn i ben, fe osodwyd fersiwn ddrafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2015. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r Rheoliadau yma yng Nghyfarfod Llawn 24 Mawrth 2015. Gwelwyd safonau cyflenwi gwasanaeth ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â pheiriannau hunanwasanaeth yn ychwanegol i'r ystod o weithgareddau a oedd yn destun yr ymchwiliad safonau hwn. Safonau 58, 59, a 60 yw'r safonau yma ymhlith Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015⁴³⁹.

Casgliad 15: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn, pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn bod y gweithgareddau isod yn rhai gallasai'r personau fod yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol:

- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth.

⁴³⁹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64 (4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd rhan yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63;
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

'A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation'.⁴⁴⁰

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati.
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.⁴⁴¹

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Rhan 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ai peidio.

Cadarnhaodd y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru mewn datganiad ar 24 Mawrth 2015 y rhagwelir ar hyn o bryd y cychwynnir ar y broses o gyflwyno rheoliadau ar gyfer y personau perthnasol a nodir yn yr adroddiad hwn erbyn diwedd 2015, â dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

⁴⁴⁰ Adran 76 (2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

⁴⁴¹ <http://wales.gov.uk/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

Atodiad A - Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 2.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd at hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicrheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod y safonau a bennir yn adlewyrchu'n llawn argymhellion Ymholiad Iechyd Comisiynydd y Gymraeg.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiofyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiâu recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn galw am yr angen i sicrhau y caiff safonau penodol eu pennu ar gyfer y cyrff iechyd sydd yn adlewyrchu canfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg yn yr adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol'. Ategwyd hynny drwy nodi y dylid pennu safonau mewn perthynas â chontractau cenedlaethol â meddygon teulu a darparwyr gofal

sylfaenol.

Derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi bod gwendid anfwriadol, yn eu tyb hwy, yn y rheoliadau drafft, a hynny oherwydd nad yw'r safonau mewn perthynas â derbyn gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i gyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw a gwasanaeth mewn prif dderbynfeydd. Yn yr un modd, nodwyd ei fod hi'n hollbwysig bod rheoliadau mewn perthynas â chyrff lechyd yn pennu safonau cyfarfodydd personol sy'n cwmpasu apwyntiadau, ymgynghoriadau a phob cyswllt wyneb-yn-wyneb arall o'r fath.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd personol yn y maes iechyd, y maes addysg a'r maes cyfiawnder, gan dynnu sylw at y ffaith nad oeddynt o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaeth Gymraeg wyneb-yn-wyneb y tu hwnt i gyfarfodydd personol ac mewn derbynfeydd. Ategwyd hynny gan nodi y dylid ymestyn y diffiniad i gyd-destunau amrywiol eraill.

Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cefnogi'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, a hynny gan gofio bod nifer o sefydliadau yn y maes cyfiawnder wedi eu cynnwys yng nghylch 2. Er bod y safonau yn cyfeirio at fuddiant neu lesiant personol, mynegwyd pryder gan rai nad oedd hi'n gwbl eglur a fyddai hynny'n cwmpasu hawl person i gael ei gyfweld yn Gymraeg yn y cyd-destun uchod.

Yng nghyd-destun arwyddion, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod arwyddion electronig ac arddangosfeydd clywedol mewn lleoedd megis amgueddfeydd yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Yn yr un modd, nodwyd y dylai uwchdeitlau ac is-deitlau mewn dramâu a pherfformiadau fod o fewn y diffiniad o arwyddion hefyd, gyda'r golwg ar osod safonau ar bersonau megis y Theatr Genedlaethol ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Mewn cysylltiad â'r safonau yn ymwneud â chyrff, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd ynghyd â sectorau eraill, a'r angen i bennu safonau fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsiau, a'r perygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrff neu sy'n cael eu rheoli gan y cyrff yn unig. Nododd un ymatebwr bwysigrwydd y safonau yma mewn perthynas â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Wrth ymateb i'r safonau mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant, cyfeiriodd nifer o unigolion at bwysigrwydd pennu safonau fyddai'n sicrhau bod amodau iaith Gymraeg yn cael eu gosod ar y grantiau a ddosberthir gan y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2. Rhoddwyd pwyslais ar gyrff megis Chwaraeon Cymru, Cyngor y Celfyddydau a'r Gronfa Loteri Fawr, gan nodi ei fod yn sefydliadau lle mae dosbarthiad grantiau yn hollbwysig o ran cynyddu defnydd a darpariaeth Gymraeg.

I'r un perwyl, nododd rhai ymatebwyr y dylid pennu safon ychwanegol mewn perthynas â dyfarnu ar dendrau am gontract, gyda'r golwg ar sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau ar ran S4C hefyd yn dod o dan ddyletswyddau i symud tuag at ddefnydd mewnol o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau dan gontract i'r Sianel Gymraeg.

Mynegwyd pryderon gan nifer o aelodau o'r cyhoedd nad oedd safon wedi ei phennu yn y rheoliadau drafft ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Ategwyd hynny gan nodi bod y cyn-Weinidog Llywodraeth Leol wedi datgan y byddai safonau yn ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn gosod trothwyon ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â hysbysiadau swyddogol, nododd nifer o ymatebwyr y dylid sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu gwneud yn benodol gymwys i bob sefydliad sydd wedi eu cynnwys yn y cylch hwn. Ategwyd hynny gan un ymatebwr a nododd y dylid sicrhau bod presgripsiynau yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu priodoldeb cyhoeddi hysbysiadau ar bynciau arbenigol yn y ddwy iaith, gan fynd ymlaen i gwestiynu'r angen i gyhoeddi hysbysiad swyddogol o gwbl yn yr achosion hynny.

Nododd un ymatebwr y dylai'r safonau mewn perthynas â chorfforaethau addysg (bellach ac uwch) ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ymrwymo i ddarpariaeth addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn ogystal â'r adnoddau a dderbynnir drwy ffrydiau allanol. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r cyrff dan sylw hefyd ysgogi galw gan fyfyrwyr, yn ogystal ag ymateb iddo. Nodir yr isod yn 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'⁴⁴²:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr —cwrw addysg yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chysiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw Ddeddfiad.

Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar yr uchod wrth bennu safonau, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach ac uwch mewn rheoliadau.

Safonau llunio polisi

Cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gosod y safonau uchod ar bob sefydliad yng nghylch 2, gan ystyried mai'r polisiâu sy'n sail i'w holl weithredoedd. Cyfeiriodd ymatebwr arall yn benodol at sefydliadau megis y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Chwaraeon Cymru, Canolfan y Mileniwm ynghyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan nodi y dylent roi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

I'r un perwyl, cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys i'r Comisiynwyr a enwir yng nghylch 2, gan nodi bod nifer o adroddiadau ganddynt lle nad oes sôn am y Gymraeg o gwbl, a hynny mewn meysydd lle bo hawliau iaith yn cael eu tramgwyddo yn gyson.

Derbyniwyd sylwadau penodol mewn perthynas â'r Swyddfa Gyfathrebiadau, gan nodi ei rôl hollbwysig wrth ddyfarnu trwyddedau radio a theledu. Gyda hynny mewn golwg, roedd yr ymatebwr dan sylw o'r farn y dylid pennu safon sydd yn gosod amodau iaith ar drwyddedau o dan y safonau llunio polisi neu'r safonau mewn perthynas â dyfarnu contractau.

O'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd, bu cyfeiriadau at nifer o'r cyrff rheoleiddio proffesiynau yng nghylch 2, gan nodi y dylid sicrhau y caiff safonau eu pennu

⁴⁴² Paragraff 37, Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

ar eu cyfer a fydd yn arwain at well cynllunio gweithlu ar gyfer dibenion Cymru ddwyieithog.

Mynegwyd pryder gan un ymatebwr ynglŷn â chyfyngder effeithiolrwydd y safonau llunio polisi y bwriedir eu pennu. Ategwyd hynny drwy nodi nad oes llawer o bolisiâu'n gallu bodoli ar lefel leol yn unig, ac y dylent fod yn rhan o gyd-destun ehangach, yn aml yn genedlaethol.

Safonau gweithredu

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl sefydliadau megis Amgueddfa Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, S4C, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru o ran cyfrannu at y Gymraeg fel iaith gwaith gan un ymatebwr. Nododd y dylai'r sefydliadau dan sylw, ymysg eraill, fod yn rai sydd yn gweithio tuag at weinyddu'n fewnol yn Gymraeg. O'r herwydd, roedd o'r farn y dylid pennu safonau gweithredu ychwanegol at y rhai yn y rheoliadau drafft fyddai'n galluogi'r sefydliadau yma, ymysg eraill, i weithio tuag at y nod hwnnw.

Yn yr un modd, roedd nifer o'r farn y dylid pennu safonau haen uwch mewn perthynas â recriwtio, gan ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau sydd eisoes yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg yn unig.

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn nodi'r angen i bennu safonau a fyddai'n rhoi dyletswyddau ar brifysgolion i gynnig a darparu cyfleoedd i'w myfyrwyr yn Gymraeg (ac i'r di-Gymraeg ddysgu'r iaith yn rhugl), ynghyd â safon fyddai'n sicrhau bod dyletswydd arnynt mewn perthynas â hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

Wrth gyflwyno sylwadau mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, nododd un ymatebwr y dylid pennu safon a fyddai'n sicrhau bod cyfran o'r bobl sy'n cael eu penodi i'r Comisiwn yn siaradwyr Gymraeg, a hynny er mwyn adlewyrchu'r hyn a fynegwyd wrth ddiwygio'r gyfraith berthnasol honno. Derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi pwysigrwydd pennu safon o'r math hwn ar draws y sefydliadau dan sylw, a hynny er mwyn sicrhau y gall sefydliadau weithredu a chydymffurfio'n llawn â'r gofynion. I'r un perwyl, nododd un ymatebwr y dylid sicrhau bod safon yn cael ei phennu er mwyn gosod dyletswydd ar sefydliadau i gynnig rhaglenni dysgu Gymraeg yn ddwys.

Derbyniwyd rhai sylwadau a oedd o'r farn y dylid eithrio swyddfeydd sefydliadol sydd tu allan i Gymru yng nghyd-destun y safonau gweithredu.

Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd nifer o ymatebion oedd yn gryf o'r farn y dylai fod sefydliadau yn gorfod cadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder cyhoeddus mewn perthynas â chydymffurfio â'r gofynion.

Er hynny, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai'r ddyletswydd i gadw cofnodion fod yn gymesur, ac y byddai'n fuddsoddiad gwell i sefydliad wella ystod ac ansawdd eu gwasanaethau cyfrwng Gymraeg. Ategwyd hynny gan nodi bod cyfrifoldeb ar Gomisiynydd y Gymraeg i ddyfarnu ar y cydbwysedd priodol hwnnw.

Undebau myfyrwyr corfforaethau addysg bellach ac uwch

Wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach ac uwch, derbyniwyd nifer o sylwadau oedd yn nodi'r angen i wneud safonau'n

gymwysadwy ac yn benodol gymwys i'r undebau myfyrwyr. Pwysleisiodd un ymatebwr y rhan hanfodol bwysig sydd gan undebau myfyrwyr wrth ddarparu gwasanaethau i'r myfyrwyr ar y cyd â'r corfforaethau dan sylw, gan gyfeirio yn benodol at gymorth a chynrychiolaeth academiaidd ynghyd â gwarchod lles a buddiannau'r myfyrwyr.

Cyfeiriodd yr ymatebwr dan sylw at y dylanwad uniongyrchol a phellgyrhaeddol y caiff yr undebau ar brofiad myfyrwyr, ynghyd â'r ffaith ei fod yn derbyn symiau sylweddol o arian gan y corfforaethau dan sylw. Ategwyd hynny gan nodi bod cynllun iaith Gymraeg presennol un gorfforaeth yn cydnabod y berthynas sydd rhyngddynt hwy â'r Undeb, a'r cyfrifoldeb sydd ganddynt i'r perwyl hynny.

Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau o undebau myfyrwyr yn gweithredu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Er hynny, gan ystyried y gofynion ynghlwm â'r rheoliadau drafft, pwysleisiodd un ymatebwr mai tameidiog oedd hynny, ac yn aml wedi llawer o waith pwysu gan fyfyrwyr. Gyda hynny mewn golwg, mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg cynllunio strategol a chanolog sydd ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn undebau myfyrwyr, gan beri i'r Undebau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I'r perwyl hwnnw, roedd yr ymatebwr o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau penodol yn cael eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg, a hynny er mwyn cydnabod y berthynas hollbwysig â'r undebau, ynghyd â'r ystod o wasanaethau a ddarperir ganddynt i fyfyrwyr ar ran y corfforaethau dan sylw. Aeth yr ymatebwr dan sylw ymlaen i nodi ei fod o'r farn y byddai peidio â phennu safonau o'r math hwn yn golygu na chaiff hawliau ieithyddol myfyrwyr Cymru eu diogelu, ac, o safbwynt y myfyrwyr hynny, mai yn ofer yr aiff unrhyw ymgais i osod safonau ar lefel gorfforaethol.

Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r personau perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cyngori, ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

Personau perthnasol

- Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch
- Colegau Cymru Cyfyngedig
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau
- The National Institute of Adult Continuing Education
- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Aelodau'r cyhoedd

- Alun Jones
- Alun Ceri Jones
- Eifion Jones
- Elin Walker Jones
- Eiliw Alwyn
- Selwyn Lloyd-Jones
- Hywel Wyn Jones
- John Arwel Griffiths
- Lloyd Evans
- Anthony Barry
- Sharon Roberts
- Sion Jobbins
- Owen Saer
- Einir Sion
- Sian Gwenllian
- Lisbeth McLean
- Amanda Evans
- Rhys Glyn
- Anthony Barnard
- Anthony Caradog Evans
- Tim Jones
- Yasmin Morris

- Llinos Jones
- Aled Jones
- Dewi Snelson
- Emrys Wynne
- Curon Wyn Davies
- Bethan Harvey
- Mair Edwards
- Kathryn
- Helen Thomas
- Geraint Brython Edwards
- Rhodri Williams
- Ruth Evans
- Penri Williams
- Huw Jones
- Emyr Tomos
- Bethan Williams
- Llyr ap Gruffydd
- Robin Farrar
- Robert Jones
- Iago ap Steffan
- Sophie Hughes
- Huw Alun Roberts
- Chris Andrew
- Heledd Gwyndaf
- John Wynn Jones
- Manon James
- Gill Stephen
- Gwyn Williams
- Daron Pierce
- Sian Wyn Jones
- Emma Lloyd
- Neville Evans
- Diane Jones
- Jane Aaron
- Emyr Puw
- Harri Bryn Jones
- Liz Saville Roberts
- Craig ab Iago
- Rhian Davies
- Gwyn Sion Ifan
- Anna Williams
- Dyfan Jones
- Dai Hawkins
- Trefor Jones-Morris
- Dilwyn Morgan
- Parch Emyr Wyn Thomas
- Bryn Davies
- Dr Ceridwen Lloyd Morgan
- Howard Thomas
- Connor
- Lydia Jones

- Rhodri Jones
- Bob Gaffey
- Angharad
- Ruth Williams
- Nic Daniels
- Jeffrey Jones
- Pablo Dubois
- Gareth Wood
- Llinos Roberts
- Bethan Jones
- Sian Mererid Jones
- Duncan Brown
- B Griffiths
- Awen M G Schiavone
- Osian Wyn Owen
- Robin Owain
- Judith Griffith
- Richard John Griffith
- Clive James
- Sion Williams
- Mathew Rees
- Thomas John Davies
- Ben Screen
- Mari Williams
- Enfys Jones
- Thomas Shaw
- Dafydd Thomas
- Angharad Brown
- John Jones
- Iago Sion
- Dafydd Williams
- Ieuan Parry
- Huw Thomas
- William Schleising
- Huw Roberts

Sefydliadau/Mudiadau

- Cymdeithas yr Iaith
- Dyfodol i'r Iaith
- Mentrau Iaith Cymru
- Swyddog y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phwyllgor y Gymdeithas Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
- Coleg Gymraeg Cenedlaethol

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Dr Ian Rees
- Gareth Jones
- Yr Athro Gwynedd Parry
- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper